



Cynllun Busnes Gwasanaethau Rheoliadol Rennir 2018/19



Shared
Regulatory
Services

Gwasanaethau
Rheoliadol
a Rennir



Diogelwch a Safonau Bwyd



Gweithio gyda Busnesau



Iechyd a Diogelwch



Diogelu



Diogelwch Cynnyrch



Diogelwch Tai



Tir Llygredig



Gwerthu o dan Oed



Uygredd Sŵn



Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru



Trwyddedu



Iechyd Porthladd



Pwysau a Mesurau



Clefydau Heintus



Uygredd Aer



Masnachu Teg



Iechyd a Lles Anifeiliaid



Gweithio gyda Busnesau



Iechyd a Diogelwch



Diogelwch Cynnyrch



Diogelwch Tai



Gwerthu o dan Oed



Uygredd Sŵn



Trwyddedu



Iechyd Porthladd



Clefydau Heintus



Uygredd Aer



Diogelwch a Safonau Bwyd



Masnachu Teg



Iechyd a Lles Anifeiliaid

Cynnwys

Cyflwyniad	<u>2</u>
1. Trosolwg o Wasanaethau	<u>4</u>
1.1 Cefndir	<u>4</u>
1.2 Prif wasanaethau a gynigir	<u>5</u>
1.3 Rheoli a Llywodraethu	<u>8</u>
1.4 Proffil ardal	<u>9</u>
1.5 Mynediad i wasanaethau	<u>10</u>
1.6 Adnoddau staff	<u>11</u>
2. Amcanion y gwasanaeth a blaenoriaethau strategol	<u>12</u>
2.1 Gweledigaeth, blaenoriaethau strategol ac amcanion	<u>12</u>
2.2 Blaenoriaethau corfforaethol a phrif ganlyniadau awdurdodau lleol partner	<u>14</u>
2.3 Cyflawni ein gweledigaeth, ein hamcanion a'n blaenoriaethau	<u>15</u>
3. Heriau	<u>16</u>
4. Cyllideb	<u>18</u>
4.1 Dyraniad ariannol	<u>18</u>
4.2 Goblygiadau adnoddau (ariannol a chyflogaeth)	<u>18</u>
4.3 Manteisio i'r eithaf ar adnoddau	<u>20</u>
5. Datblygu'r Gweithlu	<u>21</u>
6. Troi gweithredoedd yn ganlyniadau	<u>22</u>
6.1 Gwella iechyd a llesiant	<u>23</u>
6.2 Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed	<u>36</u>
6.3 Gwarchod yr amgylchedd	<u>46</u>
6.4 Cefnogi'r economi leol	<u>55</u>
6.5 Manteisio i'r eithaf ar adnoddau	<u>64</u>
Atodiadau	
1. Cofrestr Risg	<u>74</u>
2. Cynllun Gweithredu	<u>76</u>

Cyflwyniad



Mae cynllun busnes 2018/19 y Cydwasanaethau Rheoleiddio yn cynrychioli ein pedwaredd raglen waith. Mae ein pum blaenoriaeth – diogelu iechyd a lles, amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed, gwella'r amgylchedd lleol, cefnogi'r economi leol, gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau – oll yn parhau i fod ar waith ac rydym yn gweld effaith wirioneddol a chanlyniadau arwyddocaol i'r bobl sy'n byw yn y rhanbarth.

Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio yn anelu at fod yn sefydliad â hunaniaeth glir, gan gyflogi tîm â ffocws a chymhelliant, a ategir gan sylfaen weithredu ariannol gadarn. Rydym am fod yn sefydliad sydd ag enw da am ragoriaeth gyda'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau gan eu bod am weithio gyda'r goreuon.

Mae ein gweledigaeth, sef i fod y prif ddarparwr gwasanaethau rheoleiddio sy'n diogelu iechyd, diogelwch ac economi'r rhanbarth, yn seiliedig ar:

- Canolbwyntio adnoddau ar gymunedau ac unigolion sydd â'r angen mwyaf; byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i'r rheini sydd â'r angen mwyaf.
- Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau er mwyn llywio ein penderfyniadau a llunio gwasanaethau sy'n berthnasol ac yn gwneud gwahaniaeth.

Ers cychwyn y cysyniad o'r Cydwasanaethau Rheoleiddio, bu sôn am ad-drefnu llywodraeth leol yn y dyfodol agos. Mae'n berthnasol cofio pe baem wedi aros i'r trafodaethau hyn ddwyn ffrwyth cyn penderfynu pryd a sut i gydweithio, ni fyddem byth wedi gwneud unrhyw beth. Er ei bod yn wir bod ymgynghoriad arall gan Lywodraeth Cymru ar y gweill, ni all yr Cydwasanaethau Rheoleiddio ymhelaethu ar hynny. Byddwn yn parhau i gydweithio'n llwyddiannus gyda'n Gwasanaethau Rheoliadol, ac yn darparu gwasanaeth gwych i bobl y rhanbarth. Mae hynny'n her i unrhyw sefydliad, ond i un fel un ni sy'n ymwneud â chynifer o wahanol 'fusnesau' ar draws tri chyngor gwahanol, ni all neb danddatgan yr ymgymeriad hwnnw.

Mae'r byd yn newid o'n cwmpas ac felly er mwyn parhau'n effeithiol ac yn berthnasol rhaid i ni newid hefyd, drwy gynnig atebion i'r heriau sy'n wynebu aelodau etholedig, drwy sicrhau bod pobl yn deall pwysigrwydd ac effaith ein rôl a thrwy weld newid fel datblygiad ac nid rhwystr.

Mae cynllun busnes y Cydwasanaethau Rheoleiddio yn dangos sefydliad sydd wedi gwreiddio ei hun o fewn y tri chyngor; sefydliad sy'n perfformio'n dda ac sy'n parhau i wella; sefydliad sy'n fywiog ac yn barod i wneud pethau'n wahanol; sefydliad sy'n herio arferion anghyfreithlon ac sy'n diogelu buddiannau'r rhanbarth. Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio yn gwneud *“beth mae'n dweud ei fod yn ei wneud”*.

Dave Holland
Pennaeth Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

Ein gweledigaeth

Bod y prif ddarparwr gwasanaethau rheoliadol sy'n diogelu iechyd, diogelwch a llesiant economaidd y rhanbarth

Ein blaenoriaethau



Ein canlyniadau

Gwella iechyd a llesiant <ul style="list-style-type: none">Mae'r gadwyn fwyd yn ddiogel ac yn rhydd o beryglon;Rheolir risgiau yn y gweithle yn briodol;Rheolir allyriadau sŵn ac aer;Cynhelir amgylchedd masnachu tegSafleoedd Trwyddedig yn gweithredu'n gyfrifol;Ceir gwelliant yn ansawdd eiddo preifat ar rent;Rheolir ac atelir clefydau heintus.	Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed <ul style="list-style-type: none">Diogelir plant rhag sylweddau a nwyddau niweidiol;Diogelir pobl hŷn ac agored i niwed rhag masnachwyr diegwyddor a sgamwyr;Atelir gweithgareddau benthyg arian yn anghyfreithlon;Darpariaeth tacsï yn ddiogel ac yn deg.Nid yw pobl fregus mewn perygl o ecsbloetiaeth, caethwasiaeth neu fasnachu pobl.	Gwarchod yr amgylchedd <ul style="list-style-type: none">Mae'r amgylchedd yn cael ei warchod rhag allyriadau niweidiol i'r tir, yr aer a'r dŵr;Bydd pobl yn defnyddio adeiladau a nwyddau sy'n effeithlon o ran ynni;Mae cymunedau yn fwy diogel ac yn cael eu gwarchod rhag niwsans;Mae anifeiliaid yn cael eu trin yn dda.
	Cefnogi'r economi leol <ul style="list-style-type: none">Amgylchedd masnachu teg yn cael ei gynnal;Cwsmeriaid gwybodus a hyderus;Arferion a gweithredu gwell gan fusnesauGwasanaethau hygyrch sy'n ymateb i anghenion busnes.	Manteisio i'r eithaf ar adnoddau <ul style="list-style-type: none">GRhR yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon ledled y 3 ardal;Y cyhoedd a rhanddeiliaid yn gallu defnyddio ein gwasanaethau;Mae creu incwm yn sail i gynnig gwasanaethau cynaliadwy;Mae staff yn effeithiol wrth eu gwaith.

Ein prif amcanion

Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn drwy:-

- Deall anghenion ein cwsmeriaid a rhoi eu hanghenion wrth wraidd y gwasanaethau a gynigiwn;
- Datblygu gweithlu hyblyg ac ystywyth sy'n ymateb i newid, ac sydd â'r sgiliau cywir i gynnig gwasanaethau o ansawdd sy'n bodloni anghenion ein cwsmeriaid a chymunedau lleol;
- Manteisio i'r effaith ar effeithlonrwydd mewnol i wella ansawdd y gwasanaeth;
- Archwilio cyfleon i arloesi a datblygu;
- Cydweithio i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddigon gwydn i ddellio â heriau ariannol a gofynion yn y dyfodol.

1. Trosolwg o Wasanaethau

1.1 Cefndir

Gwasanaeth cydweithredol a ffurfiwyd ar 1 Mai 2015 rhwng Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg yw Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR). Mae'n cynnig gwasanaeth integredig llawn dan un strwythur reoli ar gyfer safonau masnach, iechyd yr amgylchedd a swyddogaethau trwyddedu, gyda threfniadau llywodraethu wedi'u rhannu i sicrhau cyfranogiad llawn gan aelodau etholedig.

Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio yn gweithredu o dan Gytundeb Gweithio ar y Cyd lle mae Pennaeth y Gwasanaeth yn adrodd ar ddarpariaeth y gwasanaethau i Gydbwyllgor o aelodau etholedig o bob rhan o'r tri rhiant-gyngor. Mae bwrdd rheoli swyddogion wedi cael y dasg o oruchwylio'r gwaith o weithredu'r prosiect a gweithredu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Nodir y dirprwyaethau o bolisiau a swyddogaethau a wnaed gan bartneriaid i'r Cydbwyllgor a Phennaeth y Gwasanaeth yn y Cytundeb Gweithio ar y Cyd sy'n cynnwys:-

- Y swyddogaethau i'w cyflawni gan y gwasanaeth ar y cyd.
- Cylch gorchwyl a chyfansoddiad y Cydbwyllgor, y bwrdd rheoli ac ati.
- Telerau'r gwasanaeth arfaethedig ar y cyd fel staffio, y gwasanaethau i'w darparu gan y sefydliad lletya a phartneriaid eraill, ariannu a materion swyddogaethol eraill.
- Model Gweithredu Ariannol.

O ganlyniad, mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio yn gweithio ar draws y tri chynghor sy'n cefnogi amrywiaeth o Bwyllgorau a, lle bo angen, y tri Chabinet, i gyflawni'r swyddogaeth reoleiddiol. Mae'r llif gwaith yn cynnwys cyfarfodydd chwarterol â Bwrdd Rheoli'r swyddogion, ac yna cyfarfodydd cydbwyllgor y Cydwasanaethau Rheoleiddio, y caiff y manylion eu cyfathrebu i bob un o'r tri Chabinet. Mae swyddogion yn cyfarfod ag aelodau'r Cydbwyllgor yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod materion rhanbarthol a lleol yn cael eu hystyried a'u rheoli'n briodol.

Mae pob un o gyfarfodydd cydbwyllgor y Cydwasanaethau Rheoleiddio ers Ebrill 2015 yn cael eu cynnal ar wefannau pob cynghor. Mae'r adroddiadau yn nodi tarddiad a datblygiad y Cydwasanaethau Rheoleiddio a chyfeiriad y dyfodol.

1.2 Prif wasanaethau a gynigir

Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cynnig ystod amrywiol a chynhwysfawr o wasanaethau sy'n diogelu iechyd, diogelwch a llesiant economaidd cwsmeriaid, busnesau a phreswylwyr ym mhrif feysydd iechyd yr amgylchedd, safonau masnach a thrwyddedu.

Mae'r meysydd eang hyn yn cynnwys amrywiaeth mawr o wasanaethau sy'n ymdrin â materion sy'n gallu cael effaith fawr ar bobl pan aiff pethau o'u lle, neu os nad yw'r gwasanaethau hynny'n cael eu gweithredu'n iawn.



Mae Diogelwch a Safonau Bwyd yn gwarchod iechyd y cyhoedd drwy sicrhau nad yw'r bwyd a fwytawn yn berygl i iechyd a diogelwch cwsmeriaid. Cyflawnir hyn drwy gynnal archwiliadau diogelwch a safonau bwyd mewn busnesau bwyd ac arlwywyr, gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, rhoi cyngor ymarferol, ymchwilio i gwynion am ddiogelwch a safonau bwyd, cynnal profion cyson ar samplau o fwyd a dŵr a gwirio bwyd sydd wedi'i fewnforio.



Mae Masnach Deg yn amddiffyn cwsmeriaid a busnesau drwy gynnal a hybu amgylchedd masnachu teg a diogel. Mae'r math yma o waith yn sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio gydag ystod o ddeddfau sy'n amddiffyn defnyddwyr, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â:-

- Diogelwch nwyddau;
- Gwerthiant i bobl o oed arbennig;
- Nwyddau ffug;
- Diogelwch amgylcheddol;
- Pwysau a mesuriadau
- Honiadau ffug am nwyddau a gwasanaethau;

Mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i gwynion, yn cymryd rhan mewn ymchwiliadau ac ymarferion troseddol, yn archwilio busnesau, yn cynnal rhaglen samplu, ac yn cynorthwyo busnesau i wella eu harferion masnachu.



Mae ein gwaith diogelu yn sicrhau ein bod yn ymchwilio i achosion o gamweithredu, gan gynnwys masnachwyr ffug, sgamiau a throsteddu ar garreg y drws. Rhoddwn gyngor i gwsmeriaid sy'n agored i niwed, a'u cynorthwyo i gael iawndal.



Mae gan GRhR yr unig labordy fesureg yng Nghymru sydd wedi'i hachredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig. Mae'n graddnodi pwysau a mesuriadau o ran hyd a maint.



Mae Diogelwch Tai yn gwarchod iechyd y cyhoedd drwy weithio gyda landlordiaid preifat a pherchnogion i ddarparu cartrefi cynnes, diogel ac iach i denantiaid. Maent yn sicrhau bod Tai Amlfeddiannaeth yn cael eu trwyddedu drwy Gynlluniau Trwyddedu Gorfodol ac Ychwanegol, maent yn eu harolygu, ac yn gwella safonau a rheolaeth llety rhent preifat. Ymchwilir i gwynion gan denantiaid ynglŷn â'u llety ar rent. Gall rhain fod yn gwynion am leithder, llwydni, nam ar y gwresogydd, niwsans a materion ynglŷn â thai myfyrwyr. Eir i'r afael â thai gwag wedi dadfeilio a chynhelir ymchwiliadau mewnffudo.



Mae Llygredd Sŵn hefyd yn gwarchod iechyd y cyhoedd drwy reoli sŵn ac allyriadau awyr i'r amgylchedd. Mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i gwynion am sŵn, fel cerddoriaeth sy'n cael ei chwarae'n rhy uchel, gwaith ar y cartref, larymau tŷ a cheir, cŵn yn cyfarth a safleoedd adeiladu. Mae'n ymchwilio i gwynion am lygredd aer fel mwg, llwch, arogleuon a llosgi anghyfreithlon.



Mae'n gwneud gwaith monitro amgylcheddol, yn Rheoli Ansawdd Awyr yn lleol, ac yn r heoleiddio allyriadau o brosesau diwydiannol.



lechyd Porthladd

Mae lechyd Porthladd yn atal clefydau heintus a chlefydau anifeiliaid rhag cael eu mewnfurfio i'r DG, gan sicrhau bod llongau'n cydymffurfio â safonau glanweithdra cyhoeddus rhyngwladol, ac yn gwella diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd.



Tir Llygredig

Mae Tir Llygredig yn gwarchod iechyd y cyhoedd drwy adolygu a gweithredu'r Strategaeth Tir Llygredig, sydd yn ei dro yn sicrhau bod safleoedd sydd wedi'u llygru'n hanesyddol yn cael eu nodi, eu harchwilio a'u hadfer. Rheoleiddir cyflenwadau dŵr preifat a ddefnyddir at bwrpasau domestig a masnachol (fel yfed, coginio a golchi), ac ymatebir i Geisiadau am Wybodaeth Amgylcheddol ac ymgynghoriadau i geisiadau cynllunio.



lechyd a Diogelwch

Mae lechyd a Diogelwch yn amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant staff, contractwyr ac unrhyw aelod o'r cyhoedd a effeithir gan weithgareddau yn y gweithle, drwy weithio ag eraill i sicrhau bod risgiau yno'n cael eu rheoli'n iawn. Cyflawnir hyn drwy gynnal archwiliadau sydd wedi'u cynllunio a mentrau wedi'u targedu, drwy ymchwilio i ddamweiniau, clefydau, digwyddiadau peryglus a chwynion, rhoi cyngor a chanllawiau i gyflogwyr a chyflogeion a sicrhau safonau diogelwch mewn digwyddiadau yn yr awyr agored.



Clefydau Heintus

Mae Clefydau Heintus yn gwarchod iechyd y cyhoedd drwy reoli ac atal achosion o glefydau heintus drwy ymchwilio i achosion achlysurol a sydyn o glefydau trosglwyddadwy pendant. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ac yn adolygu cyngor a chanllawiau ar reoli heintiau, glanhau a diheintio, gwahardd achosion a chyffyrddiadau, yn rhoi hyfforddiant ar hylendid bwyd, maeth a rheoli heintiau, yn gorfodi deddfwriaeth gwarchod iechyd i atal clefydau trosglwyddadwy rhag lledaenu, a difwyniad o ymbelydredd a chemegolion sy'n bygwth iechyd, ac yn arwain ar raglenni gwyliadwriaeth lleol a chenedlaethol ar glefydau trosglwyddadwy.

Mae **Rheoli Plâu** yn cynnig gwasanaethau trin plâu i ardal y Fro. Gallai hyn gynnwys llygod mawr, cacwn, llygod, pryfed, chwilod duon ac ati.



lechyd a Lles Anifeiliaid

Mae lechyd Anifeiliaid a'r Gwasanaeth Wardeniaid yn sicrhau lles anifeiliaid yn gyffredinol ac wrth iddyn nhw gael eu cludo, ac yn gweinyddu symudiad anifeiliaid er mwyn atal clefydau fel Rabies, Anthrax a Chlwy'r Traed a'r Genau rhag lledu. Mae'n Wardeniaid yn ymateb i gwynion ynglŷn ag anifeiliaid strae fel cŵn a cheffylau.



Trwyddedu

Trwyddedu sy'n penderfynu rhoi, adnewyddu, amrywio a throsglwyddo nifer o swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb ar y Cyngorau. Mae'r adran yn prosesu ceisiadau am drwyddedau, tystysgrifau a chofrestriadau ac yn cymryd camau gorfodol parthed gofynion statudol yn ymwneud ag alcohol, adloniant cyhoeddus, gamblo, masnachu ar y stryd, trwyddedau tacsis, casgliadau elusennol a thrwyddedau'n ymwneud ag anifeiliaid.



Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon Cymru

Mae Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon Cymru yn un o dair uned yn unig sy'n gweithredu ar draws y DG. Mae'r Uned yn gweithredu ymhob un o 22 awdurdod lleol Cymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â phroblem benthycy arian yn anghyfreithlon. Mae'r Uned yn ymateb i'r broblem ond hefyd yn gweithio'n rhagweithiol, drwy addysgu a hybu ymhlith gwahanol grwpiau cymdeithasol, gan dynnu sylw at beryglon benthycy arian yn anghyfreithlon. Mae'r Tîm hefyd yn cynnal ymchwiliadau manwl gyda'r nod o erlyn troseddwr, ac mae ganddynt y gallu i weithredu'n gyflym pan fo angen i ddelio â dioddefwyr benthycwyr arian didrwydded.



Gweithio gyda Busnesau

Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi mabwysiadu dull mwy masnachol drwy ddatblygu gwasanaethau y telir amdanynt, a'u marchnata i fusnesau. Mae'r gweithgareddau masnachol hyn yn gwella ac yn mynd law yn llaw gyda'r gwasanaethau statudol sy'n bodoli'n barod, ac yn creu

incwm i'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datrysiadau hyfforddi pwrpasol wedi'u hachredu i fusnesau, i'w cynorthwyo i gydymffurfio'n gyfreithiol;
- Cyngor busnes a gwiriadau iechyd gan ein swyddogion profiadol â sgiliau uwch, a'r rheiny wedi'u talu amdanynt, i roi cymorth i fusnesau gydymffurfio â deddfwriaeth;
- Datblygu Partneriaethau Prif Awdurdod ar gyfer busnesau sy'n masnachu ar draws ffiniau cyngorau, lle mae modd iddyn nhw greu partneriaeth gyda'r Gwasanaeth a gydnabyddir yn gyfreithiol, gan dderbyn pecyn o gyngor a chymorth a gytunwyd arno;
- Marchnata'r unig Labordy Fesureg yng Nghymru sydd wedi'i hachredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, ac sy'n graddnodi pwysau a mesuriadau o ran hyd a maint;

- Ymestyn cyfleoedd hyfforddi drwy asesu'r potensial am lefelau uwch o achrediad er mwyn denu busnes ychwanegol;
- Adnabod ffynonellau ariannu newydd;
- Edrych i greu gwasanaethau allai greu incwm, a datblygu gwasanaethau y gellir talu amdanynt.

O dan ein model newydd, mae'r gwasanaethau yma i gyd wedi'u rhannu ar draws tri sector o gynnig gwasanaethau: Gwasanaethau Cymdogaeth sy'n delio â gweithgareddau'n ymwneud ag eiddo preswylwyr neu sy'n cael effaith ar y gymuned leol, Gwasanaethau Masnachol sy'n delio â gweithgareddau'n ymwneud ag eiddo busnes (y mae safonau cenedlaethol yn berthnasol iddynt) a Gwasanaethau Menter ac Arbenigol sy'n cynnwys sawl maes arbenigol a gwasanaethau sy'n creu incwm. Mae'r siart reoli a llywodraethu ar 1.3 yn amlinellu'r gwasanaethau penodol sy'n eistedd o fewn pob sector.

1.3 Trefniadau Rheoli a Llywodraethu

Cydbwyllgor

 <p>Y Cyngorydd Michael Michael Cyngor Dinas Caerdydd</p>	 <p>Y Cyngorydd Dhanisha Patel Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</p>	 <p>Y Cyngorydd Hunter Jarvie Cyngor Bro Morgannwg</p>	 <p>Y Cyngorydd Norma Mackie Cyngor Dinas Caerdydd</p>	 <p>Y Cyngorydd David Lewis Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</p>	 <p>Y Cyngorydd Vincent Driscoll Cyngor Bro Morgannwg</p>
---	--	--	--	---	---

Bwrdd Rheoli

 <p>Miles Punter Cyfarwyddwr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai</p>	 <p>Andrew Jolley Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</p>	 <p>Andrew Gregory Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd Cyngor Dinas Caerdydd</p>	 <p>Dave Holland Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddiol a Rennir</p>
--	--	---	--

 <p>Will Lane Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cymdogaethau</p>	 <p>Christina Hill Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Masnachol</p>	 <p>Helen Picton Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Menter ac Arbenigol</p>
---	---	---

Gwasanaethau Cymdogaeth

Mae Gwasanaethau Cymdogaeth yn delio'n bennaf â gweithgareddau yn ymwneud â chartrefi preswyl neu sy'n cael effaith ar y gymuned leol, ac yn cynnwys :-

- Llygredd Sŵn ac Aer
- Trwyddedu Amgylcheddol
- Diogelwch tai mewn eiddo preifat ar rent
- Trwyddedu

Gwasanaethau Masnachol

Prifswyddogaeth Gwasanaethau Masnachol yw sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio ag ystod o ofynion cwsmeriaid a gwarchod y cyhoedd mewn meysydd fel:-

- Diogelwch Bwyd (safleoedd manwerthu)
- Iechyd a Diogelwch
- Safonau Masnach (safleoedd manwerthu)
- Clefydau Heintus
- Iechyd Porthladd

Gwasanaethau Menter ac Arbenigol

Mae Gwasanaethau Menter ac Arbenigol yn cynnwys gwasanaethau creu incwm – sy'n bodoli'n barod neu sydd â'r potensial o wneud hynny – gyda dull masnachol o farchnata gwasanaethau cyngor, ochr yn ochr ag arbenigaethau disylwgan gynnwys:-

- Tir Llygredig ac Ansawdd Aer
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoli Plâu (Y Fro yn unig)
- Iechyd a diogelwch (Projectau a digwyddiadau)
- Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach (nadydyw'n siopau)
- Ymchwiliadau mawr a diogelu
- Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru
- Labordy fesureg
- Cymorth Busnes GRhR
- Gwasanaethau cyngor a hyfforddiant
- Partneriaethau Prif Awdurdod

1.4 Proffil ardal

Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn ymestyn dros ardaloedd Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg ac yn gwasanaethu dros 600,000 o drigolion. Yn ymestyn o Laneirwg yn nwyrain Caerdydd i Faesteg yn y gorllewin, mae'r ardal yn cwmpasu Caerdydd, prifddinas Cymru gyda'i ystod o sefydliadau diwylliannol, ariannol a masnachol, ac ardaloedd gwledig Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg gyda'u heconomïau twristaidd ac amaethyddol llewyrchus.



Mae sir Pen-y-bont ar Ogwr yn ymestyn i'r arfordir yn y de, ac mae'r M4 yn croesi drwyddi. Mae'n ymestyn dros ardal o 28,500 hectar ac mae iddi boblogaeth o 140,000 a mwy. I'r gogledd o'r M4, hen gymunedau glofaol sydd yma ar y cyfan, gyda Maesteg yn brif dref. I'r de o'r M4, hen dref farchnad Pen-y-bont ar Ogwr yw'r dref fwyaf, a phrif ganolfan economaidd a sail cyflogaeth y sir. I'r de-orllewin ar yr arfordir mae Porthcawl, tre' glan môr draddodiadol, gyda chanran uchel o hen bobl, a lluo o ymwelwyr yn ystod yr haf.

Caerdydd yw prifddinas Cymru, ac mae'n parhau i dyfu'n gyflymach nag unrhyw brifddinas arall yn Ewrop.

O ran poblogaeth dyma ddinas fwyaf Cymru gyda poblogaeth o 360,000. Ond nid yw'r ffigur hwnnw'n adlewyrchu pwysigrwydd Caerdydd fel canolfan fasnachu a busnes rhanbarthol. Mae'r boblogaeth yn chwyddo o ryw 70,000 bob dydd gyda theithwyr ac ymwelwyr. Caerdydd yw cartref Llywodraeth Cymru a dyma ganolfan fasnachol, ariannol a gweinyddol Cymru. Mae canol y ddinas gyda'r mwyaf bywiog yn y DG, ac ar benwythnos arferol mae'n denu dros 40,000 o bobl i gyfrannu i economi'r nos. Gall y ffigur hwn godi i dros 100,000 pan fydd digwyddiadau rhyngwladol yn cael eu cynnal yn Stadiwm y Principality.



Mae traffordd yr M4 yn creu ffin ogleddol i Fro Morgannwg, ac i'r de mae Aber Afon Hafren. Mae'r



sir yn cwmpasu 33,097 hectar, gydag arfordir yn ymestyn am 53 cilomedr, ac mae iddi boblogaeth o dros 130,000. Mae'r ardal yn wledig ei natur ar y cyfan, ond bod iddi sawl ardal drefol fel Y Barri, Penarth a Dinas Powys, a threfi hanesyddol Y Bont-faen a Llanilltud Fawr. Y Barri yw'r dref fwyaf, yn brif ardal o gyflogaeth ac yn gyrchfan glan môr poblogaidd. Mae amaethyddiaeth yn gryf yn ardaloedd gwledig y Fro, ac mae ansawdd yr amgylchedd yn rhan allweddol o atyniad yr ardal. Mae'r sir yn cynnwys Dociau'r Barri a Maes Awyrr Caerdydd.

1.5 Mynediad at Wasanaethau

Cynigir y Gwasanaeth a gellir cael mynediad ato drwy bump o brif ganolfannau ledled y rhanbarth. Cynigir y swyddogaethau gwasanaeth newydd o swyddfeydd “lloeren” ymhob Cyngor sy’n delio â chwsmeriaid wyneb yn wyneb, ac o dair prif hyb o swyddfeydd. Sefydlwyd y canolfannau hyn ymhob un o’r tri chyngor i gynnig gwasanaethau i gwsmeriaid ar sail leol, a chynnig gweithleoedd i gyflogeion y gwasanaeth. Lle bo angen, mae’r gwasanaeth yn darparu cyfleusterau y tu allan i oriau swyddfa ar gyfer rhai swyddogaethau. Cwblhawyd y gwaith o ddatblygu a chytuno ar friff o ran adeiladau a gweithleoedd, a gwnaed cynnydd sylweddol wrth weinyddu’r cynllun sy’n sicrhau bod modd cael mynediad at y gwasanaeth yn hawdd er mwyn bodloni anghenion amrywiol ymhob ardal awdurdod lleol. Mae’n cynnwys trefniadau ar gyfer defnyddio’r gwasanaethau dros y ffôn, ar-lein a wyneb yn wyneb, ac edrychwyd ar yr un pryd ar gyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd.

Safleoedd cynnig gwasanaethau ar hyn o bryd

grhr.cymru

Tel: 0300 1236696



@SRS_Wales



<http://www.srs.wales>

Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Oriau swyddfa arferol:

Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30am i 5.00pm

Dydd Gwener : 8.30 am i 4.30pm

Caerdydd

Lefel 1
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Oriau swyddfa arferol:

Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30am i 5.00pm

Dydd Gwener : 8.30 am i 4.30pm

Neuadd y Ddinas
Caerdydd
CF10 3ND

Bro Morgannwg

Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU

Oriau swyddfa arferol:

Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30am i 5.00pm

Dydd Gwener : 8.30 am i 4.30pm

1.6 Adnoddau staff

Mae ein strwythur sefydliadol yn canolbwyntio ar waith craidd a datblygu swyddogion amlddisgyblaeth, tra'n cadw'r gallu i ddatblygu gweithwyr proffesiynol arbenigol. Mae'r strwythur yn caniatáu i weithwyr gael eu cyfeirio i ddyletswyddau gwahanol, gan alluogi'r gwasanaeth i gynnig gwasanaethau sy'n creu incwm, i fynd law yn llaw â'r gwasanaethau mwy traddodiadol. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu ar draws 3 sector amlwg:-

Gwasanaethau Masnachol – sy'n sicrhau bod busnesau yn cydymffurfio ag ystod o ofynion cwsmeriaid a diogelu'r cyhoedd mewn meysydd fel diogelwch bwyd, iechyd a diogelwch yn y gweithle, safonau masnach mewn safleoedd manwerthu a chlefydau trosglwyddadwy. Cyflawnir y swyddogaeth hon yn bennaf gan Swyddogion Gwasanaethau Masnachol a Swyddogion Technegol sydd wedi cymhwyso'n broffesiynol. Bu newid i'r strwythur newydd o ran cydbwysedd rhwng Swyddogion Technegol a Gwasanaethau Masnachol fel y gwneir mwy o ddefnydd o Swyddogion Technegol. Mae hyn yn galluogi swyddogion sydd wedi cymhwyso'n broffesiynol i ganolbwyntio ar y materion mwy cymhleth ac yn galluogi Swyddogion Technegol, sydd â'r gallu a'r cymwysterau priodol, i gyflawni swydd fonitro a 'blaenoriaethu' gan gefnogi'r Gwasanaeth drwy gynnal archwiliadau, gwiriadau cydymffurfio a rhoi gwybodaeth a thynnu sylw swyddogion mwy cymwys os ydynt yn sylwi ar faterion diffyg cydymffurfio o bwys.

Gwasanaethau Cymdogaeth – sy'n ymdrin yn bennaf â gweithgareddau'n ymwneud â lleoliadau preswyl neu'r rhai sy'n effeithio ar y gymuned leol megis tai yn y sector rhent preifat, niwsans o sŵn ac aer a thrwyddedu. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys swyddogion amlddisgyblaeth sydd wedi cymhwyso'n broffesiynol a elwir yn Swyddogion Gwasanaethau Cymdogaeth a Swyddogion Technegol sy'n ymdrin â materion Llygredd a Thai. Mae'r newid hwn tuag at weithio mwy cyffredinol yn sicrhau mwy o wydnwch o ran darparu gwasanaethau ar draws y tair ardal. Mae'r elfen Drwyddedu yn cadw nodweddion lleol unigryw a threfniadau llywodraethu o fewn y tri awdurdod hyn, fodd bynnag, manteisiwyd ar gyfleoedd i leihau nifer y rheolwyr tîm i ddau ar draws y tair ardal ac mae camau gorfodi yn cael eu rheoli gan un Uwch Swyddog Gorfodi ar draws y rhanbarth.

Gwasanaethau Menter ac Arbenigol (GMA) – dyma'r mwyaf amrywiol o'r gwasanaethau, ac mae'n ymgorffori arbenigrwydd arwahanol fel monitro a rheoli ansawdd awyr, tir llygredig, rheoli plâu, lles anifeiliaid, ymchwiliadau mawr, gwarchod, Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru, ein tîm diwydiannol a'r swyddogaeth Cymorth Busnes. Mae sectorau eraill o'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn darparu'r un gwasanaethau yn fwriadol. Mae'n creu hyblygrwydd a gwydnwch ar draws y timau fel y gellir rhannu adnoddau pan fo'r galw'n codi, er enghraifft mae'r Tîm Ymchwiliadau Mawr yn cefnogi'r holl GRhR pan fo angen ymchwilio i achosion sylweddol o fynd yn groes i ofynion cyfreithiol, a'u gorfodi. Swyddogaeth GMA yw creu incwm, rheoli labordy fesureg Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, cynnig hyfforddiant ac asesu'r potensial am lefelau achredu uwch er mwyn denu mwy o fusnes, chwilio'n ddyfal am Bartneriaethau Prif Awdurdod a datblygu gwasanaethau cynghori y telir amdanynt. Mae'r swyddogaeth Cefnogi Busnes yn darparu cymorth gweinyddol canolog i'r holl wasanaeth, gyda phresenoldeb ymhob un o'r tair ardal mewn manau cyswllt lleol, gan ddarparu'r prif wasanaeth wyneb yn wyneb i gwsmeriaid y Gwasanaeth.

2. Amcanion y gwasanaeth a blaenoriaethau strategol


2.1 Gweledigaeth, blaenoriaethau strategol ac amcanion

Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni gobeithion a blaenoriaethau Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg, drwy gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau. Rydym wedi datblygu gweledigaeth â rhestr o flaenoriaethau strategol yn sail iddi, sy'n amlinellu ein uchelgais o fod yn sefydliad blaengar ac arloesol. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf, ac sy'n diogelu lles amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ein dinasyddion.

Ein Gweledigaeth:-

I fod y prif ddarparwr o wasanaethau rheoliadol sy'n diogelu iechyd, diogelwch a lles economaidd y rhanbarth

Fel sefydliad rhanbarthol sy'n cynnig gwasanaeth rheoliadol ledled tri awdurdod lleol, rydym yn rhoi **blaenoriaethau corfforaethol** a chanlyniadau'r tri chynghor wrth galon popeth a wnawn (gweler tabl 1). Wrth ddatblygu ein blaenoriaethau strategol ein hunain ar gyfer Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, rydym wedi ystyried blaenoriaethau'r tri awdurdod a'r canlyniadau yr hoffent eu gweld, ynghyd ag anghenion a dyheadau ein partneriaid a'n cwsmeriaid, fel eu bod yn troi'n flaenoriaethau sy'n bodloni anghenion lleol.




**Blaenoriaethau
Strategol Gwasanaethau
Rheoliadol a Rennir**

Yn cefnogi'r blaenoriaethau strategol hyn, mae nifer o ganlyniadau y mae'n nod gan y Gwasanaeth i'w cyflawni, a gwelir tystiolaeth ohonynt drwy'r Cynllun Busnes hwn. Cyflawnir ein gweledigaeth a'n canlyniadau drwy'r prif amcanion canlynol:

- Deall anghenion ein cwsmeriaid a rhoi eu hanghenion wrth graidd y gwasanaethau a gynigiwn;
- Datblygu gweithlu hyblyg ac ystwyth sy'n ymateb i newid, ac sydd â'r sgiliau cywir i gynnig gwasanaethau o ansawdd sy'n bodloni anghenion ein cwsmeriaid a chymunedau lleol;
- Manteisio i'r effaith ar effeithlonrwydd mewnol i wella ansawdd y gwasanaeth;
- Archwilio cyfleon i arloesi a datblygu, a
- Cydweithio i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddigon gwydn i ddelio â heriau ariannol a gofynion yn y dyfodol.

Yn genedlaethol mae'r gwasanaeth hefyd yn cyfrannu at **Flaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol Cymru** ar gyfer cyflawniad rheoliadol yn lleol, sy'n pwysleisio'r cyfraniad cadarnhaol gall gwasanaethau rheoliadol, ynghyd â phartneriaid lleol a chenedlaethol, ei wneud wrth gyflawni canlyniadau gwell e.e.

- Amddiffyn unigolion rhag perygl, a hybu iechyd gwell;
- Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r perygl i iechyd pobl ac anifeiliaid;
- Hybu amgylchedd teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau;
- Gwella'r amgylchedd lleol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd, a hybu cynaliadwyedd.



At hynny, mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yn amlinellu saith amcan o ran llesiant y mae disgwyl i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, gyfrannu hyd yr eithaf. Mae'r amcanion yn rhoi fframwaith i weithio tuag at ganlyniadau a chyflawniadau er llesiant tymor hir Cymru. Mae gweithgareddau busnes, canlyniadau a blaenoriaethau strategol craidd Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn perthyn yn agos i'w gilydd, ac yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at yr amcanion llesiant hyn. Mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cyfrannu at yr amcanion hyn drwy ei flaenoriaethau.

Amcanion Llesiant	Blaenoriaethau Strategol Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
Cymru Lewyrchus	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi'r economi leol • Manteisio i'r eithaf ar adnoddau
Cymru Gydnerth	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella iechyd a llesiant • Gwarchod yr amgylchedd
Cymru Iachach	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella iechyd a llesiant • Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed • Gwarchod yr amgylchedd • Cefnogi'r economi leol
Cymru Sy'n fwy cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella iechyd a llesiant • Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed
Cymru o gymunedau cydlynus	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella iechyd a llesiant • Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella iechyd a llesiant • Gwarchod yr amgylchedd • Cefnogi'r economi leol • Manteisio i'r eithaf ar adnoddau

2.2 Blaenoriaethau corfforaethol a chanlyniadau awdurdodau lleol partner

Cyngor Bwrdeistref Sirol

Cyngor Dinas Caerdydd

Cyngor Bro Morgannwg

Pen-y-bont ar Ogwr




Blaenoriaethau Corfforaethol

- | | | |
|--|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi economi lwyddiannus; • Cynorthwyo pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol; • Defnyddio adnoddau yn fwy clyfar. | <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio I Gaerdydd; • Gweithio I Gymru; • Gweithio I'r Dyfodol; • Gweithio I'r Gwasanaethau Cyhaeddus. | <ul style="list-style-type: none"> • Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol; • Darparu cartrefi digonol a chymunedau diogel; • Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth ; • Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd; • Codi safonau cyflawni yn gyffredinol; • Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth; • Annog a hyrwyddo ffordd o fyw actif ac iach; • Diogelu'r rheiny sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol. |
|--|--|--|

Canlyniadau

- | | | |
|--|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi economi lwyddiannus; • Cynorthwyo pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol; • Defnyddio adnoddau yn fwy clyfar. | <ul style="list-style-type: none"> • Mae Caerdydd yn lle gwych I gael eich magu; • Mae Caerdydd yn lle gwych I dyfuri'n hyn. • Cefnogi pobl allan o tlodi; • Cymunedau diogel, hyderus wedi eu grymuso; • Prifddinas sy'n gweithio I Gymru; • Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn; • Moderneiddio ac integriddio ein gwansanaethau cyheuddus. | <ul style="list-style-type: none"> • Bro Ddiogel a Chynhwysol; • Bro sy'n gyfrifol yn amgylcheddol ac yn ffynnu; • Bro uchelgeisiol a bywiog o ran diwylliant; • Bro iach ac actif. |
|--|--|---|

2.3 Cyflawni ein gweledigaeth, ein hamcanion a'n blaenoriaethau



3. Heriau

Mae darparu gwasanaeth newydd ar draws tri awdurdod lleol yn rôl gyffrous ond heriol. Yn y cyd-destun hwn, diffiniwn heriau fel digwyddiadau newydd neu heriol a fydd yn gofyn am fwy o ymdrech a phenderfyniad i'w rheoli'n llwyddiannus; rhywbeth y tu hwnt i'r arfer. Felly mae deall yr heriau o'n blaen yn hollbwysig wrth wireddu'r weledigaeth a nodir yn adran 2.

Mae'r materion a nodir isod yn gofyn i'r GRhR fod yn hyblyg, gan hefyd gynnal hygyrdded y busnes fel arfer. Gwyddom pa mor ddifrifol yw'r materion a wynebwn, ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth ddeall yr heriau, maint y risgiau cysylltiedig a'u rheoli'n effeithiol.

Hyd yn oed ar ôl tair blynedd, mae'r Gwasanaeth yn dal yn cydbwysio datblygu model gweithredu newydd ac arloesol ynghyd â'r disgwyliad o sicrhau "busnes yn ôl yr arfer". Mae sawl ffactor sy'n hanfodol i'n llwyddiant ac mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos camau gweithredu i'r Gwasanaeth yn 2018/19, a'n dull o reoli risg (Atodiad 1).

Cyflawni'r GRhR yn y dyfodol - Rydym yn cyflawni'r GRhR gyda llai o adnoddau. Mae gennym raglen tair blynedd ar waith a fydd yn mireinio ac yn newid y ffordd a weithiwn. Bydd hynny'n golygu cyflawni ein gwasanaethau drwy ddull seiliedig ar risg i bob gweithgaredd ac ystyried ffyrdd newydd o flaenoriaethu ein gwasanaethau a all arwain at ostyngiad lefelau gwasanaeth, neu godi am rai gwasanaethau, a phenderfyniadau anodd am lefel y gwasanaethau a roddwn. Bydd yr ymdrechion hyn yn lleihau effaith y gyllideb is, ond gallai cynnal perfformiad yn sgîl y toriadau diweddaraf yn y gyllideb effeithio ar allu gwasanaeth i gynnal perfformiad ar y lefel bresennol. Byddwn fodd bynnag yn ceisio mesur gweithgareddau a chanlyniadau i sicrhau bod perfformiad yn cael ei reoli'n effeithiol ac mewn ffordd ystyrlon. (AH1)

Rheoli prosesau ariannol cymhleth - Mae rheoli adnoddau yn y Gwasanaeth newydd yn gymhleth ond yn hollbwysig. Mae deall cost darparu gwasanaeth a ariennir drwy dri awdurdod lleol yn elfen graidd o hyn. Hefyd yn hanfodol mae darparu gwasanaethau 'craidd' sy'n cael eu defnyddio'n yr un modd cyson ar draws y tair ardal a gwasanaethau 'penodol i'r awdurdod' yw'r rhain sy'n benodol i un neu ddau awdurdod, fel bod modd deall y cyllid. (AH2)

TGCh - Yn ganolog i lwyddiant y Gwasanaeth Rheoleiddiol a Rennir mae ei allu i fanteisio ar gyfleoedd gweithio arloesol technegol a symudol i wella gwasanaethau. Gweithio hyblyg yw'r norm, mae'r gwasanaeth wedi cysoni ei storffeydd cronfa ddata, mae technoleg yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau fel nas gwnaed o'r blaen, ond mae o hyd bethau i'w gwneud wrth alinio TGCh yn un maes i'r gwasanaeth. (AH3)

Adolygu a safoni polisiau a gweithdrefnau – Wrth ymuno 3 gwasanaeth rheoleiddiol awdurdod lleol a chan bob un ei arferion gwaith, polisiau, gweithdrefnau a systemau a ffurflenni ei hun, mae angen safoni ar draws y Gwasanaeth i sicrhau cysondeb ac effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gysoni'r gweithgareddau hyn. Mae nifer o wasanaethau cymorth yn cael eu rhoi gan bartneriaid sydd y tu allan i'r Gwasanaeth Rheoleiddiol a Rennir sy'n cwmpasu meysydd megis Rhyddid Gwybodaeth, cwynion corfforaethol ac ati, sydd angen eu rheoli'n effeithiol. Bydd y Gwasanaeth yn datblygu protocolau i rannu data a rhoddi gwasanaethau cymorth i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ddim yn cael eu heffeithio. Mae dyfodiad cyfundrefn diogelu data newydd yn debygol o greu cymhlethodau y bydd angen eu hystyried yn ofalus. (AH4 ac AH6).

Ymsefydlu diwylliant sefydliadol y GRhR – Mae newidiadau o ran dulliau gwaith, y ffordd

y caiff gwasanaethau eu darparu, newidiadau rheoli, a'r cyfan mewn sefyllfa pan fo llai o arian ar gyfer y sector cyhoeddus a mwy o ddisgwyliadau, yn gofyn i ni ddatblygu a chynnal diwylliant a gwerthoedd cadarnhaol. Gweithredwn ddiwylliant sy'n awyddus i gyflawni. Bydd yr adolygiad Gwasanaeth a wnaed yn 2017 a'r Arolwg Staff yn 2018 yn arwain at wella cyfathrebu, rhoi mwy o eglurder ar y rolau a gyflawnir gan y timau ac yn sicrhau ein bod yn cydnabod ac yn dathlu ein cyflawniadau. (AH5)

Dysgu a datblygu – Rydym yn ymrwymedig i roi adnoddau at hyfforddiant i ddatblygu pobl yn y sefydliad i sicrhau cymhwysedd yn eu rolau a mynd i'r afael â'u hanghenion unionsyth a nodau hirdymor y gwasanaeth. Rydym yn mynd i'r afael â hyn drwy'r Cynllun Datblygu'r Gweithlu sy'n nodi anghenion datblygu ar y cyd ac adnoddau i'r Gwasanaeth. Nid ydym eto wedi cyrraedd pwynt pan fydd y Cynllun Gweithlu'n ysgogi gweithgareddau datblygu'r GRhR bydd hyn yn dal i fod yn darged i reoli'r GRhR yn 2018/19. (AH7)


Parhau'n berthnasol i'r tri Chyngor – Mae creu GRhR sy'n darparu gwasanaethau ar draws y tri awdurdod lleol wedi arwain at drosglwyddo gweinyddu gwasanaethau a staff i Gyngor Bro Morgannwg, sef awdurdod cartref y Gwasanaeth. Mae gan y Gwasanaeth, er ei fod yn cael ei ariannu ar y cyd gan yr awdurdodau partner, hunaniaeth a brandio cyson nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw Gyngor penodol. Mae'r Gwasanaeth Rheoleiddiol a Rennir a'r gwasanaethau pwysig a roddwn felly angen cael eu hyrwyddo'n rhagweithiol ar draws y tri Chyngor i sicrhau eu bod yn dal i gefnogi'r fenter. (AH8)

Deddfwriaeth newydd – Gall gweithredu deddfwriaeth newydd ac unrhyw ofynion sy'n deillio o'r deddfwriaeth honno roi pwysau ychwanegol ar y Gwasanaeth, gan fod angen datblygu prosesau newydd, codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid, hyfforddi staff a chynnal arolygon ychwanegol ac ati. Yn gyffredinol gellir cynllunio at ofynion newydd a phennu adnoddau ar eu cyfer yn effeithiol, ond nid oes bob amser modd i ragweld effaith deddfwriaeth newydd ar adnoddau. Bydd datblygiadau mewn rheoliadau iechyd cyhoeddus, cyfraith diogelwch cynhyrchion a pherfformiad amgylcheddol oll yn effeithio ar y gwasanaeth yn 2018/19. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Gwasanaeth yn monitro llwythi gwaith ac yn addasu'r Gwasanaeth yn unol â hynny er mwyn trefnu at unrhyw ofynion ychwanegol sydd ar y Gwasanaeth. (AH9)

4. Cyllideb

4.1 Dyranriad ariannol

Mae Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg yn ariannu Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar y cyd drwy fformiwla gytûn. Mae'r dull o ddsrannu ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth craidd, a'r cyfraniadau yn ôl canran wedi'u hamlinellu yn y Cytundeb Gweithio ar y Cyd, ac wedi'u seilio ar boblogaeth bob Cyngor. Mae trefniadau yn eu lle hefyd i ddarparu gwasanaethau "awdurdod-benodol" i bob cyngor partner yn unigol.



4.2 Goblygiadau Adnoddau (Ariannol a Chyflogaeth)

Mae'r tabl isod yn crynhoi cyllideb gwariant gros y Gwasanaeth.

Cyllideb gwariant gros GRhR 2018/19			
Ardal	Craidd £'000	PA £'000	Cyfanswm £'000
Pen-y-bont ar Ogwr	1,401	373	1,774
Caerdydd	3,601	1,377	4,978
Bro Morgannwg	1,259	493	1,752
Cyfanswm	6,261	2,243	8,504

Caiff sefyllfa alldro ddrafft 2017-18 y gwasanaeth ei chyflwyno i gyfarfod Pwyllgor mis Mehefin, gyda'r Datganiad Cyfrifon wedi'i archwilio'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor mis Medi.

Cyllideb gwariant gros 2018/19	
Awdurdod	Arfaethedig £000
Pen-y-bont ar Ogwr	1,774
Caerdydd	4,978
Bro Morgannwg	1,752
Cyfanswm Gwariant Gros 2018/19	8,504

Mae'r cyllidebau a amlinellwyd uchod yn crynhoi'r holl gyfraniad cyllidol a gytunwyd gan bob un o'r awdurdodau partner. Mae dwy elfen i bob cyfraniad – gwasanaethau craidd, a rhai penodol i awdurdodau.

Gwasanaethau craidd yw'r swyddogaethau hynny sy'n gyffredin i'r awdurdodau partner, gan eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb statudol amdanynt, er enghraifft safonau masnach. Mae costau'r gwasanaethau craidd yn cael eu rhoi mewn un gronfa, yna codir tâl amdanynt ar yr awdurdodau partner, yn ôl rhaniad y boblogaeth rhwng y tri awdurdod.

Mae cyllidebau awdurdod-benodol fel Trwyddedu, yn unigryw i bob awdurdod partner, a chyfrifoldeb pob un yw ariannu ei ddarpariaeth ei hun.

Dyma'r gwasananethau awdurdod-benodol sydd wedi'u cymeradwyo:-

Pen-y-bont ar Ogwr	Trwyddedu Cytiau Cŵn a Chostau Milfeddygon
Caerdydd	Trwyddedu Trwyddedau tai amlfeddiannaeth ychwanegol yn Cathays a Phlasnewydd Sŵn gyda'r nos Iechyd Porthladd Cyswllt Myfyrwyr
Y Fro	Trwyddedu Trwyddedau tai amlfeddiannaeth ychwanegol Cytiau Cŵn a Chostau Milfeddygon Rheoli Plâu

Pan godir tâl ar awdurdodau partner am wasanaethau craidd ac awdurdod-benodol, mae'n cynnwys tâl rheoli, sy'n cynnwys costau rheoli, gweinyddu a llywyddu. Mae'r rhain yn cynnwys darparu tîm gweinyddol aml-swyddogaeth, cefnogaeth broffesiynol ar ffurf cyllid, TChG, AD, ynghyd ag uwch-reolwyr Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir.

Caiff y gyllideb ei monitro'n chwarterol drwy Fwrdd Rheoli a Chydbwyllgor ac mae manylion y fath fonitro yn ffurfio rhan o'r adroddiadau diweddarau chwarterol, sydd ar gael ar wefannau pob Cyngor partner.

4.3 Manteisio i'r eithaf ar adnoddau

Mae ein hamcanion o gefnogi'r economi leol a manteisio i'r eithaf ar adnoddau, yn rhoi her i ni weithredu mewn ffordd fwy fasnachol a mentergar. Mae'n nod gennym gynnig gwasanaethau technegol o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid busnes. Rydym wedi creu amgylchedd sy'n ein caniatáu i ganolbwyntio ar gefnogi mentrau lleol gan eu galluogi i weithredu'n llwyddiannus mewn amgylchedd busnes sy'n fwy fwy cystadleuol.

Mae ein harferion gwaith hyblyg yn caniatáu i'n swyddogion arbenigol ddefnyddio technoleg i wella cynhyrchiant, gwneud arbedion effeithlonrwydd a chynnig gwasanaeth gwell i gwsmeriaid. At hynny, mae'r arferion hyn yn rhoi cyfle i ni leihau ôl-traed y Gwasanaeth o ran adeiladau a swyddfeydd ledled y rhanarth, gan leihau costau gweithredol. Wrth i ni greu rhagor o incwm, byddwn yn gwella'r ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu, ac yn sicrhau bod GRhR yn wydn wrth symud ymlaen.

Wrth ddileu'r 'silos' proffesiynol traddodiadol, mae ein swyddogion bellach yn rhan o dimau â sgiliau niferus, a chanddynt dealltwriaeth well o'n prosesau mewnol ac anghenion ein cwsmeriaid. Bydd GRhR ar ei newydd wedd yn parhau i gael gwared â biwrocratiaeth ddiangen a symleiddio prosesau; byddwn yn cydlynu arferion lle bo hynny'n bosibl, ac yn creu effeithlonrwydd drwy wneud pethau unwaith (yn hytrach na thair gwaith, fel oedd yr arfer yn y sefydliadau oedd yn rhagflaenu).

Mae deall beth yw'r gost o ddarparu gwasanaethau yn hanfodol. Rydym yn adolygu ffioedd a chostau GRhR yn gyson ar draws y tri awdurdod, i sicrhau ein bod yn gwybod beth yw cost darparu gwasanaethau, a'n bod yn adennill y costau hynny lle mae'n bosibl.

Rydym yn gwranddo ar ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid i nodi eu hanghenion a'u disgwyliadau. Ceisiwn ddatblygu ein gwasanaethau fel y gall cwsmeriaid eu datblygu'n haws a'u bod yn fwy effeithiol ac yn rhatach. Credwn y bydd ymgysylltu'n well yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell ac o ganlyniad sicrhau canlyniadau gwell.

Rydym yn cydnabod yr angen i ddeall, mesur a rheoli ein perfformiad ar draws y Gwasanaeth. Rydym yn parhau i wella ar ddatblygu ein mesurau fel y bydd gennym yn y pen draw gyfres o fesurau sy'n sicrhau bod perfformiad yn cael ei reoli'n effeithiol ac mewn ffordd ystyrlon, a'n bod yn cael effaith gadarnhaol ar y cwsmeriaid hynny sy'n rhyngweithio â ni.

5. Datblygu'r Gweithlu

Mae gweithredu Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar draws tair ardal benodol yn cynnig nifer o heriau i'r Gwasanaeth a'i weithlu. Ein nod yw defnyddio'n Cynllun Datblygu'r Gweithlu i ddatblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau'r cyfuniad cywir o brofiad, gwybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein hamcanion.

Ein gweithlu yw ein ased mwyaf gwerthfawr, a rhaid iddynt deimlo bod ganddynt yr hyn sydd ei angen i weithredu yn amgylchedd newydd Gwasanaethau a Rennir. Bydd ein Cynllun yn amlinellu sut gaiff swyddogion eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu sgiliau newydd a gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae creu cynlluniau datblygu'r gweithlu, a buddsoddi mewn hyfforddiant felly'n sylfaenol i sefydlu'r ymddiriedaeth a'r diwylliant yr ydym yn eu hadeiladu o fewn y sefydliad.

Mae ein Cynllun Datblygu'r Gweithlu, a ddatblygwyd ar ddechrau 2018, yn fframwaith i gyfuno:-

- Diwylliant sefydliadol
- Arwain a rheoli
- Sgiliau craidd
- Recriwtio, cadw a symud ymlaen
- Cyfathrebu ac ymgysylltu cyflogeion
- Rheoli perfformiad cyflogeion

Rydym am i'r GRhR fod yn lle da i weithio. Rydym dal yn wasanaeth cymharol newydd ond yn un uchelgeisiol a chydabyddwn y rôl bwysig a wna pawb wrth helpu'r gwasanaeth i gyflawni ei nodau. Rydym felly, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi datblygu fframwaith ymddygiadol, wedi'i alinio i'n Cynllun Gweithlu a grëwyd i ddiffinio sut disgwylir i gyflogeion y GRhR wneud eu gwaith. Mae'n cynnwys set o ymddygiadau craidd sy'n berthnasol i bawb. Mae'n rhoi manylion ar yr ymddygiad a'r agweddau sy'n ofynnol gan bob cyflogai, a'r ymddiriedaeth a roddir ynddynt i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth, blaenoriaethau, canlyniadau a diwylliant y GRhR. Bydd y fframwaith hwn yn gwella adolygiadau rheoli perfformiad rheolaidd sy'n gofyn i reolwyr llinell a'u staff nodi amcanion personol ac asesu anghenion datblygu.

Anogir Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a chynigir cyfleoedd i swyddogion fynychu ystod eang o gyrsiau hyfforddiant, seminarau, cyfarfodydd a briffiau i helpu i gynnal cymhwysedd a gwella gwybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweinyddol. Rydym hefyd wedi cyflwyno gofyniad i'r holl gyflogeion gyflawni o leiaf 10 awr o DPP yn ystod y flwyddyn i wella eu datblygiad.

Hefyd, cynhelir diwrnodau hyfforddiant technegol mewnol i gefnogi hyfforddiant trawsddisgyblaeth a gwella ymwybyddiaeth o weithgareddau gorfodi cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi parhau i roi hyfforddiant cymhwysedd cyfreithiol i swyddogion ynghyd â nifer o gyrsiau datblygu proffesiynol. Er bod hyn yn ffordd gost-effeithiol o wella sylfaen sgiliau ein gweithlu, efallai'r canlyniad mwyaf yw'r potensial i greu tîm cryfach. Byddwn hefyd yn mabwysiadu model dysgu a datblygu i sefydlu, cynnal a datblygu swyddogion i'r lefelau cymhwysedd gofynnol gan ddefnyddio'r dull 70:20:10 sydd o gylch y ddamcaniaeth fod y mwyafrif, tua 70% o ddysgu, yn dod drwy brofiad, 20% o ddysgu cymdeithasol â chydweithwyr a 10% drwy ddysgu ffurfiol.

Ceisiodd Arolwg Staff GRhG ar ddechrau 2018 farn cyflogeion ar nifer o themâu gweithle gan gynnwys dysgu a datblygu. Er bod y canlyniadau'n dda ar y cyfan o ran hyn, nodwyd datblygiad personol fel cyfle i wella. Bydd felly'n bwysig yn ystod y flwyddyn i ddod sicrhau bod datblygiad personol yn cael ei annog drwy'r broses adolygu perfformiad drwy ddarparu cyfleoedd datblygu addas sy'n gysylltiedig ag amcanion busnes GRhG.

6. Troi gweithredoedd yn ganlyniadau


Rydym yn dal i weithio i integreiddio ein gweledigaeth, blaenoriaethau, canlyniadau a phrif nodau a'n perfformiad i roi darlun cyflawn o'r gwaith a wna'r gwasanaeth a'r effaith gadarnhaol a wna.

Mae adran ganlynol y Cynllun Busnes hwn yn dwyn yr elfennau gwahanol hyn ynghyd er mwyn amlygu ein cyflawniadau a'n cydberfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf gyda'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yn 2018/19 i gyflawni ei blaenoriaethau. Caiff y fframwaith hwn ei adolygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol ac yn ystyrlon i randdeiliaid.

Gwella iechyd a llesiant



Yn ychwanegol, mae'n canlyniadau hefyd yn cyfrannu at yr amcanion llesiant canlynol:-




6.1 Gwella iechyd a llesiant

Cyflwyniad


Mae gwella iechyd a llesiant yn brif flaenoriaeth i Wasanaethau Rheoliadol a Rennir. Mae'r Gwasanaeth yn cynnig ystod eang o wasanaethau i fusnesau, cwsmeriaid a thrigolion – ac mae nifer ohonynt yn cael eu "cymryd yn ganiataol". Ni ellir gorbwysleisio eu cyfraniad at ein canlyniadau, na'u heffaith ar gymunedau. Mae'r gwaith a wneir i sicrhau bod bwyd yn ddiogel, bod clefydau heintus, llygredd swm ac allyriadau aer yn cael eu rheoli, a bod peryglon yn y gweithle yn cael eu rheoli'n gywir i gyd yn caniatáu i bobl fyw mewn amgylchedd iach. O ystyried hefyd ein gwaith yn sicrhau ansawdd eiddo preifat ar rent, yn hybu amgylchedd masnachu diogel ac yn rheoleiddio safleoedd trwyddedig er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n gyfrifol, yna mae'n gwbl amlwg bod y gwaith a wneir gan GRHR yn gyfraniad enfawr at iechyd a llesiant y rhanbarth.

Ein perfformiadd


■ Pen-y-bont ar Ogwr
 ■ Caerdydd
 ■ Bro Morgannwg



Busnesau oedd yn teimlo bod yr archwiliad diogelwch bwyd wedi'u cynorthwyo i wella safonau hylandid bwyd yn eu busnes



Cynrychiolwyr Diogelwch Bwyd/Iechyd a Diogelwch a oedd yn teimlo bod yr hyfforddiant a gawsant yn eu helpu i wella safonau cydymffurfio yn eu busnesau.



Sylwadau a gafwyd:-

“Cyflwynodd y swyddog ei hun yn broffesiynol dros ben ac roedd yn glir ac yn gryno o ran yr hyn oedd i'w gyflawni yn ystod ei ymweliad. Does dim dwywaith bod pawb wedi dysgu llawer a fydd o help mawr i wella ein busnesau bwyd”.

“Roedd yr arolygwr y cefais i yn gymwynasgar dros ben o ran yr holl faterion presennol ac i'r dyfodol, roedd ei broffesiynoldeb yn wych ac roedd hefyd yn amyneddgar iawn wrth wrando ar fy rhestr hir o gwestiynau.”

“Ymweliad buddiol a phroffesiynol. Roedd y swyddog yn gymwynasgar ac rwy'n teimlo'n hyderus am y cymorth a gefais ganddi hi a chan y gwasanaeth ei hun.”



Clefydau Heintus

1415

Achos o glefydau heintus yn cael eu derbyn gan y gwasanaeth, ac o'r rhain cadarnhawyd 1098 gan labordy



Diogelwch Bwyd

4600+

Cynhaliwyd mwy na 4600 o ymweliadau arolygu ac archwiliadau busnesau bwyd mewn perthynas â diogelwch a safonau bwyd ledled y rhanbarth.



Trwyddedu

1800+

O ddiwyddiadau dros dro neu gymunedol yn cael eu hawdurdodi, gan alluogi digwyddiadau cymunedol neu adloniadol i gael eu cynnal yn ddiogel ledled y rhanbarth.



Forffidiau

15000+

Fforffedwyd mwy na 15000 o eitemau a chynnyrch drwy'r Llys gan gynnwys, dillad, sigarêts, eitemau trydanol, tân gwyllt, gwisgoedd ffansi a pheiriannau chwarae gemau.

Gwella iechyd a llesiant

Yr hyn a gyflawnom

Mae'r gadwyn fwyd yn ddiogel ac yn rhydd o beryglon

Targedau Perfformiad Archwilio Bwyd - 2017/18 welodd y canlyniadau gorau i GRhR o ran nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd mewn safleoedd bwyd risg uchel. Cynhaliwyd 100% o archwiliadau ledled y tair ardal o'i gymharu â 87.66% ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 96.30% yng Nghaerdydd a 94.22% ym Mro Morgannwg yn ystod 2016/17. At hynny, gwelwyd cynnydd dramatig yn nifer yr archwiliadau mewn busnesau risg isel (gradd D-E), gyda 100% o fusnesau gradd D yn cael archwiliad.

Cynydd yn y busnesau sy'n lled gydymffurfio – cynyddodd nifer y busnesau bwyd â graddfa hylendid bwyd o dros 3 ymhob awdurdod lleol yn ystod 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. (Pen-y-bont ar Ogwr o 94.69% i 96.69%, Caerdydd 90.75% i 92.71 %, Bro Morgannwg 91.56% i 95.40%). Gellir priodoli hyn i lwyddiant y rhaglen ymyrraeth mewn busnesau bwyd, a sicrhau bod unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch bwyd yn cael eu nodi, bod camau gorfodi priodol yn cael eu cymryd a bod swyddogion yn ailymweld â'r safleoedd i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelwch bwyd.

Arolygon – Yn ychwanegol at archwiliadau arferol mewn busnesau bwyd, cymerodd GRhR ran mewn arolygon diogelwch bwyd a safonau bwyd oedd yn golygu cymryd samplau o wahanol fathau o fusnesau. Dyma'r math o arolygon a gynhaliwyd:-

- **Arolwg o'r îa a Ddefnyddir mewn Diodydd Oer mewn Siopau Coffi** – Yn dilyn ymchwiliad gan y BBC i îa o siopau coffi y darganfuwyd ei fod yn cynnwys bacteria oedd yn achosi risg sylweddol o ran diogelwch bwyd, cymerwyd samplau o îa gan 46 o fusnesau yn unol â phrotocol Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru. Roedd angen cymryd camau gweithredu pellach mewn 32.68% o'r samplau i sicrhau canlyniadau boddhaol. Yr hyn oedd wedi arwain at ganlyniadau gwael ar y cyfan oedd methiant i lanhau'r peiriant îa yn ddigonol a'i gynnal a'i gadw yn iawn, diffyg glendid personol a dim lle priodol i storio'r llwyau îa.
- **Arolwg Prydau Bwyd Ysgolion** – cymrodd GRhR ran yn Arolwg Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru i sefydlu lefelau gwaelodlin organeddau penodol yn y bwyd sy'n cael ei ddarparu gan ysgolion i blant ledled Cymru. O ganlyniad cymerwyd 173 o samplau o fwyd yn barod i'w fwyta o 37 o ysgolion gan gynnwys rhai preifat. Roedd 96.5% o'r canlyniadau yn rhai boddhaol, gyda dim ond 3.5% yn destun ymchwilio pellach.
- **Arolwg o fyrgyrs heb eu coginio'n drwyadl** – gall byrgyrs gael eu heintio gan facteria sy'n achosi gwenwyn bwyd fel E.coli O157 ac felly er mwyn cael eu gweini'n ddiogel rhaid iddynt gael eu coginio'n drwyadl, oni bai bod gweithdrefnau diogelwch bwyd llym yn eu lle, a bod y ffynhonnell sy'n eu darparu wedi'u cymeradwyo. Ar hyn o bryd, dim ond un gadwyn o werthwyr byrgyrs yng Nghaerdydd sy'n gallu gweini rhai nad ydynt wedi'u coginio'n drwyadl. Cynhaliwyd arolwg i asesu a oedd y byrgyrs oedd yn cael eu gweini yng Nghaerdydd yn cael eu coginio'n drwyadl. Ymwelwyd â 9 busnes a phrynwyd a dadansoddwyd 18 byrgyr gan y Dadansoddwr Cyhoeddus. Datgelodd y dadansoddiad o'r samplau nad oedd 9 o'r 18 wedi cael eu coginio'n drwyadl. Canlyniad hyn oedd cymryd camau gorfodi priodol i sicrhau bod busnesau yn y dyfodol yn coginio eu byrgyrs yn drwyadl, gan gynnwys rhoi 4 Hysbysiad Camau Adfer.
- **Arolygon Safonau Bwyd** – Cynhaliodd GRhR amrywiaeth eang o arolygon safonau bwyd gan arwain at gymryd 157 o samplau ffurfiol ac anffurfiol yn ymwneud â chynnwys bwyd, alergenau mewn labeli o dramor, cyw iâr oedd wedi'i rewi'n flaenorol, ffrwythau a llysiau amrwd ac egsotig, rhywogaethau cig ac alergenau mewn cludfwyd a chig gafr. O'r rhain roedd 51 yn anfoddhaol, a'r cyfan yn destun camau gorfodi. Mewn un arolwg penodol, prynwyd bwyd mewn 10 siop cludfwyd Tseiniad a ddewiswyd ar hap ledled rhanbarth GRhR, lle gofynnodd swyddogion am reis wedi'i ffrio heb wy, oherwydd alergeddau. Ar ôl i'r Dadansoddwr Cyhoeddus brofi'r bwyd, cadarnhawyd bod pob pryd yn cynnwys wy a/neu brotein wy, oedd yn awgrymu croeshalgi. Ar ôl cynnal yr ymarferiad, ail-ymwelwyd â phob un o'r safleoedd a rhoddwyd cyngor llawn a chynhwysfawr yn ymwneud â pheryglon gweini bwyd i gwsmeriaid sy'n datgan bod ganddyn nhw alergedd. Ym Mai 2017, ail-ymwelwyd â'r busnesau hyn ac eto, gofynnodd swyddogion am reis wedi'i ffrio heb wy oherwydd alergedd. O'r rhai yr ymwelwyd â nhw, dywedodd 2 nad oedden nhw'n gallu gwarantu na fyddai wy yn y prydau bwyd, felly ni chymerwyd samplau ganddynt. Fodd bynnag, gwerthodd yr 8 arall gynnyrch yr oedden nhw'n datgan ei fod heb wy, a methodd pob un ohonynt y prawf samplo ffurfiol. Yn dilyn yr ymchwiliadau derbyniodd pedwar safle Rybudd Symb, a chafodd dau eu herlyn.

- **Arolwg Sticer CSHB** – Sefydlodd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 gynllun sgorio hylendid bwyd gorfodol i Gymru. Nod y cynllun yw helpu cwsmeriaid i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth o ran ble i brynu a bwyta bwyd, drwy roi gwybodaeth am safonau hylendid. Mae dyletswydd gyfreithiol ar fusnesau bwyd (oni bai eu bod wedi’u heithrio) i ddangos sticer CSHB dilys. Cynhaliwyd arolwg ledled GRhR i sicrhau cydymffurfiaeth â’r gyfraith hon. Gwiriwyd 947 o fusnesau i sicrhau bod y sticer sgorio dilys yn cael ei arddangos mewn lle amlwg. Doedd 18 o fusnesau ddim yn cydymffurfio â’r ddeddf a rhoddwyd hysbysiad cosb benodedig iddynt.

Bwyty yng Nghaerdydd yn cael dirwy o £3,200 am gyfres o droseddau hylendid bwyd – Rhoddwyd dirwy o £3,200 i fwyty yng Nghaerdydd, a’u gorchymyn i dalu costau o £1,660 ac iawndal i ddiodeffwr o £40 am nifer o droseddau hylendid bwyd ar ôl i swyddogion o Wasanaethau Rheoliadol a Rennir ymyrryd. Ymwelwyd â’r busnes yn Nhachwedd 2016 a Mai 2017 i ddarganfod nad oedd gan y bwyty system reoli diogelwch bwyd yn ei lle, a bod y mesurau rheoli plâu yn aneffeithiol. Er gwaetha’r cyngor a roddwyd, roedd y busnes yn parhau i fethu.

Rheolir risgiau yn y gweithle yn briodol

Project Cartrefi Gofal Preswyl – Nodwyd y project hwn fel ymyriad iechyd a diogelwch oedd yn haeddu blaenoriaeth yn 2016-17 ar ôl sawl digwyddiad o bwys mewn cartrefi gofal. Roedd hyn yn cynnwys marwolaeth un o’r trigolion, anafiadau oedd yn peryglu bywyd un o’r cyflogeion ar ôl iddo syrthio i lawr siafft lifft, ac un o’r trigolion yn dringo allan o ffenest ddi-rwystr, a syrthio o uchder. Ar y pryd, ymwelwyd â 43 o gartrefi gofal preifat i asesu cydymffurfiaeth â diogelwch codi offer, rheoli risg legionella a llosgi, atal cwympiadau o uchder a rheoli rheiliau gwely. Dilynwyd hyn gan Fforwm Fusnes Cartrefi Gofal lle atgyfnerthwyd y prif negeseuon a nodwyd yn ystod yr ymweliadau cychwynnol, i randdeiliaid. Yn ystod 2017/18, aethpwyd yn ôl at y project gyda’r nod o gyflawni cydymffurfiaeth yn fwy cyson.

At y diben hwn, ymwelwyd eto â’r cartrefi oedd yn rhan o’r project gwreiddiol oedd yn dal yn agored a than gyfrifoldeb yr awdurdod lleol, i’w gwirio ac i asesu a oedden nhw’n cydymffurfio yn dilyn ymyriadau cychwynnol y gwasanaeth.

Nododd yr ymweliadau hyn fod rheoli legionella mewn systemau dŵr oer a phoeth, ac archwilio offer codi’n drylwyr yn ddau faes lle mae’r diffyg cydymffurfio mwyaf. Er bod sawl rheswm am hyn, mae’n ymddangos ei bod yn dal yn angenrheidiol i GRhR ymyrryd yn rheolaidd mewn cartrefi gofal preswyl nes i sefydliadau sicrhau bod eu busnesau’n fwy cydnherth.

Diogelwch Seleri – Mae gwneud seleri’n fwy diogel yn flaenoriaeth iechyd a diogelwch cenedlaethol wedi nifer o gyflogeion ac aelodau o’r cyhoedd farw neu gael eu hanafu’n ddifrifol yng Nghymru a gweddill y DU yn y blynyddoedd diweddar. Digwyddodd hyn wrth i bobl syrthio drwy gaeadau seleri oedd heb eu gwarchod, a drysau i seleri oedd heb eu cloi, ac wrth i bobl anadlu awyr â lefelau isel o ocsigen yn y seleri o ganlyniad i nwy yn dianc o silindrau diodydd. Rhwng Hydref a Thachwedd 2017 bu i’r Tîm Iechyd a Diogelwch gynnal 71 archwiliad o dafarndai, gwestai, bwytai a chlybiau nos oedd yn canolbwyntio ar: Syrthio o uchder, yn arbennig drwy gaeadau, drysau ac i lawr grisiau i seleri; diogelwch nwy cywasgedig mewn llefydd cyfyng, a diogelwch offer codi wrth ddefnyddio lifftiau neu beiriannau codi mewn seleri. Ymwelwyd â 40 safle yng Nghaerdydd, 21 yn y Fro a 10 ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Doedd yr un o’r 71 (100%) yn cydymffurfio. Y ffyrdd mwyaf cyffredin o beidio cydymffurfio oedd:

- Diogelwch nwy o ddiodydd mewn llefydd cyfyng.
- Syrthio o uchder neu i lawr grisiau.

Mae ymrwymiad bellach i gynnwys “Diogelwch mewn Seleri” yng nghynllun gwaith pob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer 2018-2019. Bydd y project hwn nawr yn cael ei ymestyn am flwyddyn arall, gydag 80 archwiliad i ddigwydd o Fehefin 2018 ledled y 3 awdurdod, gan ganolbwyntio ar glybiau nos, clybiau chwaraeon a chymdeithasol, a thai tafarn annibynnol.

Diweddariad ar Broject Diogelwch Cyrsiau Golff - Cytunwyd yn 2016/17 y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru roi blaenoriaeth i ymyrryd yn rhagweithiol mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ar Gyrsiau Golff. Daeth hyn ar ôl marwolaeth dau gontractwr wrth weithio ar gyrsiau golff yn y de-ddwyrain, a nifer o ddamweiniau ac achosion y llwyddwyd i'w hosgoi o drwch blewyn ar gyrsiau golff ledled Cymru. Rhoddwyd ffocws i'r project ar ôl i ymchwilyr i'r damweiniau gasglu gwybodaeth leol, sef rheoli iechyd a diogelwch yn gyffredinol, diogelu contractwyr a cheidwaid y glasoriau, a diogelwch a symudiadau cerbydau.

Ymwelwyd â 24 cwrs golff ar y pryd, a nodwyd nifer sylweddol o feysydd allweddol lle nad oedd cydymffurfio. O ganlyniad derbyniodd y cyrsiau golff adroddiad ffurfiol ysgrifenedig yn amlinellu'r rheolau a dorrodd ar adeg yr ymweliadau, a'r camau gweithredu oedd eu hangen i wella cydymffurfiaeth a safonau iechyd a diogelwch yn gyffredinol. Gofynnodd swyddogion hefyd am gynlluniau gweithredu i ddangos ymrwymiad y cyrsiau golff i godi safonau.

O Ebrill i Fehefin 2017, ymwelwyd unwaith eto â'r 24 cwrs golff a gwelwyd bod y rhan fwyaf wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â'r meysydd na gydymffurfiwyd â hwynt y tro cyntaf. Er gwaethaf hyn, roedd canlyniadau ymweliadau'r project yma'n atgyfnerthu'r angen i ymyrryd yn rhagweithiol yn y diwydiant golffio i godi safonau. Y gobaith yw y bydd ymyrraeth gan GRhR yn cyflawni gwelliant parhaus ac yn annog newid ymddygiad yn y sector golff.

Project rheoli asbestos – Yn dilyn cynllun peilot cychwynnol yn gynnar yn 2017, parhaodd Swyddogion GRhR â'r gwaith yn 2017/18, gyda'r nod o weld pa mor dda oedd busnesau'n cydymffurfio â'r ddyletswydd i reoli asbestos yn unol â Rheoliad 4 Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012. Roedd y cam hwn o'r project yn canolbwyntio ar ystadau diwydiannol, diogelwch seleri, projectau BEEP, ac ardaloedd Stryd Bute a Lôn y Felin Caerdydd. Cadarnhaodd y project ganlyniadau'r astudiaeth beilot oedd yn dangos bod y ddyletswydd i reoli asbestos yn fan gwan o ran cydymffurfiaeth ar draws y sectorau busnes, ni waeth beth fo'r maint neu'r math o ddiwydiant, gan gyfiawnhau'r angen i ehangu a pharhau'r gwaith hwn ar draws rhanbarth GRhR.

Gorchymyn cwmni i dalu £24,000 ar ôl torri rheolau iechyd a diogelwch – Gorchymynnwyd i gwmni dalu £24,000 ar ôl i Wasanaethau Rheoliadol a Rennir ei erlyn yn llwyddiannus am drosedd iechyd a diogelwch. Digwyddodd hyn yn 2015 yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, pan drodd peiriant gwasgu ceiniogau oedd wedi'i addasu, drosodd, a tharo plentyn pum mlwydd oed gan anafu ei ben a'i fraich. Cafodd y cwmni ddirwy o £10,000 am y drosedd, bu'n rhaid iddynt dalu iawndal o £1,000 i'r plentyn, costau arbenigwr o £10,000, costau'r awdurdod lleol o £3,544.70 a gordal dioddefwr o £170.

Rheolir ac atelir clefydau heintus

Clefydau Trosglwyddadwy – derbyniodd GRhR adroddiadau am 1415 achos o glefydau trosglwyddadwy rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. O'r rhain cafodd 1098 eu cadarnhau mewn labordy. Gweithredwyd ar 1415 (100%) o'r achosion o fewn yr amser ymateb targed. Mae'r pathogen achosol mwyaf cyffredin, *Campylobacter*, yn 68% o'r adroddiadau labordy a gadarnhawyd ac a nodwyd ac yn 52% o'r holl glefydau trosglwyddadwy (a gadarnhawyd ac a amheuwyd) a ymchwiliwyd. Mae pathogenau nodedig eraill yn cynnwys *Cryptosporidiosis*, *Salmonella* gan gynnwys teiffoid a pharateiffoid, *Shigella*, *E.coli* O157, *Legionella* a *Hepatitis A* ac E.

O'r 188 (22%) a ddychwelodd eu ffurflenni adborth cwsmeriaid:

- Dywedodd 57% eu bod wedi newid eu hymddygiad o ganlyniad i'r cyfweiliad. Roedd enghreifftiau'n cynnwys golchi dwylo'n drwyadl, peidio golchi cyw iâr bellach, gwisgo menig i arddio, peidio gadael i'w merch lyfu'r fowlen ar ôl gwneud cacen yn cynnwys wy amrwd.
- Roedd 98% o'r rhai a holwyd yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth. Ymhlith y sylwadau oedd: wedi fy mhlesio'n arw gyda'r gwasanaeth, yn effeithiol iawn ac yn llawer o gymorth, ni allwn ofyn am fwy, yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a'r cyngor.

Ymchwiliwyd i 67 achos o glefydau trosglwyddadwy. Y ddau leoliad mwyaf cyffredin oedd ysgolion neu gartrefi gofal. Roedd 27 (40%) yn gysylltiedig ag ysgolion, a 28 (42%) gyda chartrefi gofal.

Rheolir allyriadau sŵn ac aer

Canllawiau Llygredd – Er mwyn cynnig tryloywder a dull cyson ledled y 3 awdurdod lleol, mae GRhR wedi datblygu 2 ganllaw ar gyfer datblygwyr a phobl sy'n gwneud ceisiadau cynllunio. Mae'r Canllaw i Ddatblygwyr ar Reoli Llygredd o Safleoedd Adeiladu yn rhoi cyngor i gontractwyr ar sut i reoli eu safle heb achosi aflonyddwch/llygredd afresymol i drigolion a busnesau gerllaw. Fe'i cynlluniwyd i'w cyngori o flaen llaw ar yr hyn sy'n ofynnol fel bod modd cynllunio gwaith gan wybod beth sydd i'w ddisgwyl, gyda'r nod felly o leihau'r angen i GRhR ymyrryd wrth ymateb i gwynion o'r math hwn. Mae canllaw arall, hefyd wedi'i anelu at ddatblygwyr, ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad ac mae'n rhoi cyngor a chanllawiau ar wneud ceisiadau cynllunio, pryd y byddai GRhR angen derbyn adroddiad acwstig, gwybodaeth ar ba fath o beth y byddai disgwyl ei roi o fewn yr adroddiad, mathau o ddatblygiadau, a materion i'w hystyried ac ati.

Cynhelir amgylchedd masnachu teg

Profi Gwelyau Haul – Mae'r risgiau o fod yn agored i UF sy'n gysylltiedig â gwelyau haul yn wybyddus i bawb. Yn ystod 2017 cynhaliodd swyddogion arolwg ledled rhanbarth GRhR yn profi gwelyau haul y gellir eu llogi, i weld a oeddynt yn bodloni gofynion Rheoliadau Diogelwch Nwyddau Cyffredinol o ran y lefelau Uwchfioled fel y manylir arnynt yn BS EN 60335-2-27: 2010. Aeth y swyddogion i 41 o safleoedd ledled y rhanbarth. Y darlenniad uchaf o UF a fethwyd oedd 0.94kw/m², gan basio'r lefel a ganiateir o 213%. Yn ystod yr arolwg, rhoddwyd pedwar hysbysiad 'gofyniad i nodi' i safleoedd a fethodd y prawf, gyda chyfarwyddiadau bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar y gwelyau, a bod angen newid y bylbiau i fodloni'r goddefiant cyfreithiol o 0.30kw/M². Mae gan un safle ym Mhen-y-bont ar Ogwr hysbysiad mewn grym ar hyn o bryd, a bydd swyddogion yn ymweld â'r lle yn y dyfodol agos i weld a ydi'r gwely haul yn cael ei ddefnyddio. Mae'r safleoedd eraill i gyd wedi cael eu harchwilio eto, a chodwyd yr hysbysiadau arnynt. Yn dilyn yr arolwg, gwahoddwyd swyddogion i gyfarfod â chydweithwyr yn y GIG i drafod gwaith pellach ar reoleiddio gwelyau haul.

Lensys Cyffwrdd Cosmetig – Rheoleiddir lensys cyffwrdd cosmetig (lensys cyffwrdd nad ydynt yn cywiro'r golwg, sydd â'r bwriad o newid golwg neu liw y llygad) dan ddeddfwriaeth Brydeinig, sy'n golygu mai dim ond optometrydd cofrestredig, optegydd cyflenwi wedi'i hyfforddi'n addas neu ymarferydd meddygol all eu cyflenwi, neu oruchwylio eu cyflenwi. Mae hefyd nifer o risgiau difrifol o heintiau yn gysylltiedig â'r lensys cyffwrdd hyn.

Ym Medi 2017, cyn Calan Gaea', anfonwyd at bob busnes a nodwyd ledled rhanbarth GRhR fel rhai oedd yn gwerthu lensys cyffwrdd cosmetig, gyngor ar y gofynion deddfwriaethol yn gysylltiedig â'u gwerthu, sef bod yn rhaid i hynny ddigwydd dan yr oruchwyliaeth berthnasol. Aeth swyddogion ati wedyn i brynu mewn 22 safle er mwyn eu profi. Yn sgil yr ymarfer hwn, peidiodd 3 â pharhau i werthu'r nwyddau ar ôl cael cyngor. Fodd bynnag, canfuwyd bod 3 yn gwerthu a chawsant 'rybudd gofyniad i nodi' dan ofynion y Rheoliadau Diogelwch Nwyddau Cyffredinol. Ar ôl cynnal rhagor o

ymarferion prynu-i-brofi datgelwyd bod un safle'n mynd yn groes i'r hysbysiad. Mae'r safle hwn nawr yn destun ymchwiliad swyddogol.

Project/Arolwg Therapyddion Harddwch – Anelwyd y project hwn, a gynhaliwyd ar y cyd gan Dimau Iechyd a Diogelwch a Safonau Masnach GRhR, at y diwydiant harddwch ar lefel manwerthu. Mabwysiadwyd dull o weithio i dri chyfeiriad. Roedd un yn golygu gwaith ymchwil o'r ddesg i ddarganfod ystod o driniaethau oedd ar gael i alluogi'r gwasanaeth i ddychwelyd at weithgareddau tyllu croen heb eu cofrestru. Rhoddwyd gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ar sut y gellid addasu gweithdrefnau arbennig yn y dyfodol. Yna roedd y safleoedd yn cael eu harchwilio er mwyn edrych ar y nwyddau cosmetig oedd yn cael eu defnyddio a'u gwerthu, edrych ar eu diogelwch ac unrhyw honiadau oedd yn cael eu gwneud, gan gynnwys pob maes oedd yn cael ei archwilio fel arfer. Mae'r busnesau hyn yn cael eu hystyried yn rhai risg isel ar y rhaglen archwilio, ac felly nid ydynt yn destun ymchwiliad arferol oni bai bod cwyn. At hynny, cydnabuwyd ei bod yn annhebygol y byddai busnesau wedi derbyn cyngor neu ganllawiau o'r blaen. Nod y project oedd addysgu a chynghori, gyda chymau gorfodi ond yn cael eu hystyried os oedd rheol amlwg yn cael ei thorri. Edrychwyd ar bedwar prif faes o weithgaredd, sef estyniadau a gludion yr amrannau, colur lled-barhaol, aeliâu ffug, tatŵs cosmetig, gwynnu dannedd a goleuo'r croen. Canlyniad y project oedd rhoi sawl sesiwn hyfforddi i therapyddion harddwch ledled rhanbarth GRhR.

Ymwelwyd â 48 safle i gyd, a'r rhan fwyaf ohonynt yn cydymffurfio. Rhoddwyd peth cyngor ar ddisgrifiadau a roir ar wasanaethau, gan gynnwys defnyddio enwau brandiau. Atafaelwyd nwyddau cosmetig mewn un safle nad oedd modd eu holrhain, oedd yn cynnwys 101 o eitemau ynghyd â bag o samplau wedi'u defnyddio. Doedd y masnachwr ddim yn ymwybodol o gwbl o ofynion mewnforio nwyddau cosmetig, a heb wirio dim byd o werth. Addysgwyd a chynghorwyd felly ar yr adeg hon. Daeth swyddogion hefyd ar draws yr hyn sy'n ymddangos yn arfer sydd ar gynydd sef cael 'triniaeth fampir i'r wyneb' neu blasma cyfoethog ei blatennau (PRP). Mae hyn yn golygu tynnu maint llwy neu ddau o waed o fraich rhywun, yna'i droelli mewn allgyrchydd i wahanu'r plasma. Caiff y plasma crynodedig sy'n gyfoethog o blatennau wedyn ei chwistrellu i mewn i'r wyneb. Cafodd yr arfer hwn ei gyfeirio at Iechyd a Diogelwch er gwybodaeth.

Dirwy o £5,400 i le trin gwallt am fod ag 1,534 o eitemau anghyfreithlon o ddillad a theganau plant anniogel a ffug yn eu meddiant – Ar ôl derbyn gwybodaeth, cynhaliodd swyddogion safonau masnach gyrch ar fusnes yng Nghaerdydd lle cafodd 1534 eitem eu hatafael. Datgelwyd yn hwyrach bod gwisgoedd archarwyr i blant a theganau Pokemon yn ffug, a bod y dillad wedi methu gofynion diogelwch. Rhoddwyd dirwy o £350 am bob trosedd o werthu nwyddau ffug, £500 am bob un o'r troseddau diogelwch, ynghyd â gorchymyn i dalu £1000 mewn costau a gordal dioddefwr o £50.

Safleoedd Trwyddedig yn gweithredu'n gyfrifol

Rheolau newydd yn ymwneud â mewnfudo – Yn sgil Deddf Mewnfudo 2016 gwnaed newidiadau i Ddeddf Drwyddedu 2003 o ran gwneud ceisiadau am drwydded yng Nghymru a Lloegr. Y nod oedd atal pobl rhag gweithio'n anghyfreithlon mewn safleoedd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol neu luniaeth hwyr y nos. Yn ystod 2017/18 mae GRhR wedi gweithredu'r newidiadau hyn i sicrhau bod gofynion y ddeddfwriaeth yn eu lle a'u bod yn fodlon bod gan ymgeiswyr hawl i weithio. Roedd hyn yn golygu hyfforddi swyddogion a gweithredu arferion gwaith newydd i ddechrau. At hynny, mae swyddogion wedi cyfarfod â'r Swyddfa Gartref i wella cyfathrebu rhwng y ddau awdurdod gydag ymarferiad ar y cyd wedi'i gynllunio ar gyfer 2018.

Ceir gwelliant yn ansawdd eiddo preifat ar rent

Trwyddedau Tai Amlfeddiannaeth – yn aml mae gan dai amlfeddiannaeth y safonau gwaethaf, yn ffisegol ac o ran rheolaeth, a chânt effaith niweidiol ar eu cymdogaethau yn enwedig o ran golwg y stryd. Yng Nghaerdydd, prosesodd GRhR 655 o drwyddedau tai amlfeddiannaeth yn ystod 2017-18. Ymhob achos o roi trwydded, gwnaed archwiliad llawn a gosodwyd safonau o ran diogelwch tân, amwynder a gorboblogi. Rhoddwyd mwyafswm ar nifer y preswylwyr, a gosodwyd amodau ar y drwydded yn rheoli safonau rheolaeth wrth fynd rhagddo. Er mwyn nodi pa eiddo oedd heb ei drwyddedu, aeth swyddogion GRhR ynghyd â gwirfoddolwyr hyfforddedig ymhlith y myfyrwyr i gynnal ymarferiad rhagweithiol yn ardal Plasnewydd Caerdydd, ardal sydd â Chynllun Trwyddedu Ychwanegol. Buont yn curo'r drysau gyda'r nos mewn 12 stryd, gan ddarganfod 52 o dai amlfeddiannaeth didrwydded, 19 fflat didrwydded a 55 yn rhagor o dai neu fflatiau oedd naill heb eu cofrestru neu heb eu trwyddedu gan Rentu Doeth Cymru.

Dadfeddiannu anghyfreithlon a gwiriadau cyn-deiliadaeth – Ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ym Mro Morgannwg boom yn ymchwilio ac yn rhoi cyngor mewn 23 achos o ddadfeddiannu anghyfreithlon, olygodd ein bod wedi gallu atal y trigolion rhag dod yn ddirgaref yn y rhan fwyaf o achosion. Rhoesom hefyd wasanaeth gwerthfawr i'r Adrannau Datrysiaidau Tai drwy archwilio 83 eiddo cyn i neb breswyllo ynddynt, er mwyn sicrhau bod rhai o'r bobl mwyaf bregus oedd yn chwilio am gartrefi yn y sector rhent preifat yn gallu byw mewn eiddo oedd yn rhydd o beryglon Categori 1 fyddai'n cael effaith ar eu hiechyd a'u diogelwch.

Dirwy o £11,000 i landlord didrwydded – Plediodd landlord didrwydded yng Nghaerdydd yn euog i 22 trosedd yn ymwneud ag eiddo yn Grangetown. Ymhlith y rhain oedd: methiant i ddarparu system larwm tân briodol ac amddiffynfeydd strwythurol rhag tân, diffyg cyfarpar digonol yn y gegin, dim profion nwy a thrydan, strwythur trydanol a ffenestri anniogel, ystafelloedd gwely annerbyniol a diffoddwyr tân oedd wedi dyddio. Yn ychwanegol roedd gweithredu tŷ amlfeddiannaeth trwyddedadwy heb drwydded, methiant i gofrestru fel landlord a gwneud cais am drwydded gan Rentu Doeth Cymru, a methiant i roi hysbysiad yn galw am gyflwyno dogfennau a gwybodaeth. Er i'r rhan fwyaf o'r gwaith gael ei wneud cyn y gwrandawriad llys, a bod y diffynnydd wedi gwneud cais am y trwyddedau priodol, cafodd ddirwy o £11,250, fe'i gorchymynnwyd i dalu costau o £250 a gordal dioddefwr o £120.

Materion sy'n dod i'r amlwg

Mewnforio bwyd ym Maes Awyr Caerdydd – O 1 Mai 2018 bydd Qatar Airlines yn dechrau hedfan o Faes Awyr Caerdydd gyda 5 hediad yr wythnos yn Nhymor y Gaeaf, a rhai dyddiol yn Nhymor yr Haf. Ar bob hediad bydd elfen o gargo fydd yn cynnwys mewnforio llysiau ac allforio pysgod. Bydd hyn yn galw am fwy o wylidwriaeth ac archwiliad i sicrhau bod y bwyd sy'n cyrraedd y ffin yn ddiogel i'w fwyta a bod hawl iddo ddod i mewn i'r wlad. Does gan y maes awyr ddim statws "Safle Archwilio'r Ffin" neu "Fan Mynediad Dynodedig" ar hyn o bryd er mwyn caniatáu i nwyddau yn deillio o anifeiliaid, neu fwydydd risg uchel nad ydynt o anifeiliaid, gael dod i mewn drwyddo.

Adolygu'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd – Disgwylir i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd gael ei weithredu a'i ddilyn gan Awdurdodau Bwyd wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r rhifyn cyfredol yn cael ei adolygu ac mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi'n fuan. Deallir y bydd ei gynnwys yn adlewyrchu'r darpariaethau yn yr un ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Lloegr, i sicrhau bod cysondeb cenedlaethol. Unwaith y caiff ei weithredu, bydd gofyn am adolygu'r holl bolisiau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ei ofynion. Mae'n hysbys y bydd gofynion hyfforddi ychwanegol yn cael eu nodi, gan gynnwys cynyddu hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus o 10 awr i 20.

Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 – Daw'r ddeddfwriaeth newydd hon ag ystod o gamau ymarferol ar sut i wella a gwarchod iechyd ynghyd, drwy gyfrwng nifer o ofynion newydd sy'n effeithio ar amryw o feysydd GRhR. Er nad yw wedi ei gweithredu'n llawn, mae'r ddeddfwriaeth eisoes wedi cyflwyno gwaharddiad ar dyllu rhannau personol o'r corff i rai dan 18 oed, ac yn galluogi awdurdodau bwyd i gadw derbynebaw hysbysiadau cosb benodedig yn deillio o droseddau dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd gwahanol elfennau o'r ddeddfwriaeth yn cael eu cyflwyno gan gynnwys trefn drwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig fel aciwbigo, tyllu'r croen, electrolysis a thatwio, a chyfyngu ysmegu mewn ardaloedd fel caeau chwarae ysgolion a thiroedd ysbytai. O dipyn i beth, bydd yn creu cofrestr genedlaethol o werthwyr tybaco a nwyddau nicotin, ac yn creu gwaharddiad ar roi nwyddau tybaco a/neu nicotin i rai dan 18 oed.

Tân Grenfell – Yn dilyn y tân trasig a cholli cymaint o fywydau yn Nhŵr Grenfell yng Ngogledd Kensington, mae adolygiad wedi'i gynnal drwy Brydain o'r math arbennig o gladin sy'n cael ei adnabod fel Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm (ACM) ac a ddefnyddiwyd ar y Tŵr. Mae profion a gomisiynwyd gan Lywodraeth Prydain ac a gynhaliwyd gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) wedi dangos nad yw mathau penodol o gladin a ddefnyddir yn gyffredin ddim yn bodloni'r Rheoliadau Adeiladu cyfredol o ran lledaenu tân, ac felly mae perygl gwirioneddol o dân lle mae'n cael ei ddefnyddio mewn adeiladau sydd dros 18m o uchder. O fewn Cymru, mae Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Tân, gan ddefnyddio gwybodaeth gan awdurdodau lleol a darparwyr tai, wedi nodi safleoedd lle cafodd ACM ei ddefnyddio. Mae nifer o adeiladau tal yng Nghaerdydd, o fewn ardal GRhR, yn eu plith. Mae Panel Arbenigol Annibynnol wedi argymhell gweithredu cyfres o fesurau lliniarol yn y cyfamser yn yr adeiladau a effeithiwyd, i sicrhau diogelwch trigolion, nes i'r cladin gael ei ddisodli. Y Gwasanaeth Tân ac Achub yw'r corff arweiniol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r gwaith hwn, ond mae Awdurdodau Lleol yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r Gwasanaeth Tân.

Materion Iechyd y Cyhoedd yn Ymwneud ag Offer Tanwydd Solet a Llosgyddion Pren - Mae GRhR yn ymchwilio i gwynion yn ymwneud ag offer tanwydd solet a llosgyddion pren diffygiol, wedi achosion o wenwyno carbon monocsid difrifol yn peryglu bywyd, a hefyd achosion o fwg a gronynnau'n achosi niwsans. Mae nifer y cwynion y mae'r gwasanaeth yn ei dderbyn wedi dechrau cynyddu yn sgil poblogrwydd llosgyddion pren, gydag ystadegau'n dangos bod dros 290,000 o losgyddion newydd wedi'u gosod ledled y DU dros y 12 mis diwethaf. Mae cyflogaeth GRhR wedi derbyn hyfforddiant ac mae cynrychiolwyr Cymdeithas Genedlaethol y Peirianwyr Simnai hefyd wedi rhannu eu harbenigedd ynglŷn â pheryglon y llosgyddion hyn. Bydd yr hyfforddiant yma'n galluogi staff i nodi peryglon posib wrth iddyn nhw gynnal archwiliadau, a delio â chwynion yn ymwneud â niwsans gan fwg yn fwy effeithlon. Y bwriad hefyd yw cynnal project fydd yn canolbwyntio ar gymhwysedd pobl sy'n gosod offer o'r fath, ac edrych i godi ymwybyddiaeth ymhlith cwsmeriaid o beryglon posib y llosgyddion hyn.

Rhentu Doeth Cymru – Archwiliadau Asiantaethau Gosod Tai - O Ebrill 2018 bydd GRhR yn gweithio gyda Rhentu Doeth Cymru i archwilio asiantaethau gosod tai. Mae'n ofynnol dan y ddeddfwriaeth i RhDC fel yr awdurdod trwyddedu i reoleiddio asiantau cymeradwy, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, amodau'r drwydded a'r cod ymarfer, ac fel rhan o'r gwaith hwn bydd yn cynnig canllawiau a chynghor er mwyn cyflawni arfer gorau. Bydd gweithio yn y modd hwn gyda Rhentu Doeth Cymru yn caniatáu GRhR i greu perthynas agosach gydag asiantaethau gosod tai fel eu bod yn ymwybodol o'r gwaith a wnawn, a hefyd beth sydd i'w ddisgwyl ohonynt. Bydd hyn yn helpu i ddod o hyd i atebion yn gynt i faterion y mae tenantiaid yn eu codi gyda ni.

Rhentu Doeth Cymru – Cyhoeddusrwydd a Gorfodi – Yn ystod 2018, bydd dwy neges graidd yn ganolog i holl gynnwys RhDC, sef:-

- Mae landlordiaid sydd ddim yn cydymffurfio yn torri'r gyfraith a chânt eu herlyn. Mae'n hollbwysig bod landlordiaid sydd ddim yn cydymffurfio yn gweithredu'n syth, neu fe fyddant yn euog o drosedd.
- Annogir tenantiaid i ddefnyddio ein cofrestr cyhoeddus i wirio a ydi landlord yn cydymffurfio, ac i roi gwybod i ni am landlordiaid anghyfreithlon.

Bydd yn bwysig felly i sicrhau bod GRhR yn parhau i roi cyhoedduswydd i'r negeseuon hyn ar ein gwefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol, a pharhau i gydweithio â RhDC i roi gwybodaeth ar gais, a chyfeirio achosion o fethu cydymffurfio. Bydd hyn yn ein galluogi i dargedu'r landlordiaid sy'n weddill sy'n anodd eu cyrraedd, ac i roi gwybod i denantiaid sut y gallant wirio a ydi eu landlord yn cydymffurfio â'r gyfraith. Bydd hyn yn arwain at gartrefi mwy diogel i'n trigolion, a mwy o ddiogelwch o ran sicrwydd eu tenantiaeth.

Deddf Rhentu Tai – Mae'n ofynnol i landlordiaid am y tro cyntaf dan y Ddeddf Rhentu Tai roi datganiad ysgrifenedig o'r cytundeb meddiannaeth i'r tenant neu'r trwyddedai. Mae'r datganiad yn egluro hawliau a chyfrifoldebau'r landlordiaid a deiliaid y contract yn eglur. Mae'n ofynnol dan y ddeddf newydd i landlordiaid sicrhau bod yr eiddo yn addas i bobl fyw ynddo pan fydd yn cael ei feddiannu, a thrwy gydol cyfnod y cytundeb tenantiaeth, ac mae'n rhoi sawl amddiffynfa i denantiaid a landlordiaid. Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi unrhyw bwerau newydd i GRhR yn uniongyrchol, gallai'r materion y gall tenantiaid gael iawndal amdanynt mewn llys orgyffwrdd â'r gwaith y mae'r gwasanaeth yn ei wneud. Bydd angen i staff fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth newydd hon, a bydd angen hyfforddiant priodol i sicrhau eu bod yn gallu cynghori landlordiaid a thenantiaid fel ei gilydd.

Tai Amlfeddiannaeth – Mae'r amodau byw mewn tai amlfeddiannaeth gyda'r gwaethaf yn y sector breifat. Mae hyn yn ychwanegol at y ffaith bod y trigolion gan amlaf gyda'r mwyaf bregus mewn cymdeithas. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, dim ond nifer gymharol fach o dai amlfeddiannaeth sy'n dod dan Drwyddedu Gorfodol. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn awgrymu bod 400 yn rhagor o eiddo yn rhai amlfeddiannaeth. Pan mae swyddogion wedi ymchwilio i gwynion yn yr eiddo hyn mae wedi dod yn amlwg nad yw safonau rheolaeth yn cael eu cynnal bob amser. Mae hyn yn cynnwys y gofynion am archwiliadau cyson, profi'r system synhwyro tân a chynnal a chadw drysau tân. Hebddynt mae bywydau tenantiaid mewn perygl. Yn dilyn ymchwil o'r ddesg i'r wybodaeth sydd ar gael am yr eiddo hyn, y bwriad yw gwirio a llenwi'r bylchau drwy gysylltu â landlordiaid i gasglu gwybodaeth sydd ar goll er mwyn creu cofnodion llawn fydd o gymorth i ymchwiliadau yn y dyfodol. At hynny byddai'n golygu bod modd cysylltu â landlordiaid yn flynyddol er mwyn gofyn am gopïau o dystysgrifau a gwella safonau rheolaeth yn yr eiddo dan sylw. Byddai ymweliadau o'r fath yn rhoi cyfle pellach i wirio a ydi'r landlordiaid wedi'u trwyddedu neu wedi eu cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru, neu a ydynt yn defnyddio asiant trwyddedig.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Gwella iechyd a llesiant

Prif Gyfrifoldeb

Mae'r gadwyn fwyd yn ddiogel ac yn rhydd o beryglon

Datblygu a mabwysiadu Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2018/19 sy'n amlinellu'r trefniadau sydd yn eu lle i gyflawni dyletswyddau o ran diogelwch bwyd.

C Hill

Datblygu a mabwysiadu Cynllun Iechyd Porthladdoedd 2017/18

C Hill

Rheolir risgiau yn y gweithle yn briodol

Datblygu a mabwysiadu Adran 18 Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch 2017/18 sy'n amlinellu'r trefniadau sydd yn eu lle i gyflawni dyletswyddau iechyd a diogelwch.

C Hill

Cyflawni ymarferiadau gorfodi di-fwg mewn bariau shisha.

C Hill

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar weithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

C Hill/H Picton

Rheolir allyriadau sŵn ac aer

Cyfrannu at bolisi cynllunio drwy roi sylw a data i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd 2018-2023.

W Lane

Datblygu Canllaw Cynllunio Atodol ar ansawdd sŵn ac aer yng Nghaerdydd fel rhan o'r Strategaeth Ansawdd Aer.

W Lane

Cynhelir amgylchedd masnachu teg

Ymroi i gadw gwylidwriaeth ar farchnadoedd er mwyn cael gwared ar nwyddau ffug neu anniogel, gan ganolbwyntio'n arbennig ar eitemau i'r cartref fel nwyddau cosmetig ac eitemau trydanol, a chynnyrch ffug ac anniogel i'r tŷ fel nwyddau glanhau.

C Hill

Cynnal project ar y cyd rhwng Safonau Masnach a Thai y Sector Preifat mewn perthynas â diogelwch llosgyddion pren, nwyddau ail law gan gynnwys nwyddau gwynion, celfi ail law a labeli tân a TPY mewn fflatiau a thai preifat.

C Hill

Cynnal ymgyrch gynghori ar gyfer manwerthwyr sy'n gwerthu nwyddau asid ledled rhanbarth GRHR, iddyn nhw gadw cofnod o werthiant, a gweithredu cyfyngiad oedran gwirfoddol ar werthiant nwyddau.

C Hill

Safleoedd Trwyddedig yn gweithredu'n gyfrifol

Cynnal adolygiad o'r Datganiad o Bolisi'r Ddeddf Drwyddedu a'r Parth Effaith Cronnol yn unol â'r Canllawiau Adran 182 diwygiedig yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr, a'i gyhoeddi, yn dilyn ymgyngoriad â rhanddeiliaid a chael cydsyniad y Cyngor.

W Lane

Cynnal adolygiad o'r Datganiad o Bolisi'r Ddeddf Gamblo ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg, a'i gyhoeddi, yn dilyn ymgyngoriad â rhanddeiliaid a chael cydsyniad y Cyngor.

W Lane

Ceir gwelliant yn ansawdd eiddo preifat ar rent

Ar y cyd â Rhentu Doeth Cymru, cynnal archwiliadau o asiantaethau gosod tai i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, amodau'r drwydded a'r cod ymarfer, a thrwy gyfleu negeseuon allweddol ynglŷn â pheidio cydymffurfio.

W Lane

Cynnal ymarferiad rhagweithiol o fewn ardal Pen-y-bont ar Ogwr i gael gafael ar wybodaeth am dai amlfeddiannaeth sydd y tu allan i'r Cynllun Gorfodol, er mwyn sicrhau bod gwiriadau priodol yn digwydd.

W Lane

Cynnal ymarferiad rhagweithiol yn ardal Plasnewydd Caerdydd i nodi tai amlfeddiannaeth didrwydded a sicrhau bod ceisiadau'n cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol.

W Lane

Gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub a Llywodraeth Cymru mewn ymateb i dân

W Lane

Grenfell drwy sicrhau bod unrhyw adeiladau sy'n dod dan gyfrifoldeb GRhR yn cael eu hadfer.

Cynnal rhaglen hyfforddi ar gyfer cyflogaion GRhR ar oblygiadau'r Ddeddf Rhentu Tai. **W Lane**

Rheolir ac atelir clefydau heintus


Sicrhau bod y Cynllun Gwasanaeth Clefydau Trosglwyddadwy 2018/19 yn cael ei gymeradwyo. **C Hill**

Cynnig gweithdai rhanbarthol ar reoli heintiau i datwlyddion a thyllwyr croen i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n gyson â deddfwriaeth rheoli heintiau, ac i baratoi busnesau ar gyfer y gofynion gweithdrefnau arbennig fel y'u hamlinellir yn y Bil Iechyd Cyhoeddus. **C Hill**


Beth fyddwn yn ei fesur yn ystod 2018/19

Mesurau Perfformiad 2018/19	Targed
% o fusnesau bwyd yn bodloni safonau diogelwch bwyd (yn lled gydymffurfio).	93%
% o fusnesau risg uchel (categori A a B) oedd yn atebol i gael archwiliad wedi'i drefnu, a gafodd eu harchwilio am hylendid bwyd.	100%
% o fusnesau risg uchel (categori C) oedd yn atebol i gael archwiliad wedi'i drefnu, a gafodd eu harchwilio am hylendid bwyd.	90%
% o fusnesau risg uchel oedd yn atebol i gael archwiliad wedi'i drefnu, a gafodd eu harchwilio am safonau masnach.	100%
% y camweddau sylweddol y gwnaed iawn amdanynt drwy ymyrraeth o ran safonau masnach yn ystod y flwyddyn	90%
% yr eiddo preifat ar rent a'r tai amlfeddiannaeth gafodd eu gwella drwy ddileu peryglon categori 1.	Dan ystyriaeth

Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed



Yn ychwanegol, mae'n canlyniadau hefyd yn cyfrannu at yr amcanion llesiant canlynol:-



6.2 Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed

Cyflwyniad

Nod ein gwaith diogelu yw sicrhau bod plant yn cael eu gwarchod rhag sylweddau a nwyddau niweidiol, bod pobl hŷn ac agored i niwed yn cael eu gwarchod rhag unigolion a masnachwyr diegwyddor, bod gweithgareddau benthyg arian yn anghyfreithlon ledled Cymru yn cael eu herio'n gryf, a bod y cyhoedd yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio tacsis fel trafndiaeth gyhoeddus. Gwnawn hyn mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr yn y Cyngor ac mewn asiantaethau eraill i helpu pobl sydd angen ein cymorth. Mae diogelu'r rhai sy'n agored i niwed yn thema ganolog i nifer o weithgareddau a gyflawnir gan GRhR.

Ein perfformiad



Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed

Yr hyn a gyflawnom

Diogelir plant rhag sylweddau a nwyddau niweidiol

Herio 25 a gwerthiant dan oed – Yn ystod y flwyddyn, ymgymerwyd â 4 cyrch gwerthiant dan oed ar draws rhanbarth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRHR). Ymwelwyd ag 19 o safleoedd gan brofi gwerthiant alcohol gyda swyddogion o'r GRHR yn ymweld ag archfarchnadoedd mwy i brofi polisïau'r siopau eu hunain parthed herio unrhyw berson ifanc a oedd yn ceisio prynu alcohol a oedd yn edrych o dan 25 oed. Ceisiodd dau wirfoddolwr 19 oed brynu alcohol ac fe'u heriwyd ymhob lleoliad a gofynnwyd iddynt ddangos prawf adnabod. Pan ddwedon nhw nad oedd prawf ganddynt, gwrthodwyd gwerthu iddynt ar bob achlysur. Ar ben hynny ymwelwyd â 10 safle parthed cyllyll, 3 o ran gwelyau haul ac unwaith eto ni wnaed unrhyw werthiant. Gwnaed 21 ymweliad i brynu E-sigarennau ac fe werthodd saith safle i'r gwirfoddolwr. Derbyniodd bob un o'r lleoliadau hyn gyngor cynhwysfawr yn dilyn yr ymarferiad ac ail-ymwelwyd â phob un a fethodd gyda dau yn methu yr eildro. Mae'r lleoliadau hyn bellach yn destun ymchwiliad a byddwn yn ystyried cymryd camau ffurfiol.

Diogelir pobl hŷn ac agored i niwed rhag masnachwyr diegwyddor a sgamwyr

Troseddau a sgamiau ar garreg y drws – Mae'r GRHR yn ymateb i droseddau a sgamiau ar garreg y drws bob dydd, gan gefnogi'r dioddefwyr a'r teulu lle bo'n bosib. Yn aml mae unigolion yn hen ac agored i niwed a gall fod yn anodd dangos yr effaith y mae'r gwasanaeth hwn yn ei gael yn cefnogi'r unigolion yma, ond mae'r canlynol yn rhoi rhyw arwydd o effaith ein hymyriadau.

"Diolch o galon am helpu heddiw. Dwi erioed wedi ei gweld hi mor bryderus yn yr holl flynyddoedd dwi wedi ei hadnabod hi ac felly rwy'n gobeithio y bydd hi'n ymlacio rhywfaint nawr". "...Diolch yn fawr i chi am eich help; mae wedi bod yn gymaint o gymorth". Derbyniwyd gan gynghorydd ward mewn perthynas â phreswlydd sydd wedi dioddef dau sgam ac a dderbyniodd gyngor a chefnogaeth ac y gosododd swyddogion GRHR atalydd galwadau iddo.

Diogelu/Sgamiau – Cynhaliwyd cyfres o Sioeau Teithiol Diogelu ar draws rhanbarth y GRHR. Digwyddodd y cyntaf o'r rhain ym mis Medi pan gymerodd swyddogion ran yn Niwrnod Gwasanaethau Brys Llanilltud Fawr. Llwyddodd grwpiau preswyl i gwrdd ag amrywiol bartneriaid yn eu tro a olygai fod amser i ganolbwyntio mewn cryn fanylder ar ein neges codi ymwybyddiaeth yn ymwneud â throseddau ar garreg y drws a sgamiau marchnata ar raddfa eang. Fe welodd dull gwahanol y tîm yn defnyddio bws Vibe y sefydliad ieuentid sydd ar Kings Square yn y Barri ym mis Hydref. Profodd hyn yn fodd gwych o dynnu sylw'r rhai a oedd yn pasio gyda negeseuon ymwybyddiaeth sgamiau yn chwarae y tu mewn a thu allan i'r cerbyd. Siaradodd y tîm a thros 150 o bobl yn ystod y dydd gan roi sticeri dim galwadau digroeso, cardiau prif negeseuon a manylion cyswllt ar gyfer cysylltu yn y dyfodol. O ganlyniad i gwrdd

STOP! THINK! SAY NO!
To Scams and Doorstep Callers
Protect yourself and others from financial abuse

STOPIWCH! MEDDYLIWCH! DYWEDWCH NA!
I Sgamiau a Galwyr Stepen y Drws
Diogelwch eich hun ac eraill rhag cam-drin ariannol

1. **If unsure** - don't open the door.
2. **Don't be rushed** - don't make snap decisions. It's unlikely to be the bargain it appears.
3. **If in doubt - talk it out.** Check with a friend or neighbour.
4. **Be suspicious - don't reply.** Bin it, delete it or hang up.

1. Os ydych yn ansicr - peidiwch ag agor y drws.
2. **Peidiwch â chael eich rhythro** - peidiwch â gwneud penderfyniadau brysiog. Mae'n amhebygol y byddi yn fargen gwerth chwell er gwarethaf yn holl addewidion.
3. **Os ydych yn amheus** - trafodwch y mater. Holwch ffrind neu gymydog.
4. **Byddwch yn amheus - peidiwch ag ateb.** Rhowch ef yn y bin, ei ddiellu neu rhowch y ffôn i lawr.

Think twice - ask advice. Call the Citizens Advice Consumer Helpline 03454 04 04 04.
If you ever feel threatened or intimidated call the Police.

Meddyliwch, dibwysu! - gofynnwch ari gyngor. Ffônwch Llinell Ddiwyddwyr Cynghor ar Bopeth 03454 04 04 04.
Os ydych yn teimlo eich bod yn cael eich bygwth neu eich ddechwyn Rhwydych y Heddlu.

Safeguarding Team | Tîm Diogelu
Shared Regulatory Services - Bridgend, Cardiff and the Vale of Glamorgan
Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir - Pen-y-boent ar Cwpc, Caerdydd a Bro Morgannwg

yn uniongyrchol â phreswylwyr ar y diwrnod, gwnaeth Swyddogion atgyfeiriad person agored i niwed i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a nodi naw o breswylwyr a fyddai'n cael budd o dderbyn ataliwr galwadau. Ar ben hynny, cofrestrodd dau breswilydd arall gyda'r Gwasanaeth Ffôn Mynegi Dewis fel dull o leihau effaith galwadau niwsans. Digwyddodd digwyddiad llwyddiannus arall fis Rhagfyr yng nghanol tref Porthcawl gan ddefnyddio bus sefydliad Vibe unwaith yn rhagor. Siaradodd y tîm â 107 o bobl yng nghwrs y dydd gan roi cyngor ar atal trosedd a sut i osgoi sgamiau. Rhoddwyd sticeri 'dim galwadau digroeso' i ymwelwyr, ynghyd â chardiau diogelu a manylion cyswllt i'w defnyddio'n y dyfodol. Y pwnc mwyaf cyffredin o bell ffordd a drafodwyd yn ystod y dydd oedd galwadau niwsans, gan gynnwys rhai a dderbyniwyd ar ffonau symudol. Cyngorwyd preswylwyr ar ddefnyddio'r Gwasanaeth Ffôn Mynegi Dewis a rhoddwyd cymorth i nifer o gwsmeriaid presennol BT i ddefnyddio gwasanaeth diogelu galwadau am ddim BT sy'n cynnwys cyfleuster atal galwad. Yn ogystal â'r preswylwyr yn ymweld â'r digwyddiad ei hun, cymerwyd y cyfle i siarad â chlwb cinio Eglwys y Drindod, lle cyngorwyd pymtheg o breswylwyr eraill am sgamiau a throseddau ar garreg y drws.

Gall **Atalyddion Galwadau** roi terfyn ar alwadau niwsans neu faleisus. Gellir eu gosod yng nghartrefi preswylwyr sy'n cael eu targedu'n barhaus gan sgamiau ac unwaith iddynt gael eu gosod, maent yn atal pob galwad rhag dod trwodd ac eithrio'r rheiny gan ffrindiau neu aelodau'r teulu. Mewn un achos yn 2017, roedd preswilydd 91 oed yn derbyn galwadau gan gwmnïau yn cynnig gwasanaethau atal galwadau. Gyrrodd y cwmni cyntaf ohebiaeth yn ymwneud ag adnewyddu tanysgrifiad am ddyfais na dderbyniodd y gŵr erioed mohono, ac roeddent yn codi £85 y flwyddyn am y gwasanaeth ac i ddiweddarau'r ddyfais. Gwerthodd ail gwmni atalydd galwadau nad oedd yn gweithio i'r cwsmer. Yn ddiweddar mae'r GRhR wedi gosod atalydd galwadau go iawn i atal y galwadau sgam hyn rhag cyrraedd y preswilydd yn y dyfodol, a thrwy hynny adfer ei hyder i allu byw yn annibynnol. Gosododd y GRhR 24 atalydd galwadau y llynedd yng nghartrefi preswylwyr gan helpu i leihau galwadau niwsans a sgamiau.

Derbyniodd masnachwr diegwyddor o'r Barri ddedfryd o garchar – Cafodd masnachwr diegwyddor ei erlyn yn llwyddiannus yn dilyn ymchwiliad gan Swyddogion y GRhR am gyfres o droseddau safonau masnach. Ddedfrydwyd y diffinydd o'r Barri i 22 mis yn y carchar ar ôl pledio yn euog i 15 cyfrif o dan Reoliadau Diogelu'r Defnyddiwr rhag Masnachu Annheg 2008. Roedden nhw'n ymwneud â throseddau a gyflawnwyd yn erbyn 8 parti ym Mro Morgannwg gan gynnwys camarwain pobl i roi arian iddo am ddeunyddiau na brynodd, methu â rhoi hawliau canslo i gwsmeriaid a hyd yn oed ddechrau gwaith heb ganiatâd. Cafodd gwaith ei is-gontractio i eraill a gyflawnodd waith ansafonol a gadawyd un eiddo mewn cyflwr peryglus oherwydd y gwaith gwael. Gyrrwyd negeseuon testun ymosodol i gwsmeriaid, gyda'r Barnwr yn disgrifio rhai ohonynt fel rhai bygythiol ac yn agos i flacmel. Ar ben hynny roedd y bobl a gyflogwyd ganddo mor ddi-glem fel y bu'n rhaid i un fenthyg brwsh paent a morthwyl gan y cwsmer. Gorchynnwyd y diffinydd i dalu tua £2000 fel iawndal dioddefwr a £2000 mewn costau i'r erlyniad. Gosodwyd gordal dioddefwr o £140 arno hefyd a'i wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni am 5 mlynedd.


Erlyn Masnachwr Diegwyddor – Plediodd masnachwr diegwyddor yn euog i 3 trosedd a'i garcharu am 4 mis o dan Reoliadau Diogelu'r Defnyddiwr rhag Masnachu Annheg 2008 parthed addasu'r atig a wnaed i gartref achwynydd o Gaerdydd lle roedd y gwaith yn beryglus i law'r safon ac heb ei gwblhau gyda diwydrwydd proffesiynol. Gwnaed hawliad am iawndal i'r achwynydd yn yr achos a oedd wedi gwario dros £27,000 i gywiro'r gwaith ac er mwyn sicrhau fod popeth yn cydymffurfio â rheoliadau rheoli adeiladu. Wrth ddeddfu, dwedodd y barnwr fod y diffinydd wedi methu cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu o'r dechrau'n deg. Pan gafwyd dŵr yn gollwng y tu mewn a thu allan i'r eiddo ni wnaeth unrhyw ymdrech i gywiro'r broblem. Yn syml roedd wedi ceisio oedi. Nid oedd y gwaith wedi ei awdurdodi o'r dechrau'n deg ac ar ôl bod yn adeiladwr ers cymaint o flynyddoedd fe ddylai wybod yn well. Dangosodd archwiliadau o'r eiddo fod y gwaith yn 'gwbl ansafonol' a bod 'trawstiau cynnal pwysau yn hynod annigonol'. Ym mis Ebrill 2018 cymeradwywyd

cais enillion troseddau o £20,241.01 sef arian a oedd wedi ei neilltuo yng nghyfrif banc a phensiwn y masnachwr.

Nid yw pobl fregus mewn perygl o ecsbloetiaeth, caethwasiaeth neu fasnachu pobl

Codi ymwybyddiaeth – Yn y 12 mis diwethaf, heriwyd swyddogion y GRhR i fynd i'r afael â cham-fanteisio ar bobl sy'n agored i niwed o ran caethwasiaeth a masnachu pobl. Mae cyfarfodydd gydag aelodau etholedig a'r asiantaethau gorfodi sydd â rhan uniongyrchol yn hyn yn dangos fod ymwneud y GRhR â busnesau masnachol a chyfleusterau tai sector preifat â rhan allweddol i'w chwarae yn nodi dioddefwyr a'u cyfeirio at help a chymorth. Mae'r GRhR wedi sefydlu pwynt cyswllt unigol ar gyfer y materion hyn ac yn cefnogi Cyngor Caerdydd gyda'i raglen codi ymwybyddiaeth.

Cam-fanteisio ar blant – Er mwyn cryfhau gwelliannau diogelu, yn enwedig yn ymwneud â phlant, mae Tîm Trwyddedu Caerdydd ar y cyd â'r Adran Gwasanaethau Plant, Heddlu De Cymru, Teuluoedd yn Gyntaf a Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu llyfryn sydd wedi ei anelu at yrwyr Cerbydau Hacni / Gyrwyr Llogi Preifat i'w hysbysu ynghylch cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a'r hyn y gallant ei wneud i gadw plant yn ddiogel. Mae'r llyfryn hwn bellach yn cael ei ddsbarthu i bob gyrrwr newydd a rhai sy'n adnewyddu eu cais, a'i nod yw ymgorffori cwestiynau yn ymwneud â chynnwys y llyfryn yn y prawf gwybodaeth ysgrifenedig yn ystod y flwyddyn i ddod.



Atal gweithgareddau benthyg arian anghyfreithlon

Uned Benthycyca Arian Anghyfreithlon Cymru – Mae'n anodd pwysu a mesur y niwed personol a chymdeithasol sy'n codi o dorcyfraith yn ymwneud â benthyg arian. Yn 2017/18, rhoddwyd cymorth dwys i 148 o ddiodefwyr ledled Cymru – rhyngddynt diddymwyd dyled o £485,000 a oedd ganddynt ac maent yn parhau i dderbyn cefnogaeth i'w galluogi i ail-sefydlu eu hunain o ran cyllidebu confensiynol a gallu ariannol 'arferol'. Dro ar ôl tro fe welwn fuddion sylweddol iawn i iechyd meddyliol a chorfforol pan godir baich dinistriol y siarcod benthyg oddi ar eu bywyd bob dydd, yn aml yn darparu'r catalydd ar gyfer ystod eang o welliannau i ansawdd bywyd.

Addysg a Hyfforddiant Benthycyca Arian Anghyfreithlon – Mae Tîm Benthycyca Arian Anghyfreithlon Cymru (TBAAC) yn fach a gyda chyfrifoldebau dros Gymru gyfan mae'n ddibynnol ar asiantaethau cyhoeddus eraill, darparwyr tai a sefydliadau trydydd sector i fod yn llygaid a chlustiau iddo. Dyma'r bobl 'rheng flaen' a fydd yn dod ar draws diodefwyr siarcod benthyg trwy eu gweithgareddau dyddiol gan roi'r haen gyfoethocaf o gudd-wybodaeth sydd ar gael. I wneud y gorau o hyn ac annog adrodd, mae TBAAC yn rhagweithiol yn ceisio cyfleoedd i gyflwyno eu gwaith i'r sefydliadau hyn. Yn 2017/18 addysgwyd a hyfforddwyd cyfanswm o 1,360 o unigolion.

Mentrau DET (Deddf Enillion Troseddau) Seiliedig ar y Gymuned – Ym mis Mawrth 2017, rhoddwyd cyfanswm o £48,000 i ddeg menter gymunedol o dan y Gwobrau Atal Siarcod Benthycyca cyntaf ar gyfer Cymru. Gwnaed yr arian ar gael o arian a gymerwyd gan siarcod benthyg dan y Ddeddf Enillion Troseddau sydd â'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r problemau a gaiff eu creu gan siarcod benthyg yn ein cymunedau, a sut y gall y rhai a effeithir a'r cyhoedd yn ehangach adrodd eu pryderon. Yn ystod y flwyddyn, lluniwyd a



chynhaliwyd y mentrau llwyddiannus, gan gynnwys diwrnodau hwyl a digwyddiadau eraill er mwyn dwyn sylw at y broblem benthyg arian yn anghyfreithlon; cyhoeddi cylchlythron a deunyddiau eraill wedi eu hanelu at grwpiau targed, a chynhyrchu ffilm Gymraeg ei hiaith. Fodd bynnag, roedd un fenter a ariannwyd gan Enillion Troseddau wir wedi cipio'r dychymyg ac yn addo bod yn gymynrodd arhosol. Roedd hwn yn broject RhYGD (Rhieni yn Ymgysylltu i Godi Dyheadau) a gafodd ei gynnal mewn cymuned yn Ne Cymru. Gweithiodd rhieni a phlant ysgwydd wrth ysgwydd ag adroddwr straeon proffesiynol, arlunydd a dylunydd i ddatblygu llyfr lluniau i blant ar thema benthyg arian yn anghyfreithlon. Gyda chymorth gan staff TBAAC, datblygwyd y thema a'r llinyn storïol ac fe gynhyrchwyd y llyfr straeon. Y canlyniad yw stori anhygoel Dafydd a Delyth Hwyaeden sy'n cael y gorau ar y benthygiwr arian drwg, Alun yr Alarch, sydd wedi ei adrodd a'i ddarlunio'n hyfryd yn 'Llund Dwrn o Blu'.

Carcharu siarc benthyg bygythiol – Cafodd siarc benthyg bygythiol o Gaerffili a oedd yn derbyn budd-daliadau llawn gan y wladwriaeth ei garcharu am dair blynedd a hanner yn dilyn ymchwiliad gan Swyddogion o Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru. Plediodd y diffinydd yn euog i fenthyg arian yn anghyfreithlon, o fod ag eiddo wedi ei ddwyn yn ei feddiant, o werthu tybaco ffug, gwyngalchu arian ac o wyrddroi cwrs cyfiawnder. Cafodd 116 o ddiodefwyr eu nodi yn yr achos hwn, wedi i TBAAC arwain cyrch ar gartref y diffinydd lle cipwyd swm sylweddol o waith papur, £20,000 mewn arian parod, dwy oriawr Rolex go iawn, gemwaith aur a dau ffôn symudol. Datgelodd yr ymchwiliad dros gyfnod o dair blynedd fod £250,000 wedi ei fenthyg gan ennill £61,839 mewn llog i'r diffynnydd. O ystyried y bu'n gweithredu fel siarc benthyg am 20 mlynedd, roedd y swm y byddai wedi ei ennill o'i droseddau wedi bod yn sylweddol. Clywodd y llys hefyd fod taliadau arian o £109,000 wedi eu gwyngalchu trwy amrywiol gyfrifon ers 2011, ond erys cyfanswm yr arian a enillodd trwy gyfrwng ei droseddau yn ddirgelwch. Portreadodd y benthygiwr ei hun fel diodefwr amgylchiadau ariannol a chorfforol; bu'n ddi-waith oddi ar 1990, yn derbyn budd-dal treth gyngor llawn, budd-daliadau tai, £58 yr wythnos o'r cynllun symudedd ar gyfer ei gar, y cymorth lwfans cyflogaeth uchaf posib ac roedd mewn gwirionedd yn gwneud symiau sylweddol o arian fel siarc benthyg arian. Yn dilyn dedfrydu, cynhaliwyd gwrandawriad Enillion Troseddau a ddaeth i'r casgliad mai swm y budd a gytunwyd oedd £312,204.09 a'r swm a oedd ar gael oedd £38,492.03. O ganlyniad, gwnaed Gorchymyn Atafaelu o £38,492.03 a rhoddwyd 3 mis iddo dalu gyda chyfnod o garchar diofyn o 14 diwrnod. Gwnaed gorchymynion iawndal ar gyfer pymtheg o ddiodefwyr, hyd at gyfanswm o £12,310.

Darpariaeth tasci yn ddiogel ac yn deg

Ymgyrchoedd Tasci – Wedi eu hanelu at leihau nifer y gyrwyr tasci sy'n gwrthod teithiau byrion yn y Ddinas a hysbysu'r cyhoedd o'r gwahaniaethau rhwng Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat, cyhoeddodd Trwyddedu yng Nghaerdydd nifer o ddatganiadau i'r wasg ac ymgymryd â nifer o weithgareddau codi ymwybyddiaeth i hysbysu'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthu taflenni a chardiau gwybodaeth i'r cyhoedd yn ystod digwyddiadau cyhoeddus mawr ac i sefydliadau fel y Fforwm Trwyddedu, Bugeiliaid Stryd a Swyddogion Tasci a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cardiau gwybodaeth yn cynnwys cyngor ar sut i gwyno a'r wybodaeth sydd ei hangen.

Mynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol – Yn y flwyddyn ddiwethaf derbyniodd y GRhR nifer o gwynion yn honni ymddygiad amhriodol ar ran gyrwyr tasci. Tra bo'r rhan fwyaf o yrwyr tasci yn unigolion parchus a bod y teithiau a gynigant yn mynd rhagddynt heb broblem, mae yna achlysuron lle mae'r GRhR yn gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn y cyhoedd, yn enwedig gyda rhai sy'n agored i niwed. Y llynedd diddymwyd trwyddedau wyth gyrrwr yn syth am ymddygiad amhriodol at berson agored i niwed. Ar ben hynny, gosododd Pwyllgorau'r Cynghorau partner sancsiynau mewn deg achos pellach am faterion megis gwrthod derbyn cadeiriau olwyn, digwyddiadau gyda merched ar eu pennau eu hunain ac un achos o adael teithiwr ar yr M4.

Materion sy'n dod i'r amlwg

Poblogaeth sy'n heneiddio – Ar lefel genedlaethol, rydym yn byw mewn poblogaeth sy'n heneiddio gyda chyfraddau uwch o unigedd a namau gwybyddol megis demensia. Mae bron i hanner y bobl dros 75 yn byw ar eu pennau eu hunain. Ar ben hynny, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015 yn rhoi dyletswydd gofal i amddiffyn person sydd mewn perygl o gael ei gam-drin yn ariannol; gyda gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yn greiddiol iddi.

Mae hyn yn rhoi straen pellach ar adnoddau sydd eisoes yn brin wrth i'r niferoedd posib o ddiodefwyr sgambiau a throseddau carreg y drws gynyddu a'r disgwyliad am ymyraethau llwyddiannus godi hefyd. Mae gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn hanfodol i atal trosedd, ond yn anochel mae'n cynyddu'r galw am y gwasanaeth.

Newid yn y tirwedd cymdeithasol ac economaidd – wrth i dechnoleg ddatblygu a galluogi pobl sy'n agored i niwed i gael mwy o gapasiti i ryngweithio'n gymdeithasol, mae'r potensial i unigolion diegwyddor dwyllo a niweidio defnyddwyr yn ehangu. Dim ond oddeutu 10% o droseddau sy'n droseddau 'stryd' traddodiadol gyda mwy o symudiad i droseddau ar-lein, y tu ôl i ddrysau caeedig megis troseddau ar y we. Mae felly yn dod yn fwyfwy pwysig i nodi diodefwyr "anweledig" (y rheiny sy'n destun troseddau yn eu cartrefi eu hunain) a dod â chyfiawnder i fasnachwyr "anweledig" megis y rheiny sy'n gweithredu dros y we neu dramor. Yn lleol, mae yna her i atal targedu ailadroddus ar yr henoed neu ddefnyddwyr sy'n agored i niwed, a bydd angen gweithio mewn partneriaeth ragweithiol gydag asiantaethau megis Heddlu De Cymru. Mae eu Cynllun Atal a Lleihau Trosedd yn cydnabod pwysigrwydd ymyriadau cynnar a gweithredu buan a chadarnhaol drwy weithio mewn partneriaeth â chyrrff sector cyhoeddus eraill er mwyn amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Benthyg Arian yn Anghyfreithlon – Mae siarcod benthyg yn fenthycwyr arian anghyfreithlon sydd yn aml yn targedu pobl ar incwm isel, sydd yn anobeithio ac sy'n agored i niwed. Nid yw'r hinsawdd economaidd bresennol, ynghyd â'r problemau sy'n gysylltiedig â chyflwyno budd-dal Credyd Cynhwysol (CC) a'r cyfnod aros o chwe wythnos i ymgeiswyr dderbyn eu taliad CC cyntaf ond yn mynd i ddwysáu'r problemau sy'n wynebu teuluoedd â biliau i'w talu. Yn y tymor hwy, mae'r corff Resolution Foundation wedi awgrymu y bydd dros 2.5 miliwn o aelwydydd incwm isel dros £1000 yn waeth eu byd pan fyddant yn symud o fudd-daliadau unigol i Gredyd Cynhwysol. O ganlyniad mae pryderon y bydd benthyg arian yn anghyfreithlon ar gynydd yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Darperir cyllid grant ar gyfer yr Uned bellach gan Drysorlys EM, ac mae'n deillio o ardoll ar sector ariannol y DU ac yn cael ei gasglu gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae achos diweddar i Drysorlys EM wedi arwain at rywfaint o arian pellach i Uned Cymru a fydd yn galluogi dadansoddwr gwybodaeth i gael ei wreiddio yn y tîm. Bydd yr ychwanegiad hwn i'r tîm yn gwella dulliau'r Uned o ran ymchwiliadau, a arweinir gan wybodaeth. Yn allweddol i atal hyn mae gwaith Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru sy'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o broblemau benthyca arian anghyfreithlon ymhlith partneriaid ac annog peidio â'u defnyddio gan gymryd camau yn erbyn benthycwyr anghyfreithlon tra'n cefnogi diodefwyr a deall eu hanghenion a chreu hinsawdd lle gall diodefwyr ddod ymlaen heb ofni dial.

Mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern – Mae caethwasiaeth fodern yn derm ymbarél, sy'n cwmpasu masnachu pobl, caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol. Gall unrhyw un ddod yn ddiodefwyr caethwasiaeth fodern a gall Cynghorau chwarae rhan allweddol yn mynd i'r afael â'r broblem. Mae caethwasiaeth fodern yn rhyngdorri â sawl maes gwahanol y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw gan gynnwys y rheiny a ddarperir gan y GRhR, yn benodol Safonau Masnach, Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd a Thai Sector Preifat. Roedd un achos TBAAC diweddar yn ymwneud â siarc benthyg a oedd wedi cymryd cardiau swyddfa'r post teulu a chodi eu buddion

ariannol nhw. Byddai wedyn yn mynd â nhw i siopa, penderfynu ar yr hyn yr oedd hawl ganddynt ei gael a chadw'r gweddill iddo ef ei hun. Roedd y rheolaeth yn ymestyn hyd yn oed at gam-drin rhywiol rheolaidd yn erbyn merch ifanc a ddiodeffai o broblemau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu. Dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysu'r Swyddfa Gartref pan fyddant yn dod ar draws dioddefwr posib o gaethwasiaeth fodern felly mae'n bwysig fod cyflogion yn ymwybodol o'r arwyddion er mwyn adnabod dioddefwyr posib a sut y gellir atgyfeirio'r rhain. Bydd hyn yn destun rhaglen i hyfforddi swyddogion yn 2018.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth Tacsis – Rhwng mis Mehefin a Medi 2017 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth yn rheoli cerbydau tacsï a llogi preifat, sydd i ddod yn fater wedi ei ddatganoli yn dilyn darpariaethau Deddf Cymru 2017. Cydnabyddir yn eang fod y ddeddfwriaeth bresennol yn hynafol ac y bydd deddfwriaeth sylfaenol newydd yn cynnig cyfle delfrydol i roi system ar waith sydd yn adlewyrchu trefn drafndiaeth sydd yn newid. Mae'r cyhoedd yn aml yn anymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat ac anaml y mae'n gwneud gwahaniaeth iddynt os ydynt yn archebu dros y ffôn, app ffôn clyfar neu'n codi llaw ar gerbyd o fin y ffordd. Mae cynigion yr ymgynghoriad wedi eu seilio yn rhannol ar adroddiad blaenorol gan Gomisiwn y Gyfraith a wnaeth 84 o argymhellion. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- cyflwyno safonau cenedlaethol i bob cerbyd tacsï a llogi preifat a osodwyd gan Weinidogion Cymru.
- bod awdurdodau trwyddedu lleol yn gallu gosod amodau trwydded ychwanegol lle y bo'n briodol ac yn parhau yn gyfrifol dos roi trwyddedau a gorfodaeth.
- darparwyr yn gallu gweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol yn haws, gyda swyddogion trwyddedu yn cael grymoedd gorfodi newydd i fynd i'r afael â cherbydau a gyrwyr wedi eu trwyddedu mewn gwahanol ardaloedd.
- awdurdodau trwyddedu lleol yn cadw'r hawl i gyfyngu ar niferoedd y tacsï sy'n gweithio yn eu hardal drwyddedu.
- trefniadau gwell ar gyfer rheoleiddio prisiau.

Darparodd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) ymateb cynhwysfawr i'r ymgynghoriad ac maent yn parhau i gydgyssylltu â Swyddogion Llywodraeth Cymru, sydd yn bwriadu cynnig diweddariad yng Ngwanwyn 2018. Bydd hyn yn bwydo i'r argymhellion ar gyfer diwygio a dwyn polisïau Tacsï Pen-y-bont, Caerdydd a'r Fro ynghyd.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Diogelu'r rhai agored i niwed	Prif Gyfrifoldeb
Diogelir plant rhag sylweddau a nwyddau niweidiol	
Ymgymryd ag ymarferiad gwerthiant dan oed parthed Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 sydd newydd ei chyflwyno a threfniadau yn ymwneud â thyllu rhannau personol o'r corff, gan gymryd camau priodol yn erbyn yr ymarferwyr hynny sydd yn troseddu.	C Hill
Ymgymryd ag ymarferiad gwerthiant dan oed parthed gwerthiant cyflenwadau alcohol ar-lein i bobl o dan 18 oed.	C Hill

Diogelir pobl hŷn ac agored i niwed rhag masnachwyr diegwyddor a sgamwyr

Gwella mynediad at wybodaeth ddiogelu ar wefan y GRhR drwy adolygu a gwella'r wybodaeth ar y tudalennau gwe.	H Picton
Codi ymwybyddiaeth o sgamiau, troseddau carreg drws a phroblemau diogelu eraill drwy ddatblygu taflenni ac arweiniad a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.	H Picton
Adeiladu perthnasoedd â ffederasiynau megis Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr i osod yr arferion masnachu presennol ar draws y rhanbarth a bwydo'r blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer ymyrryd gan gynnwys cudd-wybodaeth, addysg a gweithgareddau gorfodi.	H Picton

Atal gweithgareddau benthyg arian anghyfreithlon

Ailadrodd yr ymarfer projectau cymunedol a ariannwyd gan Enillion Troseddu sy'n gwahodd ymgeiswyr ledled Cymru i gynnig am gyllid er mwyn mynd â phrojectau yn eu blaenau a mentrau sy'n gysylltiedig ag atal a chynyddu ymwybyddiaeth o weithgaredd benthyg arian yn anghyfreithlon.	H Picton
Defnyddio arian DET i greu fersiwn ddwyieithog o lyfr stori plant 'Llond Dwrn o Blu', gan sicrhau fod copi ar gael i bob ysgol gynradd a meithrinfa yng Nghymru. Drwy ddefnyddio'r llyfr stori i addysgu plant ifanc am fenthyg arian yn anghyfreithlon, bydd trafodaethau yn y cartref yn arwain at drosglwyddo neges rymus gan fod yn ddrych i lwyddiant yr ymgyrch 'atal smygu' a dargedwyd yn yr un modd.	H Picton
Codi proffil Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru trwy ymgysylltiad â'r cyfryngau, gan gynnwys cyfranogiad mewn rhaglen ddogfen radio am waith yr Uned, gyda golwg i gynyddu nifer y cwynion a dderbynnir am siarcod benthyg arian.	H Picton

Nid yw pobl fregus mewn perygl o ecsbloetiaeth, caethwasiaeth neu fasnachu pobl

Mynd i'r afael â rhaglen o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant gyda'r gymuned dacsis a rhanddeiliaid eraill.	W Lane
Ymgymryd â rhaglen o hyfforddiant i Swyddogion GRhR i gydnabod camfanteisio, caethwasiaeth neu fasnachu pobl yng nghwrs eu dyletswyddau.	W Lane

Darpariaeth tacsî yn ddiogel ac yn deg


Adolygu'r prawf gwybodaeth Gyrwyr Cerbydau Hacni / Llogi Preifat i gynnwys cwestiynau yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn unol â'r llyfryn CRhB a gynhyrchwyd yn 2017.	W Lane
Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth tacsî newydd arfaethedig i reoli trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat.	W Lane

Yr hyn fyddwn yn ei fesur yn ystod 2018/19


Mesurau Perfformiad 2018/19	Targed
<ul style="list-style-type: none"> % y sgamiau/achosion o droseddu ar garreg y drws yn cael eu hatal/datrys 	Sefydlu

drwy ymyrraeth.	gwaelodlin
<ul style="list-style-type: none"> % y deiliaid trwydded yn derbyn camau disgyblu ar ôl adroddiadau o bryderon ynglŷn â diogelu. 	Ddim yn berthnasol
<ul style="list-style-type: none"> Nifer y bobl gafodd eu haddysgu neu a dderbyniodd hyfforddiant am sgamiau a throseddu ar garreg y drws. 	500

Gwarchod yr amgylchedd



Yn ychwanegol, mae'n canlyniadau hefyd yn cyfrannu at yr amcanion llesiant canlynol:-




6.3 Gwarchod yr amgylchedd


Cyflwyniad

Mae gwarchod yr amgylchedd yn flaenoriaeth strategol graidd i GRhR. Mae nifer o'r gweithgareddau a restrir isod fel profi dŵr, monitro ansawdd yr aer, ac ail-gyflwyno tir oedd wedi'i lygru, i gyd yn cyfrannu at hybu amgylchedd gwell, sydd yn ei dro yn golygu rhagolygon gwell o ran iechyd a lles i'n cymunedau yn y tymor hir. Fodd bynnag mae'r gwaith i ddiogelu'r amgylchedd yn mynd ymhellach na hynny. Rydyn ni'n sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogelach ac nad oes unrhyw un yn achosi niwsans, drwy ymchwilio i gwynion am sŵn, a delio â chŵn a cheffylau strae. Mae gennym rôl allweddol i'w chwarae yn yr agendâu newid hinsawdd a chenedlaethau'r dyfodol, drwy sicrhau bod nwyddau ac eiddo yn cydymffurfio â rheolau effeithlonrwydd ynni. Nid yw effaith y gweithgareddau hyn yn amlwg i gymunedau yn y tymor byr, ond mae ganddynt ran bwysig i'w chwarae ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.


Ein Perfformiad




% y cwynion am larymau yr ymatebir iddynt o fewn diwrnod.



% y cŵn strae a ddychwelwyd i'w perchennog, neu y'u hail-gartrefwyd





Beth rydym wedi'i gyflawni

Caiff yr amgylchedd ei amddiffyn rhag allyriadau niweidiol i'r tir, yr awyr a'r dŵr

Ansawdd yr Awyr – sicrhaodd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS) fod Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg yn bodloni eu rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd trwy lunio adroddiadau ar ansawdd yr awyr ac adrodd i'r Pwyllgorau/Cabinetau yn eu trefn. Gallai methu â llunio'r fath adroddiadau fod wedi arwain at gyflwyno cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru o dan Adran 85(3) Deddf yr Amgylchedd 1995.

Cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) gynllun ansawdd awyr y DU er mwyn mynd i'r afael â chrynodiad nitrogen deuocsid (NO₂) ar ymyl y ffyrdd ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r ddogfen yn adnabod Caerdydd fel ardal broblematig yn nhermau ansawdd yr awyr. Mae monitro ansawdd yr awyr yr ymgymerwyd ag ef gan Gyngor Caerdydd a rhagamcaniadau wedi'u modelu gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn dangos y bydd Caerdydd yn parhau i ragori ar Werthoedd Terfyn Cyfarwyddyd Ansawdd Awyr yr UE a'r DU o ran NO₂ y tu hwnt i 2020. Roedd Swyddogion SRS yn rhan o ddrafftio'r Strategaeth Awyr Glân ar gyfer Caerdydd. Mae'r ddogfen hon yn bwysig ac mae'n rhestru nifer o fesurau strategol a fydd â'r nod o wella ansawdd yr awyr ar draws Caerdydd yn ei chyfanrwydd, er mwyn amddiffyn a gwella iechyd cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'n aros i gael ei gymeradwyo gan Gabinet Caerdydd.

Cyflenwadau Dŵr Preifat – cwblhaodd SRS asesu a samplo'r holl gyflenwadau dŵr preifat statudol ar draws y rhanbarth a gan sicrhau y cyflenwyd dychweliadau statudol i'r Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed yn ôl y gofyn.

Daeth y Rheoliadau CDP i rym ym mis Tachwedd 2017, a gyflwynodd fath newydd o gyflenwad. Bu Swyddogion o SRS yn gwneud ymholiadau gyda'n cyflenwadau hysbys er mwyn sicrhau a yw unrhyw rai o'r cyflenwadau yn dod o dan y rheoliad newydd.

Caiff anifeiliaid eu trin yn hynaws

Gwobrau RSPCA – cydnabuwyd SRS mewn tri chategori ar wahân yn Seremoni Gwobrwyo RSPCA Cymru. Yn y categori cyntaf, derbyniodd SRS wobwr Olion Traed Lles Gweithredoedd Cymunedol (CAWF) efydd ar gyfer Gwasanaethau Trwyddedu mewn perthynas ag Anifeiliaid ac yn yr ail gategori derbyniodd SRS wobwr CAWF arian ar gyfer ein Darpariaeth i Gŵn Strae. Er bod y ddwy wobwr hon yn gyflawniadau ynddynt eu hunain, roedd yn anrhydedd i SRS fod yn enillydd llwyr Wobr Arloeswyr RSPCA 2017 ar gyfer ei waith i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol ar gŵn a cheffylau o fewn y Gymuned Teithwyr o Sipsiwn. Wrth ennill y Wobr i Arloeswyr, trechodd SRS gystadleuwyr anodd o ystod o gyflwyniadau ledled y wlad. Gan gyhoeddi'r Wobr i Arloeswyr, dywedodd yr RSPCA: *“Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn haeddu clod mawr am eu hymagwedd ddychmygus ac effeithiol at wella safonau lles anifeiliaid yn Rover Way a Shirenewton. Trwy waith rhagweithiol, maent wedi arwain y ffordd wrth ddarparu addysg allweddol ar roi microsglodion ar gŵn, bridio cŵn bach a phob agwedd arall ar les cŵn. Hefyd mae gwaith SRS wedi dechrau cefnogi gwelliannau hanfodol i les ceffylau – gan leihau digwyddiadau o roi ar dennyn, gor-fridio ac adnabod risgiau posibl i les. Mae'r RSPCA yn falch o gydnabod SRS gyda chynllun Arloeswyr Arbennig. Caiff enillwyr gwobrau eu dewis gan banel o feirniaid annibynnol – a chrëwyd argraff fawr arnynt gan ymdrechion cyfunol Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg.”* Roedd nifer o staff lechyd Anifeiliaid a Wardeiniaid Anifeiliaid yn falch iawn o fod yng nghwmni Cadeirydd Cyd-bwyllgor SRS wrth dderbyn y gwobrau ym Mae Caerdydd gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.



Bridio Cŵn – bu'r gwasanaeth yn rhan o nifer o ymchwiliadau lleol i fridio cŵn yn anghyfreithlon. Yn aml gall hyn fod yn arfer hynod enillfawr gydag ychydig o ystyriaeth yn unig am les anifeiliaid neu foddhad cwsmeriaid a fydd yn ddiethriad wedi rhoi symiau sylweddol i dalu am gŵn bach. Llwyddodd SRS i erlyn un bridwr a blediodd yn euog o ran 4 digwyddiad o dan Ddeddf Twyll 2006 ac un digwyddiad o dan Rheoliadau Amddiffyn Defnyddwyr Rhag Masnachu Annheg 2008. Yn yr achos penodol hwn, enillodd y bridwr tua £50,000 trwy fasnachu'n anghyfreithlon trwy ei busnes ym Mro Morgannwg yn gwerthu bridiau poblogaeth am brisiau uchel, gan awgrymu bod ganddynt gofnodion brechiadau a meddyginiaeth llawn. Fodd bynnag, datgelodd yr ymchwiliad gan SRS stori wahanol iawn, yr oedd yn aml ddim cofnod o unrhyw weithdrefnau milfeddygol wedi'u gwneud. Roedd rhai cŵn wedi'u caffael o ffynonellau a lleoliadau anhysbys, tra bod rhai eraill wedi cael eu bridio'n amlach nag y caniatwyd o dan delerau'r drwydded. At hynny, nid oedd rhai o'r cŵn a werthwyd o'r bridiau yr hawliwyd iddynt. Dedfrydwyd y troseddwr i 30 wythnos o garchar ar bob un o'r 5 trosedd i gydredeg, a ohiriwyd am 2 flynedd. Mae'n rhaid i'r troseddwr ymgymryd â 200 awr o waith di-dâl a bydd yn destun hwyrgloch 4 mis. Rhoddwyd costau ac iawndal o dros £50,000.

Cytgordio Amodau Trwyddedu Anifeiliaid – datblygodd SRS set sengl o amodau su'n perthyn i bob trefn trwyddedu anifeiliaid ar draws pob un o'r 3 ardal awdurdod lleol. O'r blaen gweithredodd pob ardal setiau gwahanol o amodau. Mae cytgordio'r amodau hyn yn set gyfan yn darparu mwy o effeithlonrwydd i swyddogion sy'n cynnal ymchwiliadau a'r rhai sy'n dosbarthu'r trwyddedau ffisegol

tra hefyd yn darparu mwy o sicrwydd i fusnesau, yn enwedig y rhai sydd â phresenoldeb mewn mwy nag un o ardaloedd awdurdod lleol SRS.

Bydd pobl yn defnyddio adeiladau a chynnyrch sy'n ynni-effeithlon

Mae Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhentu Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 yn gofyn i landlordiaid annomestig (a domestig) preifat i sicrhau bod yr eiddo maent yn eu gosod yng Nghymru a Lloegr yn ennill o leiaf sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) o E cyn rhoi tenantiaeth newydd i denantiaid newydd neu bresennol. Mae'r gyfraith mewn grym o 1 Ebrill 2018 ac ar ddechrau 2018 cynhaliodd swyddogion broject peilot er mwyn asesu'r lefel o gydymffurfio o fewn y sector rhentu domestig. Canolbwyntiodd y project ar rwymedigaethau asiantau gosod i ddarparu EPCs mewn modd amserol; sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn gywir wrth addysgu busnesau am ddiwygiadau i effeithlonrwydd ynni eiddo sydd ar ddod. Hefyd ymgwymerwyd â gwiriadau sy'n canolbwyntio ar arddangos ffioedd sy'n gysylltiedig â'r broses rhenti. Cafodd cyfanswm o naw adeilad eu harchwilio ar draws y rhanbarth a bu lefel uchel o gydymffurfio ar draws pob un o'r tair ardal ynglŷn ag EPCs. Mae dau fusnes yn destun cyngor parhaus ynglŷn â thoriadau Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 oherwydd ni arddangoswyd gwybodaeth ynglŷn â'u ffioedd heb ei harddangos yn gywir.

Mae cymunedau'n cael eu hamddiffyn rhag niwsans ac maent yn fwy diogel

Gwasanaethau Cŵn ar Grwydr - Llwyddodd SRS i sicrhau gwasanaeth cyfleuster cynelu ar gyfer cŵn ar grwydr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a wardiau gorllewin Bro Morgannwg. Llwyddwyd i ddyfarnu contract llawn i Hope Rescue yn dilyn cyfnod dros dro o wasanaeth o Chwarter 4 lle y darparodd Hope wasanaeth argyfwng pan dynnodd y darparwr cynelu blaenorol ei wasanaethau yn ôl. Hefyd darparodd Cartref Cŵn Caerdydd ragor o gefnogaeth ac mae SRS yn parhau i ddefnyddio Cartref Cŵn Caerdydd ar gyfer cŵn ar grwydr yng Nghaerdydd ac erbyn hefyd yn wardiau dwyreiniol y Fro.

Ceffylau ar Grwydr – Mae ein tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi parhau i weithio ar draws yr ardal i leihau'r digwyddiadau o geffylau ar grwydr a materion lles eraill. Wrth weithio gyda'r Gymuned Teithio yng Nghaerdydd mae'r swyddogion wedi gweld nifer y ceffylau a chaiff eu cipio am grwydro yn lleihau, mae hyn wedi gwella diogelwch i'r cyhoedd yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, a hefyd wedi gwella lles y ceffylau.

Mae'r swyddogion wedi gweithio ymhellach Gyda Chymdeithas y Cominwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er mwyn sicrhau y cafodd unrhyw bryderon ynglŷn â cheffylau ar y comin eu hymchwilio ac yr ymgwymerwyd â chamau gweithredol ar y cyd. Bydd SRS yn parhau i weithiwr gyda'r Cominwyr i ddatblygu Cynllun Rheoli Ceffylau cadarn ac addas ar gyfer y Comin.

Project Adfywio Cathays – Llwyddodd SRS i sicrhau cyllid allanol o £50,401.85 a chyllid mewnol o £64,240 ar ffurf arian Adran 106 i gyflwyno Project Adfywio Cathays, menter partneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd, Heddlu De Cymru a phartneriaid ddatblygu nifer o fannau gwyrdd yng Nghatays a gwella'r ardal leol i wella cyfleusterau i breswylwyr. Wedi'i reoli gan Swyddog Cyswllt Myfyrywr Gorfodi Tai Caerdydd, mae gwirfoddolwyr a swyddogion wedi ymgymryd â gwaith ymgynghori cyhoeddus ar drefniadau dylunio ar gyfer tri man gwyrdd wedi'u hesgeuluso yng Nghathays, gyda'r cam cyntaf Ruthin Gardens, a gwblhawyd ym mis Ionawr 2018, a'r ail gam, Llanbleddian, i'w gwblhau erbyn diwedd Ebrill 2018. Bellach mae cyllid ar gyfer y trydydd cam sef yr un terfynol, mae Cogan Street Park yn cael ei geisio o ffynonellau allanol.

Wythnos y Glas – Siaradodd swyddogion Gorfodi Tai Caerdydd a'r Swyddog Cyswllt Myfyrwyr â 2317 o fyfyrwyr wyneb yn wyneb yn ystod Wythnos y Glas 2017 a thua 6221 o breswylwyr yn ystod sesiynau cyngor cymunedol ar ystod eang o faterion tai, amgylcheddol a chymdeithasol yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18. Cafodd y gwaith partneriaeth a wnaed yn ystod wythnos y Glas ei roi ar y rhestr fer ar gyfer Ymgyrch Sector Cyhoeddus y Flwyddyn yn y Gwobrau Ailgylchu Cenedlaethol yn Llundain. Mae'r wefan *Cardiff Digs* a gynhelir gan dîm Gorfodi Tai Caerdydd sy'n darparu cyngor gwerthfawr ar faterion iechyd, diogelwch a lles myfyrwyr yn denu tua 2,000 o wylwyr y mis.

Cartrefi Gwag – Yn dilyn recriwtio Swyddogion Cartrefi Gwag yng Nghaerdydd, bu ymdrech sylweddol gan y tîm SRS er mwyn symud y maes gwaith hwn ymlaen. Gwnaed swp-lythyrau i bob perchennog ar y gofrestr cartrefi gwag yn gofyn am fanylion cynlluniau'r perchnogion i sicrhau bod eu heiddo yn cael eu defnyddio'n fuddiol unwaith eto ac mae'r gwasanaeth yn gwneud cynnydd ar 116 o achosion, y mae llawer ohonynt yn cael eu hadnewyddu neu ar werth neu wedi'u gwerthu, sy'n argoeli'n dda y caiff yr eiddo bellach eu meddiannu. Hefyd cafodd swyddogion drafodaethau archwiliadol gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Cymru Gynnes a datblygwr eiddo pwysig i archwilio'r posibilrwydd am brojectau arloesol i ymdrin â chartrefi gwag.

Dirwy o £22000 i gymdoges swnillyd – Cafodd menyw o Dreganna yng Nghaerdydd yn euog yn ei habsenoldeb o methu cydymffurfio â hysbysiad Lleihau Sŵn ynglŷn â cherddoriaeth uchel ar heb fod yn llai na 10 achlysur yn groes i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Dechreuodd SRS dderbyn cwynion ynglŷn â cherddoriaeth uchel a gweiddi yn y cyfeiriad mor bell yn ôl â 2016 a arweiniodd at hysbysiadau lleihau sŵn yn cael eu cyflwyno. Derbyniwyd rhagor o gwynion a gwelodd y swyddogion y troseddau'n digwydd, yr oedd rhai ohonynt yn perthyn i'r un trac yn cael ei chwarae dro ar ôl tro, yn aml gyda'r ffenestri ar agor led y pen i'r stryd pan y credwyd bod y meddiannwr yn absennol o'r eiddo. Cafodd ddirwy gan yr ynadol yn £220 ar gyfer pob un o'r 10 trosedd, gan roi cyfanswm o £2200 o ddirwy. Hefyd gorchmynnwyd iddi dalu costau o £200 a gordal dioddefwr o £30.

Materion sy'n dod i'r amlwg

Tystysgrifau Perfformiad Ynni – Daeth Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat)(Cymru a Lloegr) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae'r rheoliadau hyn wedi'u dylunio i fynd i'r afael a'r eiddo sydd lleiaf ynni-effeithlon yng Nghymru a Lloegr, y rhai â'r sgôr o F neu G ar eu Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Mae'r Rheoliadau yn gosod safon isaf ar gyfer eiddo rhent preifat domestig ac annomestig, sy'n effeithio ar denantiaethau newydd o 1 Ebrill 2018. Mae eiddo â'r sgôr F a G yn gwastraffu ynni. Maent yn rhoi costau diangen ar denantiaid a'r economi ehangach, ac yn cyfrannu at allyriadau nwy tŷ gwydr y gellid eu hosgoi. Bwriad y Rheoliadau yw sicrhau y gall tenantiaid sy â'r mwyaf o angen cartrefi mwy effeithlon, yn enwedig pobl sy'n agored i niwed, fwynhau amgylchedd byw llawer gwell a biliau ynni is. Fel yr awdurdod gorfodi ar gyfer y rheoliadau hyn, mae gan hyn y posibilrwydd i greu nifer o heriau i'r SRS. O ganlyniad, bydd y gwasanaeth yn dyfeisio strategaeth ar sut i ymdrin orau â'r heriau a roddir gan y gofynion hyn.

Ansawdd yr Awyr – Nid yw'r mater o Ansawdd Awyr byth yn bell o'r penawdau ac mae llawer o ddogfennaeth ar effaith ansawdd awyr gwael ar iechyd. Yn wir, mae llygredd awyr yn parhau fel y risg amgylcheddol fwyaf sy'n gysylltiedig â marwolaethau yn y boblogaeth ac mae bod yn agored iddo yn y tymor hir (dros nifer o flynyddoedd) yn cyfrannu at leihad o ran disgwyliad oes yn bennaf oherwydd mwy o risg o farwolaeth oherwydd achosion cardiofasgwlaidd a resbiradol. Er bod nifer o ffynonellau'n cyfrannu at y broblem o ansawdd awyr gwael, mae effaith cerbydau modur preifat o bryder mawr o ystyried lefelau ocsid nitraidd a gronynnau a allyrrir. Rôl Gwasanaethau Rheoleiddiol a Rennir yw monitro ansawdd yr awyr ar draws y rhanbarth. Caiff y gweithgareddau

hyn eu hadrodd i bob Cyngor trwy eu Cabinetau a Chaerdydd, y Pwyllgor Amddiffyn Cyhoeddus, ond fe'u cynhwysir yma er gwybodaeth.

Ar lefel genedlaethol, mae ar y DU a'r Llywodraethau datganoledig rwymedigaethau cyfreithiol i gyflawni cydymffurfiaeth â gwerth y terfyn cyfartalog blynyddol ar nitrogen ddeuocsid ($40\mu\text{g}/\text{m}^3$) yn yr 'amser byrraf posibl'. Mae hyn yn deillio o gyfarwyddiaeth yr UE a'r bwriad oedd ei gyflawni erbyn 2010; darparodd yr UE estyniadau amser i'r dyddiad hwn ac yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan yr *UK Plan for tackling roadside nitrogen dioxide concentrations* (Gorffennaf 2018). O ganlyniad i her gyfreithiol i'r cynllun hwn gan Client Earth ar ddechrau 2018, dosbarthodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd cyfreithiol i Gyngor Caerdydd i ymgymryd ag astudiaeth dichonolrwydd, er mwyn adnabod opsiwn/opsiynau a fydd yn dod â chydymffurfiaeth â gwerth y terfyn NO_2 yn y cyfnod byrraf posibl. Mae SRS yn darparu cymorth technegol i Gaerdydd wrth ymgymryd â'r astudiaeth a fydd yn asesu'n fanwl nifer o opsiynau a fydd o bosibl yn dod â chydymffurfiaeth o fewn y cyfnod byrraf posibl. Mae'r amserlenni ar gyfer y gwaith hwn yn heriol iawn, ac mae gofyn am Gynllun Cychwynol erbyn **30 Medi 2018**, a Chynllun Terfynol gan **30 Mehefin 2019**.

Ym Mro Morgannwg mae pryderon ynglŷn ag Ansawdd yr Awyr yn canolbwyntio ar allyriadau posibl o'r cyfleuster Barry Biomass. Mae SRS wedi caffael dau fonitor amser real a gafodd eu gosod yn ddiweddar yng nghyffiniau'r cyfleuster. Diben y monitorau hyn yw darparu data monitro amser real i aelodau'r cyhoedd. Cyflawnir hyn drwy ddatblygu tudalen we bwrpasol ar wefan SRS.

Yn nhermau Rheoli Ansawdd Awyr Lleol, caiff gwaith ei symud ymlaen i asesu priodoldeb diddymu Ardal Rheoli Ansawdd yr Awyr (AQMA) Windsor Road, oherwydd bod y monitro a wnaed yn yr ardal hon wedi dangos cydymffurfiaeth gyson â'r safon ansawdd awyr ar gyfer NO_2

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae Ansawdd yr Awyr yn parhau i gydymffurfio'n gymharol dda. Fodd bynnag, fel y soniwyd yn fyr yn Adroddiad Cynnydd 2017, cofnodwyd rhagori ar y Safon Ansawdd Awyr ar gyfer NO_2 , ($40\mu\text{g}/\text{m}^3$) yn nghanol y dref, oddi ar Stryd y Parc. Mae'n debygol y caiff Ardal Rheoli Ansawdd yr Awyr ei datgan, ac y bydd SRS yn briffio Cabinet Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd cyn unrhyw benderfyniad ffurfiol i ddatgan yr AQMA.

Pori ceffylau'n anghyfreithlon – nid yw pori ceffylau'n anghyfreithlon yn rhywbeth y gellir ei reoli neu ei ragweld yn rhwydd, a gallai digwyddiad mawr ddigwydd heb rybudd ymlaen llaw, a allai gael goblygiadau sylweddol o ran adnoddau a chostau i'r gwasanaeth. Mae angen cynllunio a rheoli'r fath ddigwyddiadau yn llawn, yn enwedig wrth ystyried y risgiau o ran cost y gellir eu cysylltu ag ymgymryd â gweithrediadau o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu'r Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru), a gallai fod canlyniadau o'r adolygiad hwn a fydd o bosibl yn effeithio ar y gwasanaeth. Oherwydd nifer yr adrannau a materion ar draws awdurdodau, nid yw SRS eto wedi terfynu gweithdrefn gytûn. Caiff hyn ei gwblhau yn 18/19.

Bridio Cŵn yn anghyfreithlon – mae ymchwiliadau diweddar wedi amlygu diwydiant cudd. Felly bydd Swyddogion yn parhau i ymchwilio i fridio cŵn heb ei drwyddedu. Mae maes penodol o bryder yn perthyn i fridio 'iard gefn' oherwydd bod hyn yn gysylltiedig â gweithgarwch troseddol arall a throedd gyfundrefnol. Bydd swyddogion yn gweithio gydag asiantaethau partner, SWP, HMRC, RSPCA i ymchwilio i adroddiadau am unrhyw weithgareddau bridio sy'n torri Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn)(Cymru) 2014.

Afiechyd Anifeiliaid – Bydd y Tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cymryd rhan mewn Ymarfer Cenedlaethol i brofi cynlluniau a pholisïau cyfwng Cenedlaethol y Llywodraeth ar gyfer rheoli cychwyn clwy'r traed a'r genau Prif bwrpas Ymarfer Blackthorn yw rhoi cynlluniau Cyfwng a pholisïau cyfredol y DU, gan gynnwys y Strategaethau Rheoli ar brawf, er mwyn rheoli cychwyniad

o'r fath a bydd hefyd yn rhoi ymateb weithredol APHA, y model cychwyniad ac yn adolygu cyfathrebiadau, gwydnwch a galluedd.

Strategaeth Tir Llygredig – Cafodd Strategaethau Tir Llygredig Unigol eu cytgordio er mwyn creu Strategaethau Tir Llygredig drafft ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro. Caiff hyn ei derfynu a'i adrodd i'r Cydbwyllgor yn 2018.

Cynllun Nyth Cartrefi Cynnes – Nod cynllun Nyth Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru, Mae'r cynllun yn darparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim i bobl sy'n derbyn budd-dal ar sail prawf modd sy'n berchen ar eu cartref eu hun neu'n ei rentu'n breifat. Gall y gwelliannau hyn gynnwys berwedydd, system gwres canolog neu insiweiddio newydd. Mae buddsoddi mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn darparu nifer o fuddion. Mae'n lleihau biliau ynni'r cartref ac yn gwella iechyd yr aelwydydd a gynhelir. Mae ymchwil yn dangos bod y cynllun Nyth yn helpu i atal cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â'r oerni gyda lleihad taro ymlaen o ran defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. O 3 Ebrill 2018, bydd SRS yn gweithio gyda Nwy Prydain sy'n darparu'r chynllun, gan fod yr amodau wedi'u diwygio fel yn achos y tenantiaid yn y sector rhentu preifat, bydd ymchwiliad o'r eiddo hefyd yn ofynnol yn unol â'r System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai, i gael ei gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru. Canlyniad hyn fydd y byddwn yn gallu achosi dileu Peryglon Categori 1 mewn cartrefi mewn cartrefi lle y mae rhai o'r aelodau cymdeithas mwyaf agored i niwed yn byw, oherwydd eu hoedran, yn hen ac yn ifanc, a'r rhai sy'n dioddef o salwch. Bydd hyn ddim yn unig yn berthnasol i oerni gormodol ond i bob un o'r 29 o beryglon o fewn y System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai. Mae hefyd yn ein galluogi i wneud atgyfeiriadau i'r cynllun lle y byddwn yn dod o hyd, yn ystod ein hymchwiliad o gwynion sy'n perthyn i lety'r sector preifat, fydd yn lleihau'n fawr effaith oerni gormodol ar iechyd preswylwyr.

Beth rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Gwarchod yr amgylchedd	Prif Gyfrifoldeb
Mae'r amgylchedd yn cael ei warchod rhag allyriadau niweidiol i'r tir, yr aer a'r dŵr	
Darparu arweiniaeth dechnegol i Gyngor Caerdydd ar ymgymryd ag Astudiaeth Dichonoldeb er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth â'r terfyn cyfreithiol ar gyfer Nitrogen Deuocsid gan sicrhau y caiff y Cynllun Cychwynnol ei gwblhau erbyn Medi 2018 a datblygu'r Cynllun terfynol.	H Picton
Cyflwyno adroddiadau blynyddol ar gynnydd ar gyfer Dyletswyddau LAQM i Ben-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro.	H Picton
Adolygu data Ansawdd Awyr ac ystyried gweithredu a dileu, fel sy'n briodol, Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Awyr o fewn y rhanbarth.	H Picton
Terfynu'r Strategaeth Tir Llygredd cytun ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg.	H Picton
Bydd pobl yn defnyddio adeiladau a nwyddau sy'n effeithlon o ran ynni	
Ymgymryd ag asesiad o'r goblygiadau sy'n codi o gyflwyno'r Rheoliadau Tystysgrif	W Lane

Perfformiad Ynni a datblygu gwerthusiad o opsiynau i'w hystyried gan gynghorau partner ar sut y byddai'n well gan gynghorau i'r dasg gael eu rheoli.	
Adeiladu ar y gwaith rhagweithiol yr ymgwymerwyd ag ef mewn perthynas â chartrefi gwag er mwyn cynyddu nifer y tai gwag y daethpwyd ag ef yn ôl i'w aildddefnyddio yng Nghaerdydd.	W Lane
Gweithio ar y cyd â Thîm Strategaeth Tai Cyngor Caerdydd i fanteisio ar gyfleoedd i leihau nifer y cartrefi gwag.	W Lane
Adolygu ac ymgynghori ar Bolisi Eiddo Gwag Cyngor Caerdydd.	W Lane
Gweithio gyda Nwy Prydain i gyflwyno'r Cynllun Nyth Cartrefi Cynnes trwy ymgymryd ag ymchwiliadau o eiddo rhentu preifat yn unol â'r System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai.	W Lane

Mae anifeiliaid yn cael eu trin yn dda

Terfynu'r Weithdrefn Pori'n Anghyfreithlon a Cheffylau ar Grwydr.	H Picton
Gweithio gydag asiantaethau partner i ymchwilio i adroddiadau am unrhyw weithgareddau bridio sy'n torri Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn)(Cymru) 2014.	H Picton
Cymryd rhan mewn Ymarfer Cenedlaethol i brofi cynlluniau a pholisiau cyfwng Cenedlaethol y Llywodraeth ar gyfer rheoli cychwyn Clwy'r Traed a'r Genau.	H Picton


Mae cymunedau yn fwy diogel ac yn cael eu gwarchod rhag niwsans

Ymgynghori ar Orchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus er mwyn darparu rheolau cŵn ym Mro Morgannwg.	W Lane
Ymgynghori ar y Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus arfaethedig er mwyn darparu rheolau cŵn ym Mro Morgannwg.	W Lane


Beth fyddwn yn ei fesur yn ystod 2018/19

Mesurau Perfformiad 2018/19	Targed
• Yn achos cwynion am sŵn lle mae angen i swyddog ddod i'r safle, cyfartaledd yr amser rhwng derbyn y gwyn, a'r swyddog yn dod i'r safle.	O dan ystyriaeth
• % y cwynion am sŵn domestig ac aer yr ymatebir iddynt o fewn 3 diwrnod gwaith	90%
• % y cwynion am sŵn masnachol a diwydiannol, ac aer yr ymatebir iddynt o fewn un diwrnod gwaith	75%
• % y cwynion am larymau yr ymatebir iddynt o fewn diwrnod.	90%
• % y cŵn strae a ddychwelir i'w perchennog, neu a ailgartrefir.	90%
• % yr eiddo sector preifat gwag a aildddefnyddir yn ystod y flwyddyn yn ystod y flwyddyn drwy gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol (Caerdydd yn unig)	I'w gadarnhau
• Nifer yr aneddu ychwanegol a grëir o ganlyniad i aildddefnyddio eiddo gwag (Caerdydd yn unig)	I'w gadarnhau

Cefnogi'r economi leol



Yn ychwanegol, mae'n canlyniadau hefyd yn cyfrannu at yr amcanion llesiant canlynol:-



6.4 Cefnogi'r economi leol


Cyflwyniad

Mae economi leol gref yn elfen bwysig o'r ansawdd bywyd a brofir gan bobl leol. Mae gwaith GRHR yn cael effaith sylweddol ar yr economi leol, er nad yw hynny'n amlwg bob tro. Mae rhoi cyngor a chanllawiau amserol ar reoliadau, yn gallu gwneud busnesau yn hyfyw, gan arwain at arferion busnes gwell. Mae ein rhan gynyddol fel Prif Awdurdod yn brawf i'r honiad hwn. Mae llawer o'n gwaith gwyliadwriaeth yn y farchnad yn canolbwyntio ar gadw cydbwysedd o fewn y "lle marchnad". Mae gorfodi rheoliadau mewn ffordd deg yn cynorthwyo busnesau i gystadlu ar delerau cyfartal, gan sicrhau amgylchedd masnachu tecach. Mae ein swyddogaeth fel rheoleiddwr yn ymestyn i roi gwybodaeth ac addysgu, er mwyn cefnogi cwsmeriaid i'w galluogi i fod yn fwy hyddysg a hyderus. Mewn oes lle mae pobl yn gallu prynu nwyddau a gwasanaethau heb adael y cartref, nid yw'r egwyddor o "caveat emptor" erioed wedi bod mor berthnasol.


Ein perfformiad

Pen-y-bont ar Ogwr Caerdydd Bro Morgannwg


PPN/008(ii) % o'r busnesau hylendid bwyd newydd a nodwyd ac a dderbyniodd ymweliad




PPN/008 (i) % y busnesau safonau masnach newydd a nodwyd ac a dderbyniodd ymweliad



Cynrychiolwyr Diogelwch Bwyd/Iechyd a Diogelwch a oedd yn teimlo y bydd yr hyfforddiant a gawsant o fudd i'w busnesau.



Cynrychiolwyr diogelwch bwyd/iechyd a diogelwch a fyddai'n argymhell yr hyfforddiant i'w gyd-flogai, cydweithiwr neu ffrind.



Ffynhonnell – Ymatebydd i holiadur gwerthuso hyfforddiant



Cefnogi'r economi leol

Beth rydym wedi'i gyflawni

Amgylchedd masnachu teg yn cael ei gynnal;

Tybaco anghyfreithlon – mae GRhR wedi cael gafael ar symiau mawr o dybaco anghyfreithlon eleni ar ôl archwilio eiddo yn ôl yr arfer, a chynnal ymgyrch Wagtail gyda'r cŵn tybaco. O ganlyniad i'r ymgyrchoedd hyn ar y cyd atafaelwyd tua 300,000 o ffyn a 1500kg o dybaco anghyfreithlon, a chynhaliwyd 6 erlyniad.

Ymarferiad dilysnodi – Gweithiodd swyddogion o GRhR yn agos gyda'r Swyddfa Brofion i archwilio siopau gemau lleol ar y cyd ledled y rhanbarth er mwyn asesu cydymffurfiaeth â Deddf Dilysnodi 1973 a disgrifiad y nwyddau o dan Reoliadau Amddiffyn Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008. Canolbwyntiodd yr ymarferiad ar y rhai oedd â hanes o beidio cydymffurfio, y rhai oedd â chwyn wedi bod yn eu herbyn, busnesau newydd a stondinau marchnad. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Dilysnodi 1973 i eitemau o emwaith ddangos y dilysnodau priodol, ynghyd â hysbysiadau'n dangos gwybodaeth i gwsmeriaid pan gânt eu gwerthu. Cafodd dros 300 o eitemau o emwaith eu gwirio am y dilysnodau perthnasol, ac i weld a oeddynt yn cydymffurfio â'r disgrifiadau sy'n cyd-fynd â metelau a gemau gwerthfawr. Ar y cyfan, dim ond mewn pedair siop y cafwyd unrhyw broblemau, a chafodd yr eitemau hyn eu symud oddi yno yn syth. Yn ychwanegol, daeth swyddogion o hyd i swm o emwaith oedd yn mynd yn groes i nifer o reolau nodau masnach, er bod ganddynt y dilysnodau cywir. Amcangyfrifir bod gwerth yr eitemau hyn tua £25,000, ac fe'u hatafaelwyd tra bod ymchwiliad yn mynd rhagddo. Roedd yn arbennig o foddhaol gweld y darn yma o waith yn cael ei gydnabod gan y Cyngor Dilysnodi Prydeinig, lle cafodd GRhR Wobr am Ganmoliaeth Uchel yng Ngwobrau Touchstone 2018.

Cynghrair y Pencampwyr UEFA – Am dros 6 mis, roedd GRhR yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r digwyddiad mwyaf erioed i'w gynnal yng Nghaerdydd, sef gemau terfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA. Gan weithio'n agos gyda threfnwyr y digwyddiad, UEFA, Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chyngor Caerdydd, rhoddwyd cyngor a chymorth dros y cyfnod hwn ar ystod o faterion rheoleiddiol. Gyda'r digwyddiad rhwng 1 a 4 Mehefin a llygaid y byd wedi'u hoelio ar dde Cymru, bu timau amlddisgyblaeth o staff yn monitro'r gwahanol leoliadau dros y cyfnod hwn i warchod lles ymwelwyr ac enw da busnesau fel ei gilydd. Bu'r timau'n gwirio gwahanol agweddau i sicrhau'r canlynol:-

- Nad oedd brandiau'n cael eu ffugio
- Bod safleoedd oedd yn gwerthu alcohol yn gwneud hynny o fewn amodau eu trwydded
- Bod bwyd oedd ar werth yn ddiogel i'w fwyta ac yn ateb y disgrifiad
- Nad oedd nwyddau anniogel yn cael eu gwerthu
- Bod tacsis yn gweithredu o fewn amodau eu trwydded
- Gwaredwyd ar unrhyw farchnata ansyddogol

Bu cyfathrebu effeithiol gyda'r holl bartneriaid, cymerwyd camau gorfodi wedi'i dargedu lle oedd angen a hynny drwy i GRhR gydweithio gyda Gweithrediadau'r Ddinas Cyngor Caerdydd, oedd â chamerau cylch cyfyng ledled y ddinas. Roedd hyn yn ganolog i'r ffaith i'r holl ddigwyddiad fynd rhagddo yn llyfn ac yn ddiogel.

Atafaelu nwyddau ffug – Yn ystod Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA yng Nghaerdydd, daeth swyddogion o hyd i fwci yn cynnig cyflenwi nifer o eitemau gan gynnwys peli troed, sgarffiau, crysau-T, a modrwyon allwedd ag arnynt nodau masnach gwahanol Juventus FC, Real Madrid a UEFA. Atafaelwyd 932 o eitemau i gyd, a chadarnhawyd yn ddiweddarach eu bod yn ffug. Gwnaed Gorchymyn Fforffediad o dan Ddeddf Nodau Masnach 1994 am y nwyddau i gyd.

Mae GRhR hefyd wedi cefnogi Deiliaid Nodau Masnach a Brand mewn cyngherddau mawr fel rhai Coldplay, Justin Bieber a'r ddwy ornest baffio gydag Anthony Joshua a gynhaliwyd yn Stadiwm y Principality ac Arena Motorpoint Caerdydd. Rhoddwyd cyngor i fasnachwyr cyn y digwyddiadau, a chafodd nwyddau oedd yn mynd yn groes i'r nodau masnach perthnasol eu cymryd oddi yno.



Cwsmeriaid gwybodus a hyderus

Fel rhan o'i swyddogaeth o Ddiogelu, mae'r Gwasanaeth yn rhoi cymorth i drigolion a nodir fel rhai sy'n agored i niwed, drwy ddatrys anawsterau yn codi o ganlyniad i sgamiau marchnata, a hefyd gyda phroblemau 'siopa' bob dydd. Drwy gynnig y gwasanaeth hwn, y nod nid yn unig yw datrys yr anhawster sy'n codi ar y pryd, ond rhoi'r wybodaeth a'r ymwybyddiaeth i'r trigolion, ynghyd â'u teuluoedd a'u gofalwyr, i osgoi problemau tebyg rhag codi yn y dyfodol. Mewn un achos diweddar, wynebodd cwpl oedrannus broblem gydag inswleiddio wal ddwbl oedd wedi'i roi yn ei le ddeuddeg mlynedd yn gynt. Achoswyd cryn dipyn o ddifrod i'r tŷ o ganlyniad i damprwydd yn dod o'r wal, ac roedd y gost o'i drwsio wedi'i amcangyfrif yn £17,000. Roedd y rhai wnaeth y gwaith inswleiddio wedi dod â'r busnes i ben ers tro, ac roedd hi'n ymddangos nad oedd unrhyw le gan y cwpl i droi. Gyda chymorth GRhR, darganfuwyd bod gan y cwpl warrant ar y gwaith am 20 mlynedd, a gefnogwyd gan yr Asiantaeth Gwarant Inswleiddio Waliau Dwbl (CIGA). Ar ôl trafod rhywfaint â'r Asiantaeth,

trefnwyd i dynnu'r inswleiddio, a gwneud gwaith atgyweirio i wneud iawn am y difrod i'r eiddo. Oherwydd i GRhR ymyrryd, arbedwyd y cwpl rhag talu £17,000 am y gwaith hwn.

Mewn achos arall, roedd preswylwr hŷn mewn anghydfod â chwmmni cymhorthion anabledd ynglŷn â chyflenwi lifft grisiau a'i roi yn ei le. Roedd problemau gyda'r ffordd y rhoddwyd y lifft yn ei lle, a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd. Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol oedd yn cadarnhau'r sefyllfa, ond roedd y masnachwr yn gwrthod gwneud dim i'w ddatrys. Fodd bynnag, llwyddodd GRhR i helpu'r preswylwr i wneud cais yn erbyn ei gwmni cerdyn credyd. Roedd y cais yn llwyddiannus ac adalwyd £1972 iddo'n llawn.

Mae'r rhain ond yn ddwy enghraifft dros y flwyddyn lle mae GRhR wedi llwyddo i wneud gwahaniaeth mawr i fywydau trigolion sydd angen help i ddatrys problemau o'r math yma. Gan fuddsoddi amser swyddog i roi cyngor ar osgoi problemau tebyg yn y dyfodol, canlyniad yr ymyriadau hyn yw bod ein trigolion mwyaf bregus hyd yn oed, a'u teuluoedd yn gwybod yn llawer gwell sut i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Arferion a gweithredu gwell gan fusnesau

Cais am Gymhorthdal ASB – Yn ystod 2017/18 derbyniodd GRhR gais gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) am grant o £8,000 i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch bwyd o fewn rhanbarth GRhR. Cafodd canllawiau a dogfennau yn rhoi cyngor eu diweddarau fel rhan o'r cais i helpu busnesau bwyd i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r ASB wedi rhoi adborth bod rhai o'r dogfennau hyn yn cael eu defnyddio gan rai awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, sy'n dangos gwerth y canllawiau. Fel rhan o'r cais, rhoddodd yr ASB hefyd seminarau Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell a hyfforddiant Rheoli Diogelwch Bwyd (HACCP) i 50 o fusnesau o fewn rhanbarth GRhR. Mae'r adborth o'r cyrsiau hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda 100% o hyfforddeion HACCP a 96% o hyfforddeion Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell yn rhoi adborth bod yr hyfforddiant a dderbyniion nhw yn mynd i wella safonau cydymffurfiaeth o fewn eu busnes.

Yn Agored i Fusnes – Ledled y rhanbarth, rhoddodd GRhR drwyddedau i dros 850 o safleoedd trwyddedig sy'n rhan o economi'r dydd ac economi'r nos, a 500 o drwyddedau personol i bobl gael gwerthu alcohol. Rhoddwyd y trwyddedau hyn yn unol â datganiad y polisiau trwyddedu ac roeddent yn amodol ar asesiad gwydn i sicrhau bod yr holl safleoedd ac unigolion yn addas a phriodol i gyflawni'r swyddogaethau sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Rhoddwyd y trwyddedau i gyd o fewn y cyfyngiad amser statudol gan ein bod yn ceisio sicrhau bod mentrau busnes cyfreithlon yn gallu agor ar amser, a'r holl ofynion rheoleiddiol yn eu lle ac wedi'u cymeradwyo.

Digwyddiad Partneriaeth yn rhoi help a chyngor ar godi safonau iechyd a diogelwch – Yn unol â Strategaeth 'Helping Great Britain Work Well' y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE), bu i GRhR mewn partneriaeth â'r HSE, Iechyd Cyhoeddus Cymru a busnesau lleol hwyluso digwyddiad i roi cyngor syml, hygyrch a pherthnasol i fusnesau lleol. Mae BEEP (Bridgend Employers Engagement Project) yn gynllun cydweithredol lleol sydd wedi bod yn gweithio gyda 500 o fusnesau lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd digwyddiad yng Ngwesty Heronston yn yr ardal i adeiladu ar y gwaith a wnaed. Y nod oedd grymuso busnesau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ar ddulliau cymesur a chost-effeithiol o reoli risg, gan annog cyflogaion a pherchnogion busnes i gymryd mwy o berchnogaeth ar faterion iechyd a diogelwch. Mae rheoli iechyd a lles gweithwyr yn lleihau cost salwch ac absenoldeb, a gostiodd £500 miliwn i economi Cymru y llynedd. Roedd cynnwys y fforwm busnes wedi'i seilio ar ganlyniadau ymweliadau â safleoedd, a'r adborth oedd bod y cynnwys a phatrwm y digwyddiad yn llwyddiannus. Dywedodd 100% o fusnesau eu bod wedi dysgu rhywbeth, a 91% y byddent yn gwneud newidiadau i'w lle gwaith oherwydd eu bod wedi

mynychu'r Fforwm. At hynny, cydnabuwyd y gwaith hwn gan Grŵp Diogelwch De a Gorllewin Cymru, a roddodd Dystysgrif Canmoliaeth i GRhR.

Gwasanaethau hygyrch sy'n ymateb i anghenion busnes.

Prif Awdurdod – Mae'r Cynllun Prif Awdurdod yn galluogi busnes i greu partneriaeth statudol ag awdurdod lleol, a thrwyddo gall dderbyn cyngor gwarantedig Cyhyd â'i fod yn dilyn y cyngor hwn, gall y Prif Awdurdod (PA) herio camau gorfodi bwriadus gan awdurdodau lleol eraill. Mae gan GRhR bellach ugain o'r Partneriaethau Prif Awdurdod hyn yn eu lle gyda busnesau lleol a chenedlaethol, a gall godi tâl am y gwaith a wneir fel rhan o'r trefniadau hyn ar sail adfer y gost yn llawn. Ers Hydref 2017, gwnaed newidiadau sylfaenol i'r cynllun Prif Awdurdod yn sgil gwelliannau i'r Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau. Mae hyn wedi ehangu'r cyfle i GRhR greu mwy o bartneriaethau PA. O ganlyniad, mae angen rhagor o gymorth ar rai Partneriaethau Prif Awdurdod yn Lloegr ar gyfer materion sydd wedi'u datganoli i Gymru. Rhaid i fusnesau sy'n masnachu yng Nghymru mewn sectorau fel bwyd, iechyd y cyhoedd, amaethyddiaeth, gwarchod yr amgylchedd, rheoli llygredd a thai gael partner Prif Awdurdod yng Nghymru os yw cyngor gwarantedig i gael effaith yng Nghymru. Mae GRhR ar hyn o bryd yn cefnogi 5 o'n 20 partneriaeth yn y dull newydd hwn i sicrhau bod Prif Awdurdodau ar gael drwy Gymru. Mae hyn yn cynnwys rhai 'enwau mawr' yn y sector manwerthu gyda thrafodaethau yn mynd rhagddynt i greu nifer o bartneriaethau Cymreig posib eraill.

Newyddion am Fwyd a Diogelwch – Mae ymrwymiad y Gwasanaeth i gynghori a chefnogi busnesau bwyd i gydymffurfio'n gyfreithiol a chyrraedd y safonau uchaf posib yn parhau drwy gyfrwng ein cylchlythyr bob chwe mis. Ei nod yw rhoi gwybodaeth, addysgu a chynghori busnesau bwyd ar ddiogelwch bwyd ac iechyd a diogelwch ledled Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg.



Cyfleoedd Hyfforddiant – Mae GRhR wedi hyfforddi 124 o unigolion drwy gyfrwng ei gyrsiau Diogelwch Bwyd ac Iechyd a Diogelwch i Lefel 2 a 3. At hynny cafwyd cymhorthdal i hyfforddi 50 yn rhagor o bobl mewn HACCP a Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell. Mae'r ymateb i'r hyfforddiant yn gadarnhaol gyda 100% o'r mynychwyr yn dweud y bydd o fudd i'w busnes.

Cyswllt digwyddiadau mawr – Yn ystod 2017/18, aeth GRhR i nifer o Banelau Cyswllt Digwyddiadau (ELP) a Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau (ESAG) ledled y rhanbarth, ac aseswyd 60 o gyflwyniadau ar bapur, yn ychwanegol at y rheiny yr oedd rhaid ymweld â nhw. Derbyniodd digwyddiadau fel gêm derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA, Eisteddfod yr Urdd, Sioe Pen-y-bont ar Ogwr, Sioe'r Fro, Sioe Flodau'r RHS a nifer o rai eraill gyngor, sylwadau neu gymorth drwy ymweliad ar ddiogelwch bwyd, iechyd a diogelwch, safonau masnach, llygredd, trwyddedu a materion arbenigol fel defnydd dŵr.

Materion sy'n dod i'r amlwg

Cynnydd mewn busnesau bwyd newydd yng Nghaerdydd – Mae llewyrch a phoblogrwydd cynyddol Dinas Caerdydd yn golygu bod nifer y busnesau bwyd sy'n cael eu denu i'r ddinas yn cynyddu o hyd. O fewn cwta 5 mlynedd, mae cyfanswm y llefydd bwyd wedi cynyddu i 460. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar adnoddau, gan ei bod yn ofynnol dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd i fusnesau bwyd newydd gael eu harchwilio o fewn 28 diwrnod o agor. Mae'r sefyllfa'n waeth os yw busnesau'n cydymffurfio'n wael pan gânt eu harchwilio'r tro cyntaf, gan olygu bod rhaid ymyrryd ymhellach.

Isafbris Uned o Alcohol – Mae Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2008-18, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed*, yn amlinellu nifer o feysydd gweithredu i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan alcohol a sylweddau eraill a gamddefnyddir, gan gynnwys ymrwymiad i ddellio ag argaeledd, a gwarchod unigolion a chymunedau drwy weithgarwch gorfodi. Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn adeiladu ar yr ymrwymiad hwn, ac yn aros am Gydsyniad Brenhinol. Mae'r ddeddfwriaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth gref fod amrywio pa mor fforddiadwy yw alcohol yn fodd dilys o fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan alcohol, a bydd yn dod i rym 12 mis wedi Cydsyniad Brenhinol.

O dan y ddeddf newydd, bydd yn drosedd cyflenwi alcohol o dan yr isafbris perthnasol, a chyfrifir hyn drwy ystyried cryfder alcoholaidd y cynnyrch a'i gyfaint. Rhagwelir mai 50c fydd isafbris uned, a diben y ddeddfwriaeth yw gwarchod iechyd pobl sy'n tueddu i yfed mwy o gynnyrch pris-isel/alcohol uchel, sy'n niweidiol ac yn beryglus. Mae ymchwil yn dangos y bydd seidr gwyn cryfder uchel a diodydd tebyg yn dyblu mewn pris o weithredu'r ddeddfwriaeth. Tra bydd ychydig o effaith ar werthiant alcohol mewn archfarchnadoedd, bydd isafbris uned yn effeithio ar gynigion aml-brynu a'u tebyg, a sefyllfaoedd lle mae alcohol yn cael ei werthu ar y cyd â nwyddau neu wasanaethau.

Mae hon yn ddeddfwriaeth newydd i'r fasnach a bydd y rhai na fydd yn cydymffurfio yn wynebu hysbysiad cosb benodedig o £200, neu ddirwy o fwyafswm o £1000 os yw'r mater yn cyrraedd y llys. Fel bod y fasnach yn ymwybodol o ofynion y gyfraith, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ymweld â phob siop diodydd trwyddedig, a'u cynghori, cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth a wedi hynny. Ledled rhanbarth y GRhR, mae tua 635 o siopau diodydd trwyddedig, ac mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gost o ymweld â'r rhain ar raddfa o £61.32 yr ymweliad.

Digwyddiadau Mawr – Mae GRhR yn chwarae rhan ganolog wrth gynnal digwyddiadau mawr ledled ardaloedd y tri awdurdod lleol. Y prif feysydd y byddwn yn rhoi mewnbyn iddynt yw diogelwch bwyd – sicrhau bod arlwywyr a gwerthwyr bwyd eraill yn cydymffurfio'n fras; ac iechyd a diogelwch – sicrhau bod trefniadau cynnal y digwyddiad yn bodloni safonau derbyniol o fewn cyd-destun y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Gellir teilwra cymorth ychwanegol ar gyfer digwyddiadau penodol, fel yn achos cyngherddau pop a gornestau bocsi mewn stadiwm, lle mae perygl i nwyddau ffug gael eu gwerthu'r tu allan. Wrth i Gaerdydd yn benodol gynyddu mewn poblogrwydd fel lleoliad i gynnal digwyddiadau, mae manteision amlwg i'r economi leol ehangach o'r llif o ymwelwyr, yn ogystal â'r masnachwyr lleol hynny sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol yn y digwyddiadau. Er mwyn sicrhau cydlynu priodol gyda'r holl asiantaethau partner, i baratoi ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr yn ddiraffferth, mae'r Gwasanaeth yn rhan o'r Panel Cysylltu Digwyddiadau yng Nghyngor Caerdydd a'r Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

Manwerthu ar-lein – Mae'r Rhyngwrwd yn ddiamau yn gwthio newid, ac mae'r siopau mawr wedi ymateb drwy fabwysiadu strategaethau gwerthu amrywiol, a thra nad yw'r stryd fawr eto wedi dirywio'n llwyr, mae'r siopau traddodiadol ar ei hyd yn dechrau dod yn eilradd. Mae'n edrych yn anochel y bydd effaith fawr ar faint a natur y stryd fawr yn y tymor hir, wrth i siopa ar-lein ddod yn weithgaredd llawer mwy cyffredin. Mae technoleg gwybodaeth a'r amgylchedd digidol sy'n prysur ddatblygu hefyd yn achosi newid yn y ffordd y mae pobl yn rhyngweithio, gan gynnwys y ffordd y maen nhw'n gwneud hynny'n fasnachol. Mae cwsmeriaid cyfoes yn cyrchu nwyddau a gwasanaethau ledled y byd yn gynyddol drwy gyffwrdd sgrin eu ffôn neu daro llygoden eu cyfrifiadur. Mae'r Rhyngwrwd yn rhoi cyfle enfawr i gwsmeriaid. Mae'n ehangu maint y farchnad y maen nhw'n gweithredu ynddi ac felly'n cynnig mwy o ddarparwyr ac yn rhoi mwy o ddewis iddynt. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n bosibl i gymharu nwyddau, cyflenwyr a phrisiau ar raddfa na welwyd erioed o'r blaen. Y Rhyngwrwd yw'r ddyfais sy'n rhoi'r grym mwyaf erioed i gwsmeriaid. Canlyniad hyn i gyrff sy'n gorfodi'r gyfraith fel GRhR yw bod y stryd fawr "weledol" wedi symud i weithgaredd

sy'n digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig. Mae'n rhaid i'r gwaith o fonitro'r farchnad drwy ddulliau gwylidwriaeth traddodiadol felly newid, neu bydd GRhR ond yn gallu ymateb i ddigwyddiadau yn hytrach na'u hatal.

Brexit a newidiadau mewn deddfwriaeth – Yn dilyn pleidlais Brexit Mehefin 2016 mae cwestiynau diddiwedd ar sut y gallai'r DU ddatgymalu'r cyfreithiau, polisïau a fframweithiau cydgyssylltiedig oddi wrth weddill yr Undeb Ewropeaidd. Mae Brexit yn golygu newid, ond ni all ddychwelyd cwsmeriaid i'r marchnadoedd lleol oedd yn bodoli cyn i'r DU ymuno â'r Gymuned Ewropeaidd yn 1973. Mae bellach siopau cadwyn enfawr sydd ag arbedion maint ac sy'n ymestyn dros ranbarthau, cenhedloedd a ffiniau rhyngwladol. Mae GRhR yn cefnogi'r sefydliadau proffesiynol drwy roi cyngor ac arbenigedd ar ystod o faterion gan gynnwys diogelwch cynnyrch, mesureg, masnach deg yn ddinesig ac yn droseddol, bwyd a bwyd anifeiliaid ac ati. Mae effeithiau'r newid yn ansicr ac yn mynd i gymryd amser i ddod i ffrwyth; beth bynnag a ddaw, bydd yn cael effaith enfawr ar y GRhR.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf


Cefnogi'r economi leol	Prif Gyfrifoldeb
Amgylchedd masnachu teg yn cael ei gynnal	
Cynnal arolwg pwysau a mesurau yn canolbwyntio ar economi'r nos, gyda phwyslais penodol ar goctels, disgrifiadau a bariau dros dro.	C Hill
Ymweld â phob siop gwerthu diodydd trwyddedig i rannu llenyddiaeth ar y gofynion newydd o ran isafbris uned, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith cwsmeriaid, gan roi canllawiau a chefnogaeth o ran cydymffurfio fel sy'n briodol.	H Picton
Cwsmeriaid gwybodus a hyderus	
Lansio cynllun "Prynwch yn Hyderus" (masnachwr cyfrifol) ledled y rhanbarth i roi tawelwch meddwl i drigolion wrth siopa neu ddewis masnachwr, gan gefnogi pobl fusnes ag enw da drwy roi geirada 'Cymeradwy gan Safonau Masnach' iddynt.	H Picton
Cefnogi Mis Sgamiau Cenedlaethol drwy roi hyfforddiant i staff ledled Cyngor Bro Morgannwg drwy'r system ar-lein i-Dev a chynnal digwyddiad ymgysylltu Cyfeillion yn erbyn Sgamiau	H Picton
Arferion a gweithredu gwell gan fusnesau	
Ymestyn cyfleoedd hyfforddi i fusnesau drwy ddatblygu a chynnig hyfforddiant mewn HACCP a Thrwyddedu.	H Picton
Datblygu a hybu canllawiau cynghori ar gyfer busnesau bwyd gan gynnwys datblygu 'pennau'n siarad' ar wefan GRhR.	H Picton
Adeiladu ar lwyddiant hyfforddiant Diogelwch Bwyd a Phrif Awdurdod 2017 yn Stadiwm y Principality, drwy cynnal digwyddiad tebyg, gan dargedu'r busnesau hynny fethodd gael lle yn y digwyddiad diwethaf.	H Picton
Gwasanaethau hygyrch sy'n ymateb i anghenion busnes	
Hybu manteision Partneriaethau Prif Awdurdod gyda'r nod o gynyddu'r nifer o fewn y GRhR.	H Picton

Yn dilyn llwyddiant darparu hyfforddiant mewn diogelwch bwyd yn yr iaith Wrddw, cynnig hyfforddiant i fusnesau eraill lle nad yw Saesneg yn famiaith i'w staff.	H Picton
Adolygu canlyniadau'r Fforymau Tacsï chwarterol sy'n hwyluso ymgysylltu â gyrwyr, gweithredwyr a pherchnogion cerbydau ac ystyried unrhyw gynigion am newidiadau i drefn trwyddedu tacsï yng Nghaerdydd, a'r fforymau fel ffordd o ymgysylltu'n effeithiol.	W Lane


Yr hyn fyddwn yn ei fesur yn ystod 2018/19

Mesurau Perfformiad 2018/19	Targed
<ul style="list-style-type: none"> % y busnesau newydd a nodwyd a fu'n destun ymweliad asesiad risg neu a ddychwelodd holiadur hunanasesu yn ystod y flwyddyn am hylendid bwyd. 	90%
<ul style="list-style-type: none"> % y busnesau newydd a nodwyd a fu'n destun ymweliad asesiad risg neu a ddychwelodd holiadur hunan-asesu yn ystod y flwyddyn am Safonau Masnach. 	80%
<ul style="list-style-type: none"> % y busnesau a deimlodd bod rhyngweithio gyda GRhR wedi'u helpu i wella safonau cydymffurfiaeth yn eu busnes. 	85%
<ul style="list-style-type: none"> % y busnesau sy'n fodlon â'n gwasanaethau cynghori busnesau y telir amdano. 	Sefydlu gwaelodlin
<ul style="list-style-type: none"> % yr unigolion sy'n teimlo y bydd yr hyfforddiant a dderbynion nhw drwy GRhR o fudd i'w busnes. 	95%

Manteisio i'r eithaf ar adnoddau



Yn ychwanegol, mae'n canlyniadau hefyd yn cyfrannu at yr amcanion llesiant canlynol:-



6.5 Manteisio i'r eithaf ar adnoddau

Cyflwyniad


Manteisio i'r eithaf ar adnoddau oedd y catalydd gwreiddiol i greu GRhR, ac mae ein gwaith yn y maes hwn yn parhau. Lleihau "treblu" ymdrech, cyflwyno prosesau gwell, gwneud i'n systemau weithio heb ymyrraeth barhaol a gwella mynediad at y gwasanaeth – bydd y cyfan oll o fudd i'n busnes, ac yn bodloni cwsmeriaid yn fwy.

Rydym yn creu incwm, lle mae'n bosib, i fedru cynnal ein gwasanaethau; gweithgareddau fel marchnata ein labordy fesureg, cynnig gwasanaethau cynghori y telir amdanynt, creu Partneriaethau Prif Awdurdod ac ymestyn ein darpariaeth hyfforddi i fusnesau. Maent i gyd yn enghreifftiau o'r ffordd yr ydym yn creu diwylliant mwy "masnachol".


Yn fwy na dim, rydym yn cydnabod mai'r bobl sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth sy'n allweddol i lwyddiant GRhR. Byddwn yn sicrhau bod ein swyddogion yn effeithiol wrth eu gwaith drwy fuddsoddi mewn cyfleoedd dysgu a datblygu, drwy eu cynnwys yn llawn yn natblygiad y gwasanaeth, a drwy feithrin amgylchedd lle mae pobl yn cael eu hannog i feddwl, arwain ac arloesi.

Ein perfformiad


Nifer y diwrnodau sâl o'r gwaith cyfwerth ag amser llawn




% cyflogeion y GRhR sy'n cytuno'n gryf/cytuno eu bod yn gwneud popeth y gallant i gynnig gwasanaeth o safon i'n cwsmeriaid.




% cyflogeion y GRhR sy'n cytuno'n gryf/cytuno eu bod yn fodlon yn gweithio i'r GRhR.




% cyflogeion y GRhR sy'n cytuno'n gryf/cytuno eu bod yn gallu sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng eu gwaith a'u cartref.




% y busnesau bwyd yn fodlon â lefel gyffredinol y gwasanaeth



% yr hyfforddeion a ddywedodd fod yr hyfforddiant a dderbynyon nhw yn wych





Manteisio i'r eithaf ar adnoddau

Beth rydym wedi'i gyflawni

GRhR yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon ledled y 3 ardal;

Timau amlddisgyblaethol a rhannu adnoddau – Mae'r cysyniad o weithio'n fwy cyffredinol a datblygu swyddogion amlddisgyblaethol wedi dod â manteision lu i'r gwasanaeth. Gan adeiladu ar welliannau a wnaed yn un rhan o'r gwasanaeth, mae ein Timau Llygredd a Thai wedi dechrau'r broses o draws-ymarfer i gefnogi ei gilydd yn ystod y galw mwyaf. Mae hyn eisoes wedi arwain at Swyddogion sy'n arbenigo mewn materion Rheoli Llygredd yn cyflawni hyfforddiant System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai ac yn helpu swyddogion â gwaith gorfodi yn ystod gaeaf 2017/18. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y gwasanaeth hefyd yn cyflwyno rhaglen hyfforddi i Swyddogion Diogelwch Bwyd i fagu eu hyder a'u cymhwysedd o ran safonau bwyd gyda'r nod o wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau, gan alluogi swyddogion diogelwch bwyd i gwblhau ymyriadau diogelwch bwyd ar yr un pryd ag archwiliadau diogelwch bwyd mewn busnesau safonau bwyd risg isel. Mae'r ddwy fenter yma yn dod â manteision i'r gwasanaeth drwy adeiladu gwasanaeth mwy cydlynol, cadarn a hyblyg a rhoi amrywiaeth o waith i aelodau o'r tîm ynghyd â chyfleoedd datblygu gyrfaol.

Gweithdrefnau ac arferion gwaith gwell – Mae cysoni a gwella ein gweithdrefnau a'n harferion gwaith yn weithgaredd allweddol ar draws y GRhR cyfan. Yn ystod y flwyddyn cymerodd swyddogion ar draws y Gwasanaethau Cymdogaethau ran mewn gweithgorau i drafod cysoni dulliau o ymchwilio i geisiadau gwasanaeth. Arweiniodd hyn at gynhyrchu set gynhwysfawr o lythyrau, y gellir cael mynediad iddynt drwy'r gronfa ddata Tascomi, mewn perthynas ag Archwiliadau Iechyd a Diogelwch Tai, Ymchwilio i Niwsans Statudol, gan gynnwys Sŵn, Mwg ac Arogleuon, Cwynion Iechyd Cyhoeddus a chwynion sy'n ymwneud ag eiddo gwag sydd ar agor i fynediad anawdurdodedig. Mae hyn wedi arwain at fwy o effeithlonrwydd mewn ymchwiliadau a sicrhau bod arfer gorau wedi'i ymgorffori yn y dull gweithredu ar draws y 3 chyngor gan gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i gleientiaid a dull cyson i landlordiaid ac asiantaethau gosod tai. Mae hefyd wedi caniatáu i swyddogion greu cysylltiadau defnyddiol o fewn y gwasanaeth gan nodi meysydd penodol o arbenigedd y gellir manteisio arnynt yn y dyfodol. Mae angen gwneud gwaith pellach yn awr i

dddefnyddio'r dull gweithredu hwn mewn perthynas â Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth a Safleoedd Carafanau.

Gwobr APSE – Gwnaeth y Gymdeithas Rhagoriaeth Sector Cyhoeddus (APSE) gynnwys y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar y rhestr fer ar gyfer un o'i gwobrau blynyddol; *Tîm Gwasanaeth Gorau'r Flwyddyn: Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Gwasanaeth Rheoliadol*. Mae hwn yn gyflawniad arbennig i wasanaeth a oedd wedi bod ar waith ers llai na dwy flynedd ar y pryd. Mae'n dyst i holl waith caled ac ymrwymiad y staff a chefnogaeth Aelodau Etholedig dros y cyfnod byr hwn o amser.



Gwobr Touchstone – Gwnaeth Cyngor Dilysnodi Prydain gydnabod gwaith gorfodi'r GRhR yn mynd i'r afael â phroblemau dilysnodi ar draws y rhanbarth drwy gyflwyno Gwobr Clod Uchel fel rhan o Wobrau Touchstone 2018. Roedd y wobwr yn ymwneud â phrosiect penodol a gyflawnwyd gan y GRhR lle cynhaliodd swyddogion gyd-archwiliadau gyda'r Swyddfa Brawf mewn siopau gemwaith lleol i asesu cydymffurfiaeth â Deddf Dilysnodi 1973 a'r disgrifiad o nwyddau dan Reoliadau Amddiffyn Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008.



Gwobrau Grŵp Diogelwch De a Gogledd Cymru – Cafodd swyddogion o'r GRhR hefyd eu cydnabod am eu gwaith iechyd a diogelwch mewn perthynas â Phrosiect Cysylltiadau Cyflogwyr Pen-y-bont ar Ogwr (BEEP) a'r fforwm busnes. Cawsant Dystysgrif Clod gan Grŵp Diogelwch De a Gogledd Cymru yn 2018.

Y cyhoedd a rhanddeiliaid yn gallu defnyddio ein gwasanaethau

Mynediad i wasanaethau'r GRhR – Un o ganlyniadau dymunol y GRhR yw rhoi mynediad i'r cyhoedd a rhanddeiliaid i wasanaethau GRhR. I helpu'r gwasanaeth i gyflawni hyn, gwnaethom y canlynol dros y flwyddyn ddiwethaf:-

- **Lansio ein cyfrif Twitter ein hunain** – Lansiodd cyfrif Twitter GRhR @SRS_Wales ym mis Medi 2017 ac mae wedi bod yn llwyddiannus yn hyrwyddo'r gwasanaeth a chyfleu negeseuon allweddol i drigolion a busnesau.
- **Cynhyrchu fideo GRhR** – Cynhyrchwyd y fideo "Ni yw'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir" yn fewnol i hyrwyddo gwaith y gwasanaeth a'n blaenoriaethau allweddol. Mae pawb sy'n ymddangos yn y fideo yn gweithio i'r gwasanaeth ar hyn o bryd.
- **Llunio canllaw GRhR** – Lluniwyd y Canllaw Byr i'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i hyrwyddo gwaith, blaenoriaethau allweddol a chyflawniadau'r gwasanaeth. Defnyddiwyd y canllaw i ddechrau i gyflwyno aelodau etholedig newydd y tri Chyngor i'r GRhR ac mae nawr ar gael ar wefan y GRhR.
- **Gwella gwefan y GRhR** – Mae gwefan y GRhR wedi'i gwella i gynnwys tudalen 'Amdanom ni' sy'n cynnwys fideo'r GRhR, y canllaw byr i'r GRhR a'n Cynllun Busnes, sy'n helpu i roi gywybodaeth i'r cyhoedd a rhanddeiliaid am bwy ydyn ni a sut y gallwn helpu.

Labordy Mesureg Achrededig UKAS – Ym mis Gorffennaf 2017, bu'r labordy mesureg yn Neuadd y Sir Caerdydd yn destun ymweliad ailasesu gan archwilwyr o Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS). Diben yr ymweliad oedd sicrhau bod y labordy'n parhau i gydymffurfio â safon ISO/IEC 17025, 'Gofynion cyffredinol ar gyfer labordai profi a chalibro'. Pan gafodd y labordy ei archwiliad llawn yn Awst 2016, soniodd yr Archwilwyr am '*labordy aeddfed a chymwys iawn ar gyfer calibradau a drefnir, heb unrhyw feysydd sylweddol o wendid. Mae ansawdd y calibro wedi'i gynnal ers cryn amser ac mae hyn oherwydd dull manwl a phroffesiynol y staff*'. Yn yr ailasesiad diweddar, roedd yr Archwilwyr yn falch o weld fod safon uchel y gwaith wedi'i gynnal a chrëwyd argraff arbennig arnynt gan y buddsoddiad diweddar yn y labordy mesureg – prynwyd offer o'r radd flaenaf sy'n cynnig cywirdeb gwell. Mae'r buddsoddiad hwn eisoes yn sbarduno cynnydd mewn gwaith calibro yn y labordy, gyda hwb cysylltiedig i incwm y GRhR. Yn ystod y flwyddyn mae'r GRhR wedi calibro a phrofi 753 o bwysau ac arteffactau ar gyfer amrywiaeth o fusnesau ar draws sectorau gwahanol. Rydym hefyd wedi cynnal Dilysiad Pwyswr Rheilffordd ar draws y DU i gefnogi contractwyr allanol.

Mae creu incwm yn sail i gynnis gwasanaethau cynaliadwy

Cynhyrchu incwm – Un o flaenoriaethau allweddol y GRhR yw mabwysiadu dull gweithredu mwy masnachol drwy ddatblygu gwasanaethau 'talu am' a'u marchnata i fusnesau. Nod y gweithgareddau masnachol hyn yw ategu gwasanaethau presennol gan hefyd gynhyrchu incwm. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwasanaeth wedi ehangu nifer y partneriaethau ag Awdurdodau Lleol i 20 ac ehangu'r Lab Mesureg sydd wedi'i achredu gan UKAS i gynnis gwasanaethau ychwanegol. At hynny, mae'r Gwasanaeth wedi cynnis hyfforddiant diogelwch bwyd lefel 2 a 3 ac iechyd a diogelwch i 124 o unigolion ac yn bwriadu ehangu ei hyfforddiant i feysydd fel HACCP a rheoli heintiau.

Gorchmynion Mannau Cyhoeddus – Mae'r tîm Rheoli Llygredd wedi bod yn arwain y gwaith o greu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus newydd yn y Fro. Roedd hyn yn cynnwys cydlynu'r broses ymgynghori a gweithio gyda'r Heddlu ac adrannau mewnol i nodi ardaloedd lle ceir lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol. Roedd hwn yn brosiect ychwanegol i'r GRhR y tu allan i gylch gwaith arferol y Gwasanaeth, gyda Chaerdydd a'r Fro ill dau yn comisiynu'r gwasanaeth i gyflawni'r gwaith hwn. Diben Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yw delio â niwsans neu broblemau mewn ardal benodol sy'n niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol drwy osod amodau ar y defnydd o'r ardal honno sy'n berthnasol i bawb, fel y gall y mwyafrif o bobl sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ddefnyddio a mwynhau ein hardaloedd cyhoeddus a bod yn ddiogel rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall ymddygiad y gellir ei reoli drwy gyfyngiadau neu ofynion cadarnhaol o fewn Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus gynnwys rheoli mynediad ar dir cyhoeddus, yfed alcohol, cŵn yn rhedeg yn rhydd a/neu faeddu, storio eitemau'r cartref neu wastraff, storio biniau olwynion ac ymddygiad ymosodol yn gysylltiedig â begera, gwerthu ar y stryd neu bregethu. Y cam nesaf fydd edrych ar fathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws y Fro, gyda sylw penodol yn cael ei roi i reoli cŵn.

Mae staff yn effeithiol wrth eu gwaith

Buddsoddi yn Nysgu a Datblygu Staff – Mae'r GRhR yn ymrwymedig i ddatblygu staff i sicrhau eu bod yn effeithiol yn eu rolau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn nifer o weithgareddau dysgu a datblygu i gefnogi'r busnes, gan gynnwys:-

- Bu'n rhaid i'r gwasanaeth recriwtio swyddogion anghymwys i swyddi Swyddogion Technegol yn y tîm Gwasanaethau Masnachol oherwydd prinder sgiliau. Gwnaed hyn ar yr amod eu

bod yn cwblhau eu harholiadau proffesiynol yn llwyddiannus a fyddai'n eu galluogi i gwblhau archwiliadau hylendid bwyd. Yn dilyn llwyddiant 3 o'r swyddogion hyn gyda'u cymwysterau proffesiynol ym mis Mawrth 2018, cwblhawyd rhaglen fentora i sicrhau eu bod yn hyderus a chymwys i gymryd rhan yn y rhaglen archwilio busnesau bwyd yn ystod y flwyddyn. Cafodd hyn effaith gadarnhaol (ynghyd â ffactorau eraill) ar y targedau perfformiad, gan godi'r gwasanaeth at y dyluniad model gweithredu gwreiddiol.

- Bu'n bosibl i ni hefyd gefnogi dau swyddog i gyflawni eu cymhwyster safonau bwyd a gwnaeth y swyddogion hynny hefyd gyflawni eu cymwysterau CSCATS a DCATS gan CTSI. Rydym hefyd yn y broses o gefnogi swyddog arall i gyflawni'r cymhwyster Mesureg.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi rhoi hyfforddiant cymhwysedd cyfreithiol i swyddogion ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau datblygu proffesiynol eraill, gan gynnwys amrywiaeth eang o hyfforddiant i gefnogi prosiectau penodol, fel hyfforddiant gwely haul, hyfforddiant diogelwch cynhyrchion, hyfforddiant cerbydau modur, hyfforddiant e-sigarennau, hyfforddiant porthiant a bwyd, hyfforddiant Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a hyfforddiant eiddo deallusol.

Arolwg Staff GRhR – Ym mis Ionawr 2018, cynhaliodd y GRhR ei arolwg staff cyntaf, wedi'i anelu'n benodol at gyflogeion y GRhR. Diben yr arolwg oedd pennu canfyddiadau cyflogeion o agweddau amrywiol ar weithio i'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar ôl tair blynedd ar waith. Dosbarthwyd yr arolwg yn electronig a chafwyd cyfradd ymateb o tua 77%. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan gyflogeion gyda 68.18% o'r canlyniadau yn y categori 'ardderchog' i 'da iawn'. Roedd angen gwelliant pellach mewn rhai meysydd ac mae Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â'r materion allweddol a godwyd. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal bob blwyddyn.

Adolygiad Risg Iechyd a Diogelwch – Mae cyflogwyr yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr yn y gwaith, yn ogystal â'r cyflogeion eu hunain - dylent gymryd gofal rhesymol o'u hunain a phobl yr effeithir arnynt gan eu gwaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf, adolygodd y GRhR ei asesiad risg iechyd a diogelwch mewn perthynas â gweithwyr peripatetig, gan gyflwyno system weithredu ddiogelach yn ystod oriau swyddfa. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthu 21 o ddyfeisiau adnabod 'Solo Protect' i swyddogion perthnasol, sy'n monitro gweithwyr unigol drwy Ganolfan Derbyn Larymau. Mae'r dyfeisiau cynnil hyn yn caniatáu i swyddogion negeseu'r Ganolfan Derbyn Larymau drwy bwysu botwm, lle caiff y digwyddiad ei ddilysu. Yna, caiff ymateb priodol ei weithredu. Mae technoleg GNSS (System Lloeren-lywio Fyd-eang) ac A-GNSS (GNSS â Chymorth) yn caniatáu i leoliad y swyddog gael ei ganfod, ac mae technoleg analluogi hefyd yn seinio larwm os bydd gweithiwr unigol yn cwmpo neu'n profi problem iechyd anhysbys.

Fframwaith Ymddygiad a Chynllun y Gweithlu – Ar ddechrau 2018, datblygodd y GRhR ei Gynllun Datblygu'r Gweithlu ei hun i ddangos sut mae swyddogion yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu sgiliau newydd a gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Gan gwmpasu meysydd fel diwylliant sefydliadol, arweinyddiaeth a rheolaeth, sgiliau craidd, recriwtio, cadw a chynnydd, cyfathrebu a chysylltiadau cyflogeion a rheoli perfformiad, mae'n cynnig fframwaith ar gyfer dysgu a datblygu. Yn ategu Cynllun y Gweithlu mae fframwaith ymddygiad a grëwyd i ddiffinio sut y disgwylir i gyflogeion y GRhR wneud eu gwaith. Mae'n cynnwys set o ymddygiadau craidd ac yn darparu manylion am yr ymddygiad a'r agweddau a ddisgwylir gan bob cyflogai a'r ffydd a roddir ynddo i gefnogi gweledigaeth, blaenoriaethau, canlyniadau a diwylliant y GRhR gan ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleoedd datblygu a nodir drwy'r broses adolygu perfformiad.

Materion sy'n dod i'r amlwg

Cyflawni gyda llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr Amgylchedd a dinasyddion – Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dynodi y bydd ei raglen waith ar gyfer 2018-19 yn cynnwys “materion, themâu a dysgu” a nodwyd yn adroddiadau cynharach yr Astudiaeth Llywodraeth Leol ac yn pennu sut mae'r argymhellion hynny wedi'u dilyn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried gwneud gwaith yn edrych ar sut mae'r Cynghorau wedi ymateb i adroddiad 2014, “Cyflawni gyda llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion”. Mae yna gynigion hefyd i edrych ar Drefniadau Diogelu Corfforaethol. Mae gan y GRhR rôl i'w chwarae yn yr asesiadau hyn ar draws y tri Chyngor partner ac mae trafodaethau wedi dechrau gyda chydweithwyr perfformiad i baratoi ar gyfer unrhyw ofynion archwilio. Daeth yr archwiliad blaenorol i nifer o gasgliadau gan wneud nifer o argymhellion, gan gynnwys y sylw, “ac eithrio'r cydweithredu arfaethedig rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, nid oes rhaglen drawsnewidiol o newid wedi nac yn digwydd. Golyga hyn fod gwaith i ddiogelu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd at y dyfodol i sicrhau bod y cyngor yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol wedi bod yn gyfyngedig iawn yn y rhan fwyaf o Gynghorau. Mae hyn yn cynrychioli risg i iechyd a lles pawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n ymweld â'r wlad.” Petai'r Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu adolygu cynnydd yn erbyn yr adroddiad, bydd y GRhR yn gallu dangos rhaglen newid lwyddiannus a chysylltiadau cryfion â blaenoriaethau cenedlaethol a chorfforaethol, er y pwysau ariannol heriol.

Sicrhau cymhwysedd – Mae'r gyfraith yn parhau i newid ac mae cymhwysedd ein swyddogion yn parhau'n flaenoriaeth bwysig. Er enghraifft, cyhoeddodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd God Ymarfer Cyfraith Bwyd diwygiedig sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd ac sy'n gwneud nifer o newidiadau arfaethedig – mae'r un pennaf yn cynnwys egluro gofynion cymhwyso a chymhwysedd swyddogion awdurdod lleol. Mae'r gofyniad penodol hwn yn cyflwyno fframwaith cymhwysedd newydd sy'n effeithio ar y mater o gadw staff ac yn rhoi baich ychwanegol ar swyddogion arweiniol i asesu cymhwysedd pob swyddog bwyd. Disgwylir newidiadau eraill mewn deddfwriaeth, fel cynnydd mewn hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus o 10 i 20 awr. Bydd yn bwysig sicrhau bod gan y GRhR yr adnoddau i reoli'r datblygiadau hyn petaent yn cael eu gweithredu yn y pen draw.

Archwiliad ASB – Mae Adroddiad Archwilio'r ASB ar yr archwiliad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017 eto i'w gytuno, ond mae'r awgrymiadau cychwynnol yn awgrymu nifer o gyfleoedd gwella y gellid eu gweithredu gan y GRhR yn ystod y flwyddyn i ddod.

Trefniadau ariannu – Mae'r GRhR wedi adolygu trefniadau ariannu gyda'r Cynghorau partner. Crëwyd y GRhR yn 2015 a chytunwyd ar fodel ariannu am dair blynedd. Cyflwynwyd y model hwnnw'n llwyddiannus, a chytunodd y Cydbwyllgor ar gynigion am gynllun ariannol yn cwmpasu'r tair blynedd nesaf o'r gwasanaeth a rennir. Mae angen canfod y gostyngiadau hynny o 5% y flwyddyn am y tair blynedd nesaf o wasanaethau craidd yn hytrach na gwasanaethau awdurdod-benodol. Bydd angen ail-alinio'r gwasanaeth rywfaint ac mae cynigion wedi'u cytuno ar gyfer ymgynghoriad â staff yng ngwanwyn 2018. Bydd penderfyniad terfynol ar weithredu'r arbedion cyllidebol hynny'n cael ei wneud ym mis Medi 2018.

Model Gweithredu Gwybodaeth – Gyda'r lleihad yn y gyllideb sydd ar gael i'r GRhR, mae angen dod o hyd i ffyrdd callach, mwy effeithlon o ddarparu ein gwasanaethau hanfodol. Mae trin a dadansoddi gwybodaeth yn effeithiol wedi bod yn gonglfaen i Safonau Masnach ers nifer o flynyddoedd, gyda chreu'r Model Gweithredu Gwybodaeth (IOM) cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r Gwasanaeth a Rennir wedi gwireddu eto botensial llawn y dull a arweinir gan wybodaeth ar lefel leol a rhanbarthol. Nod yr IOM yw:-

- Bod yn adnodd hyblyg i helpu i gyflawni Safonau Masnach ar y rheng flaen;

- Cael ei ddefnyddio gan bob Gwasanaeth Safonau Masnach awdurdod lleol heb ystyried maint ac adnoddau;
- Helpu i gydlynu gwaith gorfodi yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i osgoi unrhyw fylchau gorfodi posibl;
- Galluogi penderfyniadau hyddysg er mwyn delio â'r risgiau a'r bygythiadau mwyaf;
- Helpu i nodi materion a phroblemau presennol neu rai sy'n dod i'r amlwg;
- Galluogi proses effeithiol o ddyrannu adnoddau.

Drwy ddefnyddio'r model a symud i ffwrdd o weithdrefnau sy'n cael eu llywio'n llwyr gan archwiliadau, mae yna fantais i wasanaethau - gosodir tasgau'n fwy effeithlon i swyddogion mewn meysydd o waith â blaenoriaeth. Gan ddilyn set o feini prawf y cytunwyd arni ar gyfer blaenoriaethu galwadau, gall pecynnau gwybodaeth gael eu paratoi i'w gweithredu gan staff proffesiynol, a gall y wybodaeth hon gael ei chymryd o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys data cwynion cwsmeriaid, gwybodaeth ffynhonnell agored ar y rhyngwrwyd, cofnodion cyhoeddus ac adroddiadau yn y cyfryngau; yn ogystal â gwybodaeth ffynhonnell gaeedig o'r awdurdod ac sy'n cael ei rhannu gan bartneriaid.

Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol hynny sy'n cyflawni llawn botensial y dull a arweinir gan wybodaeth yn gwneud hynny drwy benodi staff pwrpasol i drin a dadansoddi gwybodaeth, gan ryddhau swyddogion proffesiynol i ganolbwyntio ar eu rolau gorfodi. Er bod yr IOM wedi'i ddatblygu gyda golwg ar Safonau Masnach, mae ei lwyddiant yn golygu bod iddo apêl ehangach nawr, gan gynnwys o fewn swyddogaeth lechyd yr Amgylchedd rhai awdurdodau. Dyma fyddai nod y GRhR yn sefydlu'r dull a arweinir gan wybodaeth, i ddechrau o fewn y disgyblaethau Safonau Masnach, Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru, Ymchwiliadau Mawr a Diogelu, gan ehangu'r egwyddor dros amser i feysydd gwaith eraill.

Cyswllt Digwyddiadau Mawr – Ers nifer o flynyddoedd, mae dinas Caerdydd wedi dod yn fwyfwy poblogaidd fel lleoliad digwyddiadau, ac mae'r Cyngor yn glir yn ei ddyhead i ddenu mwy a mwy o ddigwyddiadau o ansawdd uchel. Yn dilyn llwyddiant Cynghrair y Pencampwyr 2017, mae lleoliad Caerdydd ar y map digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol yn saff. Mae'r GRhR eisoes yn teimlo effaith y cynnydd sylweddol hwn yn nifer a maint y digwyddiadau mawr sy'n cael eu cynnal yn y ddinas, yn arbennig yn 'nhymor digwyddiadau' y gwanwyn a'r haf. Fel yr amlinellir yn yr adran 'Cefnogi'r economi leol' ar dudalen X, y prif feysydd y byddwn yn rhoi mewnbyn iddynt yw diogelwch bwyd – sicrhau bod arlwywyr a gwerthwyr bwyd eraill yn cydymffurfio'n fras; ac iechyd a diogelwch – sicrhau bod trefniadau ar gyfer cynnal y digwyddiad yn bodloni safonau derbyniol o fewn cyd-destun y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Mae digwyddiadau'n aml yn cael eu llwyfannu ar benwythnosau a Gwyliau Banc a gyda'r nos, a gall hyn ychwanegu at y gost o fynychu, a gyda thîm GRhR bach yn gweithio ar ddigwyddiadau (yn ogystal â dyletswyddau eraill), mae yna anawsterau gweithredol sylweddol os oes mwy nag un digwyddiad ar yr un diwrnod. O fewn y cyd-destun o gyllideb GRhR ostyngol, mae'n amlwg bod angen adolygu ein hymwneud â digwyddiadau mawr, sy'n hanfodol i les a diogelwch y cyhoedd; ynghyd â'n gallu i adennill costau am y gwasanaethau a ddarperir mewn digwyddiadau er mwyn cynyddu nifer y swyddogion y gellir eu dyrannu.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Manteisio i'r eithaf ar adnoddau

Prif Gyfrifoldeb

GRhR yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon ledled y 3 ardal

O fewn cyd-destun o gyllideb ostyngol, gweithredu'r Model Gweithredu Gwybodaeth fel y ffordd newydd o weithio ar draws y disgyblaethau Uned Benthycyca Arian Anghyfreithlon Cymru, Safonau Masnach, Ymchwiliadau Mawr a Diogelu, gyda golwg ar ymestyn y dull gweithredu hwn i feysydd eraill o'r Gwasanaeth mewn tro.

H Picton/C Hill

Ymgysylltu ag unrhyw archwiliadau sy'n tarddu o Archwilydd Cyffredinol Cymru ar draws y 3 ardal ALL mewn perthynas ag iechyd yr amgylchedd a diogelu.

D Holland

Paratoi a gweithredu arbedion cyllidebol ar gyfer 2019/10.

D Holland

Gweithredu'r arolwg cyswllt cwsmeriaid ar gyfer y gwasanaeth cyfan.

H Picton

Gweithredu gwelliannau a nodwyd yn Adroddiad Archwilio'r ASB unwaith y cytunir arnynt ac y'u cyhoeddir.

C Hill

Y cyhoedd a rhanddeiliaid yn gallu defnyddio ein gwasanaethau

Adolygu effeithiolrwydd mecanweithiau presennol a ddefnyddir gan randdeiliaid i gael mynediad i wasanaethau'r GRhR, yn arbennig mewn perthynas â chyswllt ffôn ac e-bost.

H Picton

Gwella'r broses o wneud penderfyniadau trwyddedu drwy ddarparu hyfforddiant i aelodau etholedig.

W Lane

Datblygu gwefan i hwyluso'r ymgynghoriad ar Geisiadau Trwyddedau Amgylcheddol.

W Lane

Mae creu incwm yn sail i gynnig gwasanaethau cynaliadwy

Defnyddio mecanweithiau arfer gorau i gyflawni adolygiad cynhwysfawr o ffioedd trwyddedu.

W Lane

Adolygu rôl y GRhR yn darparu cefnogaeth i ddigwyddiadau mawr gan gynnwys penderfynu ar y gost wirioneddol i'r Gwasanaeth o gynnig cymorth ar draws y tair ardal awdurdod lleol.

H Picton

Nodi enghreifftiau o arfer da yn cynhyrchu incwm mewn meysydd eraill, a gwerthuso effeithiolrwydd modelau tebyg sy'n cael eu mabwysiadu gan y GRhR.

H Picton

Mae staff yn effeithiol wrth eu gwaith

Parhau i adeiladu ar y traws-ymarfer a gynhaliwyd yn y Tîm Llygredd ac adolygu adnoddau a gweithgareddau datblygu i sicrhau bod cyflogeion yn gymwys ac yn gallu gweithio ar draws disgyblaethau gwahanol yn y Gwasanaethau Cymdogaeth.

W Lane

Gweithredu rhaglen hyfforddi ar gyfer Swyddogion Diogelwch Bwyd i fagu hyder a chymhwysedd mewn ymyriadau safonau bwyd.

C Hill

Cwblhau'r broses DPP gyda phob cyflogai GRhR.

Pob RhG/RhT

Adolygu Cynllun Datblygu'r Gweithlu.

C Hill

Cwblhau camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Arolwg Staff GRhR 2018.

D Holland

Cynnal arolwg staff.

H Picton

Gweithredu unrhyw argymhellion sy'n codi o'r adolygiad o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd mewn perthynas â sicrhau cymhwysedd a chymwysterau swyddogion bwyd.

C Hill

Beth fyddwn yn ei fesur yn ystod 2018/19

Mesurau Perfformiad 2018/19

Targed

Nifer cyfartalog y diwrnodau salwch fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn.

5.00

% yr Adolygiadau Datblygu Perfformiad staff a gwblheir.

100%

% y staff sy'n cyflawni 10 awr o DPP/datblygu personol yn ystod y flwyddyn.

100%

% y staff sy'n teimlo bod ganddynt y cydbwysedd cywir rhwng bywyd a gwaith.

100%

% y staff sy'n gweithio yn y GRhR sy'n fodlon â'u swydd yn y GRhR.

100%

% y staff ac aelodau'r Cyngor sy'n fodlon o ran eu gallu i ddefnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt gan y GRhR.

90%

Appendix 1 – Risk Register

Risk Register Risks									
Risk Description and Consequence		L	C	Inherent Risk	Current controls	L	C	Residual Risk	Owner
RR1	Bydd diffyg adnoddau a chpasiti i ddarparu gwasanaethau a gynlluniwyd yn arwain at gollu gwasanaethau a gostyngiad yn lefelau perfformiad.	A	1	Coch	Mae'r Gwasanaeth yn edrych ar ffyrdd newydd o flaenoriaethu gwasanaethau a threfnu gweithgareddau ar sail risg, yn unol â llai o adnoddau..	B	2	Oren	Pennaeth Gwasanaeth
RR2	Gallai cymhlethdodau wrth ddyrannu adnoddau arwain at ddiffyg dealltwriaeth, a chamleoli adnoddau.	A	1	Coch	Cyfrifydd penodol yn cael ei benodi i'r Gwasanaeth. Trefniadau llywodraethu yn eu lle i fynd i'r afael â diffyg dealltwriaeth. Parhau i adolygu a safoni prosesau ariannol	C	2	Oren	Pennaeth Gwasanaeth
RR3	Gallai diffyg systemau TGCh sy'n addas at y diben amharu ar y gallu i weithio fel uned wasanaeth sengl a chael effaith ar allu'r Gwasanaeth i weithio'n gallach ac yn fwy effeithlon.	A	1	Coch	Mae cronfa ddata gwe Tascomi a roddwyd ar waith ym mhob rhan o'r 3 awdurdod yn 2017 yn galluogi cyflogaion i weithio o bell. Mae gliniaduron a dyfeisiau symudol a roddwyd i staff yn eu galluogi i weithio'n fwy hyblyg.	C	3	Oren Gwyrdd	Pennaeth Gwasanaeth
RR4	Byddai methiant i sicrhau cysondeb ledled y tair ardal yn arwain at wasanaeth yn defnyddio arferion gwaith, polisiau a gweithdrefnau gwahanol, yn arwain at anghysonderau ac aneffeithlonrwydd ar draws y tair ardal.	A	2	Coch	Bydd adolygiad rheolaidd o bolisiau a gweithdrefnau allweddol yn parhau gyda golwg ar wella a harmoneiddio yn ystod 2018/19.	C	3	Oren Gwyrdd	Bwrdd Rheoli

RR5	Gallai anallu staff a rheolwyr i addasu i ffordd newydd o weithio, a diwylliant o weithio hyblyg effeithio'n negyddol ar staff. Gallai hynny yn ei dro effeithio ar allu'r gwasanaeth i gynnig gwasanaethau o ansawdd uchel mewn ffordd hyblyg..	B	2	Coch	Mae datblygu'r diwylliant iawn yn thema allweddol yng Nghynllun Datblygu'r Gweithlu sydd yn yr arfaeth. Yn hanfodol i hyn fydd datblygu fframwaith sy'n nodi ymddygiad gofynnol gan staff.	C	3	Oren Gwyrdd	Tîm Rheoli GRhR
RR6	Gallai methiant i weithredu cyfyngiadau priodol a rheoli diogelu data arwain at dorri'r gyfraith, a thrafferthion wrth rannu/trosglwyddo data rhwng y tri awdurdod.	B	2	Coch	Datblygwyd protocol ar gyfer rhannu data. Bydd rhaid ei adolygu yn erbyn GDPR 2018.	C	3	Oren Gwyrdd	Tîm Rheoli GRhR
RR7	Gallai methiant i adnabod anghenion dysgu a datblygu staff a rhoi adnoddau y tu cefn iddo, er mwyn ymateb i rolau gwahanol ac anghenion brys ac amcanion tymor hir y gwasanaeth, arwain at ddiffyg galluedd ymhlith staff. Gallai hyn yn ei dro effeithio ar allu'r Gwasanaeth i gynnig gwasanaethau.	A	2	Coch	Rhoi'r cynllun gweithlu ar waith ar gyfer y gwasanaeth.	D	3	Gwyrdd	Tîm Rheoli GRhR
RR8	Mae rhoi Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir dan ymbarél un awdurdod, ynghyd â brandio unigryw mewn perygl o wahanu neu ynysu'r Gwasanaeth oddi wth y cynghorau sy'n aelodau ohono.	B	2	Coch	Bydd y Gwasanaeth yn parhau'n berthnasol i bob un o'r tri awdurdod drwy gysylltiadau gyda Chynlluniau Corfforaethol yr awdurdodau hynny. Cyswllt yn parhau gydag aelodau ac uwch swyddogion. Llwyddiannau'r gwasanaeth newydd yn cael eu hybu.	C	3	Gwyrdd	Pennaeth Gwasanaeth
RR9	Gallai gweithredu deddfwriaeth newydd roi pwysau ychwanegol ar gynnig gwasanaethau.	B	3	Oren	Llwythi gwaith yn cael eu hadolygu a'u monitro, a phroses yn ei le i Bennaeth y Gwasanaeth adrodd yn rheolaidd i'r awdurdodau partner.	D	3	Gwyrdd	Pennaeth Gwasanaeth

Appendix 2 – Action Plan

Gwella iechyd a llesiant

Prif Gyfrifoldebau

Mae'r gadwyn fwyd yn ddiogel ac yn rhydd o beryglon

Datblygu a mabwysiadu Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2018/19 sy'n amlinellu'r trefniadau sydd yn eu lle i gyflawni dyletswyddau o ran diogelwch bwyd.

C Hill

Datblygu a mabwysiadu Cynllun Iechyd Porthladdoedd 2017/18

C Hill

Rheolir risgiau yn y gweithle yn briodol

Datblygu a mabwysiadu Adran 18 Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch 2017/18 sy'n amlinellu'r trefniadau sydd yn eu lle i gyflawni dyletswyddau iechyd a diogelwch.

C Hill

Cyflawni ymarferiadau gorfodi di-fwg mewn bariau shisha.

C Hill

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar weithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

C Hill/H Picton

Rheolir allyriadau sŵn ac aer

Cyfrannu at bolisi cynllunio drwy roi sylw a data i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd 2018-2023.

W Lane

Datblygu Canllaw Cynllunio Atodol ar ansawdd sŵn ac aer yng Nghaerdydd fel rhan o'r Strategaeth Ansawdd Aer.

W Lane

Cynhelir amgylchedd masnachu teg

Ymroi i gadw gwylidwriaeth ar farchnadoedd er mwyn cael gwared ar nwyddau ffug neu anniogel, gan ganolbwyntio'n arbennig ar eitemau i'r cartref fel nwyddau cosmetig ac eitemau trydanol, a chynnyrch ffug ac anniogel i'r tŷ fel nwyddau glanhau.

C Hill

Cynnal project ar y cyd rhwng Safonau Masnach a Thai y Sector Preifat mewn perthynas â diogelwch llosgyddion pren, nwyddau ail law gan gynnwys nwyddau gwynion, celfi ail law a labeli tân a TPY mewn fflatiau a thai preifat.

C Hill

Cynnal ymgyrch gynghori ar gyfer manwerthwyr sy'n gwerthu nwyddau asid ledled rhanbarth GRhR, iddyn nhw gadw cofnod o werthiant, a gweithredu cyfyngiad oedran gwirfoddol ar werthiant nwyddau.

C Hill

Safleoedd Trwyddedig yn gweithredu'n gyfrifol

Cynnal adolygiad o'r Datganiad o Bolisi'r Ddeddf Drwyddedu a'r Parth Effaith Cronnol yn unol â'r Canllawiau Adran 182 diwygiedig yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr, a'i gyhoeddi, yn dilyn ymgyngoriad â rhanddeiliaid a chael cydsyniad y Cyngor.

W Lane

Cynnal adolygiad o'r Datganiad o Bolisi'r Ddeddf Gamblo ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg, a'i gyhoeddi, yn dilyn ymgyngoriad â rhanddeiliaid a chael cydsyniad y Cyngor.

W Lane

Ceir gwelliant yn ansawdd eiddo preifat ar rent

Ar y cyd â Rhentu Doeth Cymru, cynnal archwiliadau o asiantaethau gosod tai i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, amodau'r drwydded a'r cod ymarfer, a thrwy gyfleu negeseuon allweddol ynglŷn â pheidio cydymffurfio.

W Lane

Cynnal ymarferiad rhagweithiol o fewn ardal Pen-y-bont ar Ogwr i gael gafael ar wybodaeth am dai amlfeddiannaeth sydd y tu allan i'r Cynllun Gorfodol, er mwyn sicrhau bod gwiriadau priodol yn digwydd.

W Lane

Cynnal ymarferiad rhagweithiol yn ardal Plasnewydd Caerdydd i nodi tai amlfeddiannaeth didrwydded a sicrhau bod ceisiadau'n cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol.

W Lane

Gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub a Llywodraeth Cymru mewn ymateb i dân Grenfell drwy sicrhau bod unrhyw adeiladau sy'n dod dan gyfrifoldeb GRhR yn cael eu hadfer.

W Lane

Cynnal rhaglen hyfforddi ar gyfer cyflogion GRhR ar oblygiadau'r Ddeddf Rhentu Tai.

W Lane

Rheolir ac atelir clefydau heintus

Sicrhau bod y Cynllun Gwasanaeth Clefydau Trosglwyddadwy 2018/19 yn cael ei gymeradwyo.

C Hill

Cynnig gweithdai rhanbarthol ar reoli heintiau i datwyddion a thyllwyr croen i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n gyson â deddfwriaeth rheoli heintiau, ac i baratoi busnesau ar gyfer y gofynion gweithdrefnau arbennig fel y'u hamlinellir yn y Bil Iechyd Cyhoeddus.

C Hill

Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed

Prif Gyfrifoldebau

Diogelir plant rhag sylweddau a nwyddau niweidiol

Ymgymryd ag ymarferiad gwerthiant dan oed parthed Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 sydd newydd ei chyflwyno a threfniadau yn ymwneud â thyllu rhannau personol o'r corff, gan gymryd camau priodol yn erbyn yr ymarferwyr hynny sydd yn troseddu.

C Hill

Ymgymryd ag ymarferiad gwerthiant dan oed parthed gwerthiant cyflenwadau alcohol ar-lein i bobl o dan 18 oed.

C Hill

Diogelir pobl hŷn ac agored i niwed rhag masnachwyr diegwyddor a sgamwyr

Gwella mynediad at wybodaeth ddiogelu ar wefan y GRhR drwy adolygu a gwella'r wybodaeth ar y tudalennau gwe.

H Picton

Codi ymwybyddiaeth o sgamiau, troseddau carreg drws a phroblemau diogelu eraill drwy ddatblygu taflenni ac arweiniad a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.

H Picton

Adeiladu perthnasoedd â ffederasiynau megis Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr i osod yr arferion masnachu presennol ar draws y rhanbarth a bwydo'r blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer ymyrryd gan gynnwys cudd-wybodaeth, addysg a gweithgareddau gorfodi.

H Picton

Atelir gweithgareddau benthyg arian yn anghyfreithlon

Ailadrodd yr ymarfer projectau cymunedol a ariannwyd gan Enillion Troseddu sy'n gwahodd ymgeiswyr ledled Cymru i gynnig am gyllid er mwyn mynd â phrojectau yn eu blaenau a mentrau sy'n gysylltiedig ag atal a chynyddu ymwybyddiaeth o weithgaredd benthyg arian yn anghyfreithlon.

H Picton

Defnyddio arian DET i greu fersiwn ddwyieithog o lyfr stori plant 'Llund Dwrn o Blu', gan sicrhau fod copi ar gael i bob ysgol gynradd a meithrinfa yng Nghymru. Drwy ddefnyddio'r llyfr stori i addysgu plant ifanc am fenthyg arian yn anghyfreithlon, bydd trafodaethau yn y cartref yn arwain at drosglwyddo neges rymus gan fod yn ddrych i lwyddiant yr ymgyrch 'atal smygu' a dargedwyd yn yr un modd.

H Picton

Codi proffil Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru trwy ymgysylltiad â'r cyfryngau, gan gynnwys cyfranogiad mewn rhaglen ddogfen radio am waith yr Uned, gyda golwg i gynyddu nifer y cwynion a dderbynnir am siarcod benthyg arian.

H Picton

Nid yw pobl fregus mewn perygl o ecsbloetiaeth, caethwasiaeth neu fasnachu pobl

Mynd i'r afael â rhaglen o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant gyda'r gymuned dacsis a rhanddeiliaid eraill.

W Lane

Ymgymryd â rhaglen o hyfforddiant i Swyddogion GRhR i gydnabod camfanteisio, caethwasiaeth neu fasnachu pobl yng nghwrs eu dyletswyddau.

W Lane

Darpariaeth tacsio yn ddiogel ac yn deg

Adolygu'r prawf gwybodaeth Gyrwyr Cerbydau Hacni / Llogi Preifat i gynnwys cwestiynau yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn unol â'r llyfryn CRhB a gynhyrchwyd yn 2017.

W Lane

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth tacsio newydd arfaethedig i reoli trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat.

W Lane

Gwarchod yr amgylchedd

Prif Gyfrifoldebau

Mae'r amgylchedd yn cael ei warchod rhag allyriadau niweidiol i'r tir, yr aer a'r dŵr

Darparu arweiniaeth dechnegol i Gyngor Caerdydd ar ymgymryd ag Astudiaeth Dichonoldeb er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth â'r terfyn cyfreithiol ar gyfer Nitrogen Deuocsid gan sicrhau y caiff y Cynllun Cychwynnol ei gwblhau erbyn Medi 2018 a datblygu'r Cynllun terfynol.

H Picton

Cyflwyno adroddiadau blynyddol ar gynnydd ar gyfer Dyletswyddau LAQM i Ben-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro.

H Picton

Adolygu data Ansawdd Awyr ac ystyried gweithredu a dileu, fel sy'n briodol, Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Awyr o fewn y rhanbarth.

H Picton

Terfynu'r Strategaeth Tir Llygredd cytun ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg.

H Picton

Bydd pobl yn defnyddio adeiladau a nwyddau sy'n effeithlon o ran ynni

Ymgymryd ag asesiad o'r goblygiadau sy'n codi o gyflwyno'r Rheoliadau Tystysgrif Perfformiad Ynni a datblygu gwerthusiad o opsiynau i'w hystyried gan gynghorau partner ar sut y byddai'n well gan gynghorau i'r dasg gael eu rheoli.

W Lane

Adeiladu ar y gwaith rhagweithiol yr ymgymryd ag ef mewn perthynas â chartrefi gwag er mwyn cynyddu nifer y tai gwag y daethpwyd ag ef yn ôl i'w aildefnyddio yng Nghaerdydd.

W Lane

Gweithio ar y cyd â Thîm Strategaeth Tai Cyngor Caerdydd i fanteisio ar gyfleoedd i leihau nifer y cartrefi gwag.

W Lane

Adolygu ac ymgynghori ar Bolisi Eiddo Gwag Cyngor Caerdydd.

W Lane

Gweithio gyda Nwy Prydain i gyflwyno'r Cynllun Nyth Cartrefi Cynnes trwy ymgymryd ag ymchwiliadau o eiddo rhentu preifat yn unol â'r System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai.

W Lane

Mae anifeiliaid yn cael eu trin yn dda

Terfynu'r Weithdrefn Pori'n Anghyfreithlon a Cheffylau ar Grwydr.

H Picton

Gweithio gydag asiantaethau partner i ymchwilio i adroddiadau am unrhyw weithgareddau bridio sy'n torri Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn)(Cymru) 2014.

H Picton

Cymryd rhan mewn Ymarfer Cenedlaethol i brofi cynlluniau a pholisïau cyfwng Cenedlaethol y Llywodraeth ar gyfer rheoli cychwyn Clwy'r Traed a'r Genau.

H Picton

Mae cymunedau yn fwy diogel ac yn cael eu gwarchod rhag niwsans

Ymgynghori ar Orchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus er mwyn darparu rheolau cŵn ym Mro Morgannwg.

W Lane

Ymgynghori ar y Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus arfaethedig er mwyn darparu rheolau cŵn ym Mro Morgannwg.

W Lane

Cefnogi'r economi leol

Prif Gyfrifoldebau

Amgylchedd masnachu teg yn cael ei gynnal

Cynnal arolwg pwysau a mesurau yn canolbwyntio ar economi'r nos, gyda phwyslais penodol ar goctels, disgrifiadau a bariau dros dro.

C Hill

Ymweld â phob siop gwerthu diodydd trwyddedig i rannu llenyddiaeth ar y gofynion newydd o ran isafbris uned, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith cwsmeriaid, gan roi canllawiau a chefnogaeth o ran cydymffurfio fel sy'n briodol.

H Picton

Cwsmeriaid gwybodus a hyderus

Lansio cynllun "Prynwch yn Hyderus" (masnachwr cyfrifol) ledled y rhanbarth i roi tawelwch meddwl i drigolion wrth siopa neu ddewis masnachwr, gan gefnogi pobl fusnes ag enw da drwy roi geirada 'Cymeradwy gan Safonau Masnach' iddynt.

H Picton

Cefnogi Mis Sgamiau Cenedlaethol drwy roi hyfforddiant i staff ledled Cyngor Bro Morgannwg drwy'r system ar-lein i-Dev a chynnal digwyddiad ymgysylltu Cyfeillion yn erbyn Sgamiau

H Picton

Arferion a gweithredu gwell gan fusnesau

Ymestyn cyfleoedd hyfforddi i fusnesau drwy ddatblygu a chynnig hyfforddiant mewn HACCP a Thrwyddedu.	H Picton
Datblygu a hybu canllawiau cynghori ar gyfer busnesau bwyd gan gynnwys datblygu 'pennau'n siarad' ar wefan GRhR.	H Picton
Adeiladu ar lwyddiant hyfforddiant Diogelwch Bwyd a Phrif Awdurdod 2017 yn Stadiwm y Principality, drwy cynnal digwyddiad tebyg, gan dargedu'r busnesau hynny fethodd gael lle yn y digwyddiad diwethaf.	H Picton

Gwasanaethau hygyrch sy'n ymateb i anghenion busnes

Hybu manteision Partneriaethau Prif Awdurdod gyda'r nod o gynyddu'r nifer o fewn y GRhR.	H Picton
Yn dilyn llwyddiant darparu hyfforddiant mewn diogelwch bwyd yn yr iaith Wrddw, cynnig hyfforddiant i fusnesau eraill lle nad yw Saesneg yn famiaith i'w staff.	H Picton
Adolygu canlyniadau'r Fforymau Tacsî chwarterol sy'n hwyluso ymgysylltu â gyrwyr, gweithredwyr a pherchnogion cerbydau ac ystyried unrhyw gynigion am newidiadau i drefn trwyddedu tacsîs yng Nghaerdydd, a'r fforymau fel ffordd o ymgysylltu'n effeithiol.	W Lane

Manteisio i'r eithaf ar adnoddau

Prif Gyfrifoldebau

GRhR yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon ledled y 3 ardal

O fewn cyd-destun o gyllideb ostyngol, gweithredu'r Model Gweithredu Gwybodaeth fel y ffordd newydd o weithio ar draws y disgyblaethau Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon Cymru, Safonau Masnach, Ymchwiliadau Mawr a Diogelu, gyda golwg ar ymestyn y dull gweithredu hwn i feysydd eraill o'r Gwasanaeth mewn tro.	H Picton/C Hill
Ymgysylltu ag unrhyw archwiliadau sy'n tarddu o Archwilydd Cyffredinol Cymru ar draws y 3 ardal ALI mewn perthynas ag iechyd yr amgylchedd a diogelu.	D Holland
Paratoi a gweithredu arbedion cyllidebol ar gyfer 2019/10.	D Holland
Gweithredu'r arolwg cyswllt cwsmeriaid ar gyfer y gwasanaeth cyfan.	H Picton
Gweithredu gwelliannau a nodwyd yn Adroddiad Archwilio'r ASB unwaith y cytunir arnynt ac y'u cyhoeddir.	C Hill

Y cyhoedd a rhanddeiliaid yn gallu defnyddio ein gwasanaethau

Adolygu effeithiolrwydd mecanweithiau presennol a ddefnyddir gan rhanddeiliaid i gael mynediad i wasanaethau'r GRhR, yn arbennig mewn perthynas â chyswllt ffôn ac e-bost.

H Picton

Gwella'r broses o wneud penderfyniadau trwyddedu drwy ddarparu hyfforddiant i aelodau etholedig.

W Lane

Datblygu gwefan i hwyluso'r ymgynghoriad ar Geisiadau Trwyddedau Amgylcheddol.

W Lane

Mae creu incwm yn sail i gynnig gwasanaethau cynaliadwy

Defnyddio mecanweithiau arfer gorau i gyflawni adolygiad cynhwysfawr o ffioedd trwyddedu.

W Lane

Adolygu rôl y GRhR yn darparu cefnogaeth i ddigwyddiadau mawr gan gynnwys penderfynu ar y gost wirioneddol i'r Gwasanaeth o gynnig cymorth ar draws y tair ardal awdurdod lleol.

H Picton

Nodi enghreifftiau o arfer da yn cynhyrchu incwm mewn meysydd eraill, a gwerthuso effeithiolrwydd modelau tebyg sy'n cael eu mabwysiadu gan y GRhR.

H Picton

Mae staff yn effeithiol wrth eu gwaith

Parhau i adeiladu ar y traws-ymarfer a gynhaliwyd yn y Tîm Llygredd ac adolygu adnoddau a gweithgareddau datblygu i sicrhau bod cyflogeion yn gymwys ac yn gallu gweithio ar draws disgyblaethau gwahanol yn y Gwasanaethau Cymdogaeth.

W Lane

Gweithredu rhaglen hyfforddi ar gyfer Swyddogion Diogelwch Bwyd i fagu hyder a chymhwysedd mewn ymyriadau safonau bwyd.

C Hill

Cwblhau'r broses DPP gyda phob cyflogai GRhR.

Pob RhG/RhT

Adolygu Cynllun Datblygu'r Gweithlu.

C Hill

Cwblhau camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Arolwg Staff GRhR 2018.

D Holland

Cynnal arolwg staff.

H Picton

Gweithredu unrhyw argymhellion sy'n codi o'r adolygiad o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd mewn perthynas â sicrhau cymhwysedd a chymwysterau swyddogion bwyd.

C Hill